

Comisiwn Ffiniau i Gymru

---

Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol

---

# Adroddiad Cynigion Diwygiedig

Hydref 2017

© Hawlfraint y Goron 2017

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.

I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch neges e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn [comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk](mailto:comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk)

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ein gwefan yn [www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk)

# Cynnwys

	Tudalen
<b>Rhagair</b>	
<b>1 Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
<b>2 Meini Prawf ar gyfer Arolygu Etholaethau Seneddol</b>	<b>2</b>
Cymhwyso darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd)	2
Cydadwaith yr ystyriaethau	3
Ffactorau na wnaeth y Comisiwn eu hystyried	3
Enwi a dynodi etholaethau	4
<b>3 Datblygu'r Etholaethau</b>	<b>5</b>
Nifer yr Etholwyr	5
Maint Etholaethau	5
Patrwm yr Etholaethau	5
Cynigion Cychwynnol	7
Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol	7
Cynigion Diwygiedig	8
Beth Nesa?	8
<b>4 Crynodeb o'r Cynigion Diwygiedig</b>	<b>9</b>
<b>5 Cynigion Diwygiedig yn Fanwl</b>	<b>10</b>
1. Ynys Môn a Bangor (Anglesey and Bangor)	15
2. Gwynedd	19
3. Conwy and Colwyn (Conwy a Cholwyn)	24
4. Flint and Rhuddlan (Y Fflint a Rhuddlan)	28
5. Alyn and Deeside (Alyn a Glannau Dyfrdwy)	31
6. Wrexham (Wrecsam)	34
7. De Clwyd a Gogledd Maldwyn (South Clwyd and North Montgomeryshire)	37
8. Brecon, Radnor and Montgomery (Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn)	42
9. Monmouthshire (Sir Fynwy)	46
10. Newport (Casnewydd)	49
11. Torfaen	52
12. Blaenau Gwent	55
13. Merthyr Tydfil and Rhymney (Merthyr Tudful a Rhymni)	58
14. Caerphilly (Caerffili)	62
15. Cynon Valley and Pontypridd (Cwm Cynon a Phontypridd)	65
16. Rhondda and Llantrisant (Rhondda a Llantrisant)	69
<b>Nodyn ar yr etholaethau arfaethedig ar gyfer Caerdydd</b>	<b>73</b>
17. Cardiff West (Gorllewin Caerdydd)	76
18. Cardiff North (Gogledd Caerdydd)	80
19. Cardiff South and East (De a Dwyrain Caerdydd)	84
20. Vale of Glamorgan East (Dwyrain Bro Morgannwg)	88
<b>Nodyn ar yr etholaethau arfaethedig ar gyfer ardaloedd Port Talbot, Sgiwen ac</b>	<b>91</b>

## ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG AROLWG 2018

	<b>Abertawe</b>	
	21. Bridgend and Vale of Glamorgan West(Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg)	<b>95</b>
	22. Ogmore and Aberavon (Ogwr ac Aberafan)	
	23. Neath (Castell-nedd )	<b>99</b>
	24. Swansea East (Dwyrain Abertawe)	<b>103</b>
	25. Gower and Swansea West (Gŵyr a Gorllewin Abertawe)	<b>106</b>
	26. Llanelli	<b>110</b>
	27. Caerfyrddin (Carmarthen)	<b>114</b>
	28. Mid and South Pembrokeshire (Canol a De Sir Benfro)	<b>118</b>
	29. Ceredigion and North Pembrokeshire (Ceredigion a Gogledd Sir Benfro)	<b>121</b>
		<b>125</b>
<b>6</b>	<b>Manylion Cyhoeddi</b>	<b>129</b>
<b>7</b>	<b>Y Cyfnod Ymgynghori</b>	<b>130</b>
<b>8</b>	<b>Gwybodaeth Ychwanegol</b>	<b>132</b>
	<b>Atodiad 1: Etholaethau Arfaethedig</b>	<b>133</b>
	<b>Atodiad 2: Mynegai Etholaethau Presennol</b>	<b>134</b>
	<b>Atodiad 3: Mannau Adneuo</b>	<b>135</b>

Argraffiad 1<sup>af</sup> cyhoeddwyd Hydref 2017

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Tŷ Hastings

Caerdydd

CF24 0BL

Ffôn: +44 (0) 2920 464 819

Ffacs: +44 (0) 2920 464 823

Gwefan: [www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk)

E-bost: [comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk](mailto:comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk)

# Rhagair

Ar 24 Mawrth 2017, cyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru ei gynigion cychwynnol ar gyfer etholaethau Seneddol yng Nghymru. Dechreuodd proses ymgynghori ar y cynigion hynny. Derbyniwyd cannoedd o sylwadau ysgrifenedig ar y cynigion cychwynnol gan y Comisiwn. Cynhaliwyd gwrandawriadau cyhoeddus ledled Cymru i alluogi aelodau'r cyhoedd i fynegi eu barn ar y cynigion cychwynnol ac i awgrymu sut y gellir ei ddiwygio a gwella hefyd. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb a gymerodd yr amser i gyfrannu. Mae'r Comisiynwyr wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a llafar yn ofalus iawn. O ganlyniad, rydym wedi diwygio ein cynigion cychwynnol. Rydym wedi cynnig newidiadau, yn aml newidiadau sylweddol, i 19 o 29 o'r etholaethau arfaethedig. Rydym hefyd wedi cynnig enwau wahanol ar gyfer 9 o'r etholaethau. Nawr mae cyfle i wneud sylwadau ar y cynigion diwygiedig hyn cyn inni wneud ein hadroddiad terfynol ar etholaethau Seneddol arfaethedig ar gyfer Cymru.

Fel yr eglurwyd yn yr adroddiad cychwynnol, mae'n rhaid i'r adolygiad o etholaethau gael ei gynnal yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Seneddol berthnasol. Mae'r Ddeddf honno wedi lleihau nifer yr etholaethau yn y Deyrnas Unedig i 600 a darparu fformiwla ar gyfer cyfrifo nifer y seddi ar gyfer pob rhan o'r Deyrnas Unedig. O dan y fformiwla honno, gaiff Cymru 29 etholaethau. Roedd y Ddeddf yn gofyn bod nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth yn dod o fewn ystod benodol (ac eithrio ar gyfer pedwar etholaethau penodol, nad oedd yr un ohonynt yng Nghymru). Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn nodi'r meini prawf y maen rhaid i'r Comisiwn eu cymryd mewn ystyriaeth wrth baratoi ei gynigion. Yn erbyn y cefndir hwnnw, ni fu'n bosibl i fabwysiadu yr holl cynigion neu awgrymiadau a wnaed yn ystod y broses ymgynghori. Fodd bynnag, fel y nodwyd, mae'r holl gynrychiolaethau wedi cael eu ystyried yn ofalus a bwysu yn erbyn y meini prawf a nodir yn y ddeddfwriaeth. Lle y bo'n bosibl, a lle mae'r sylwadau yn arwain at etholaethau arfaethedig sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well, diwygiwyd y cynigion cychwynnol. Fel y nodwyd, gwnaethom newidiadau i 19 o'r 29 etholaethau arfaethedig. Rydym bellach yn edrych ymlaen at dderbyn sylwadau gan bobl Cymru ar y cynigion diwygiedig.

Syr Clive Lewis  
Dirprwy Gadeirydd,  
Y Comisiwn Ffiniau i Gymru

# 1. Cyflwyniad

- 1.1 Ar 24 Mawrth 2016, cyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru (y Comisiwn) Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru, yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011. Ceir crynodeb o'r fframwaith statudol perthnasol a'r meini prawf, ac ymagwedd gyffredinol y Comisiwn tuag at yr arolwg ym Mhennod 2 neu yn llyfryn y Comisiwn "Canllaw i Arolwg 2018" (2016), sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg gan y Comisiwn neu ar wefan y Comisiwn, sef [www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk).
- 1.2 Cyhoeddodd y Comisiwn ei gynigion cychwynnol ar 13 Medi 2016. Datblygodd y cynigion ar sail y meini prawf statudol newydd. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, bod pob un o'r cynigion yn rhai dros dro. Roedd lansio'r cynigion cychwynnol yn ddechrau ymgynghoriad 12 wythnos ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, gwahoddwyd y cyhoedd i gyflwyno'u cynrychiolaethau yn ysgrifenedig neu i fynychu un o bum gwrandawriad cyhoeddus a gynhaliwyd ar hyd a lled Cymru ac a gadeiriwyd gan dîm o Gomisiynwyr Cynorthwyol. Roedd y Comisiwn yn rhoi pwys mawr i'r cyfle i gyflwyno cynrychiolaethau i'r Comisiwn, p'un a oeddent o blaid y cynigion, neu'n eu gwrthwynebu.
- 1.3 Ym mis Chwefror 2017 cyhoeddodd y Comisiwn yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf hwn o 12 wythnos. Roedd cyfnod statudol ychwanegol o bedair wythnos ar gael wedyn i unigolion a sefydliadau gynnig sylwadau ar y cynrychiolaethau a wnaed gan eraill. Bu'r Comisiynwyr Cynorthwyol yn adolygu'r holl gynrychiolaethau a dderbyniodd y Comisiwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnod ymgynghori, a lluniodd Adroddiad i'r Comisiwn.
- 1.4 Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi cynigion diwygiedig nawr i ymgynghori'n gyhoeddus yn eu cylch. Mae'r Comisiynwyr wedi adolygu'r holl gynrychiolaethau a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnod ymgynghori, ac wedi ystyried Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol. Mae'r cynigion diwygiedig yn adlewyrchu'r ystyriaeth fwyaf gofalus o'r barnau a fynegwyd, gan gydymffurfio â'r rheolau a bennwyd yn y ddeddfwriaeth.
- 1.5 Mae'r Comisiwn wedi penderfynu cyhoeddi ei gynigion diwygiedig ar gyfer Cymru gyfan mewn un ddogfen. Golygai natur y fframwaith statudol a'r meini prawf y bu'n angenrheidiol cynnal yr arolwg hwn ar sail Cymru gyfan.
- 1.6 Rhoddir pwys mawr i'r cyfle sydd ar gael yn awr i bawb dan sylw gyflwyno cynrychiolaethau i'r Comisiwn, p'un a ydynt o blaid y cynigion diwygiedig neu'n eu gwrthwynebu. Hwn fydd y cyfle olaf i'r rhai â diddordeb leisio'u barnau. Rhoddir manylion am sut i gyflwyno cynrychiolaethau ym Mhennod 7 yn y ddogfen hon.
- 1.7 Ym Medi 2018 bydd y Comisiwn yn cyflwyno'i argymhellion terfynol i'r Ysgrifennydd Gwladol (fel Comisiynau Ffiniau eraill y Deyrnas Unedig). Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gerbron y Senedd, a rhaid i'r Gorchymyn gael ei drafod a'i gymeradwyo (neu ei wrthod) gan ddau Dŷ'r Senedd.

## 2. Meini Prawf ar gyfer Arolygu Etholaethau Seneddol

### Cymhwysio darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd)

2.1 Mae'r Comisiwn wedi cymhwysio darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 fel y'i diwygiwyd (yn bennaf gan Ddeddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011). Rhoddir crynodeb o'r darpariaethau hyn ym Mhennod 3 o Lyfryn y Comisiwn "*Canllaw i Arolwg 2018*" ac ym Mhennod 2 adroddiad cynigion cychwynnol y Comisiwn. Mae'r cyhoeddiadau hyn ar gael ar wefan y Comisiwn.

2.2 Dyma'r meini prawf allweddol yn yr arolwg o etholaethau Seneddol:

- **Lleihad yn nifer yr etholaethau:** bydd y lleihad yn nifer yr etholaethau yn y DU o 650 i 600 ynghyd â chyflwyno cwota etholiadol y DU yn golygu y bydd nifer yr etholaethau yng Nghymru yn lleihau o 40 i 29. Y canlyniad fydd newid sylfaenol i batrwm presennol etholaethau ym mhob rhan o Gymru.
- **Amrediad etholwyr statudol:** Mae'r Ddeddf fel y'i diwygiwyd yn pennu nifer o Reolau yn Atodlen 2 sy'n berthnasol i ddatblygu cynigion ar gyfer etholaethau unigol yn fanwl. Yr un fwyaf blaenllaw o'r rhain yw Rheol 2, sy'n amodi – ar wahân i bedwar eithriad penodol (ac nid yw'r un o'r rhain yn gymwys i Gymru) – bod rhaid i bob etholaeth gael cyfanswm o etholwyr (ar 31 Rhagfyr 2015) nad yw'n llai na 95% ac nad yw'n uwch na 105% o 'gwota etholiadol y DU'. Cwota etholiadol y DU ar gyfer Arolwg 2018, i'r cyfanrif agosaf, yw 74,769<sup>1</sup>. Yn unol â hynny, rhaid i bob etholaeth yng Nghymru fod â chyfanswm o etholwyr ar ddyddiad yr arolwg nad yw'n llai na 71,031 ac nad yw'n uwch na 78,507 (yr amrediad etholwyr statudol).
- **Ffactorau statudol eraill:** Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 ("Rheol 5") yn darparu ar gyfer nifer o ffactorau eraill y gall y Comisiwn eu hystyried wrth bennu map newydd o'r etholaethau ar gyfer Arolwg 2018, yn benodol:
  1. ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, yn benodol, maint, ffurf a hygyrchedd etholaeth;
  2. ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent ar 7 Mai 2015 (gweler y *Canllaw i Arolwg 2018*: Pennod 2 paragraff 2);
  3. ffiniau etholaethau presennol; ac
  4. unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau.<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Yn ôl Rheol 2(3) yn Atodlen 2 i Ddeddf 2011, cwota etholiadol y DU yw: 44,562,440 (cyfanswm yr etholwyr yn y DU ar ddyddiad yr arolwg) wedi'i rannu â 596.

<sup>2</sup> Mae ffactor pellach – 'yr anghyfleustra sydd ynghlwm wrth newidiadau tebyg' – wedi'i hepgor yn benodol ar gyfer Arolwg 2018, ond gellir ei ystyried ar gyfer arolygon dilynol.

**Cydadwaith yr ystyriaethau**

- 2.3 Polisi'r Comisiwn yw ystyried yr holl ffactorau a restrir yn Rheol 5 cyn belled ag y bo modd, yn amodol ar ystyriaeth bennaf yr amrediad etholwyr statudol dan Rheol 2. Ambell waith, mae graddfa lleihau nifer yr etholaethau yng Nghymru o 40 i 29 wedi ei gwneud yn arbennig o anodd i ni gyfleu'r ffactorau yn Rheol 5. Felly, er enghraifft, bu rhaid anwybyddu rhai cysylltiadau hirsefydlog a ffurfio rhai cysylltiadau llai amlwg ambell waith.
- 2.4 Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn geisio cyflawni cyfanswm etholwyr mewn etholaethau sydd 'mor agos â phosibl' at gwota etholiadol y DU. Nid yw'r Comisiwn ychwaith yn ei hystyried yn briodol gosod amcan polisi ar y cynllun statudol o geisio lleihau gwyo oddi wrth gwota etholiadol y DU. Byddai amcan o'r fath yn tanseilio gallu'r Comisiwn i roi ystyriaeth briodol i'r ffactorau a restrir uchod. Felly, i ddangos hynny, gallai fod yn well gan y Comisiwn bennu etholaeth ag amrywiant o 4% o gwota etholiadol y DU, er enghraifft, ond sy'n parchu cysylltiadau lleol, yn hytrach na dewis arall a fyddai'n creu etholaeth ag amrywiant o 1% yn unig, ond a fyddai'n rhannu cymunedau.
- 2.5 Cyn belled ag y bo modd, mae'r Comisiwn am greu etholaethau:
- o wardiau etholiadol sy'n gyfagos at ei gilydd;
  - o gymunedau cyfan; ac
  - nad ydynt yn cynnwys 'rhannau datgysylltiedig', h.y. lle byddai'r unig gysylltiad ffisegol rhwng un rhan o'r etholaeth a'r gweddill ohoni yn golygu teithio trwy etholaeth wahanol.

**Ffactorau na wnaeth y Comisiwn eu hystyried**Effaith ar ganlyniadau etholiadau yn y dyfodol

- 2.6 Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol a diduedd. Mae'n pwysleisio'n gryf iawn nad yw patrymau pleidleisio presennol a ffawd pleidiau gwleidyddol yn y dyfodol yn rhan o'i ystyriaethau.

Ffiniau llywodraeth leol newydd

- 2.7 Y ffiniau llywodraeth leol y gall y Comisiwn eu hystyried – fel y nodwyd uchod – yw'r rheiny a oedd yn bodoli ar 7 Mai 2015. O ganlyniad, nid yw'r Comisiwn wedi ystyried ffiniau newydd a gafodd eu creu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Newidiadau i nifer yr etholwyr ar ôl dyddiad yr arolwg

- 2.8 Mae'n ofynnol i'r Comisiwn weithio ar sail niferoedd yr etholwyr ar y cofrestri etholiadol ar 'ddyddiad yr arolwg'. Ni all ystyried newidiadau i faint etholaethau ar ôl 'dyddiad yr arolwg'. Hefyd, nid yw'n gallu ystyried unrhyw achosion o dangofrestru neu orgofrestru y gellir eu hawlio mewn ardal benodol.



### Enwi a dynodi etholaethau

- 2.9 Wrth wneud ei gynigion, mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn bennu enw a dynodiad ar gyfer pob etholaeth arfaethedig. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys llawer o arweiniad ar y pwyntiau hyn.

### Enwi

- 2.10 Polisi'r Comisiwn ar enwi etholaethau yw, os yw'r etholaethau yn aros yn bur ddigymffwrdd, y dylid cadw enw presennol yr etholaeth fel arfer. Yn yr achosion hyn, mae enwau etholaethau'n debygol o gael eu newid dim ond pan fydd rheswm da dros newid.
- 2.11 Ar gyfer etholaeth newydd, fel arfer dylai'r enw adlewyrchu enw'r prif gyngor neu brif gynghorau sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf o fewn yr etholaeth. Fodd bynnag, os oes enw arall addas sy'n mynnu mwy o gefnogaeth leol yn gyffredinol, bydd y Comisiwn yn ystyried yr enw arall hwnnw.
- 2.12 Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol i bob etholaeth yng Nghymru fod ag enwau amgen yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r Comisiwn felly wedi argymhell enwau amgen yn Gymraeg ar gyfer enwau'r etholaethau hynny yn Saesneg, ac fel arall. Fel hyn, byddai'r ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal. Yn yr adroddiad hwn felly, caiff enwau amgen eu darparu yn Gymraeg lle bo prif enw'r etholaeth yn Saesneg, ac yn Saesneg lle bo prif enw'r etholaeth yn Gymraeg. Lle bo enw etholaeth yr un fath yn y ddwy iaith, er enghraifft Llanelli, ni fydd unrhyw enw amgen.
- 2.13 Mae'r Comisiwn yn mabwysiadu enwau pwyntiau'r cwmpawd pan nad oes enw mwy addas. Yn Saesneg, bydd y cyfeiriad pwynt cwmpawd a ddefnyddir yn ffurfio rhagddodiad yn gyffredinol mewn achosion lle mae enw etholaeth yn cyfeirio at brif ardal neu hen gyngor dosbarth, ond yn ffurfio ôl-ddodiad lle mae gweddill yr enw yn cyfeirio at ganolfan boblogaeth. Mae enghreifftiau o etholaethau presennol sy'n dangos yr egwyddor hon yn cynnwys 'Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro / Carmarthen West and South Pembrokeshire' a 'Gorllewin Abertawe / Swansea West'. Yn Gymraeg, bydd y cyfeiriad pwynt cwmpawd a ddefnyddir yn ffurfio rhagddodiad yn unol â'r arfer yn y Gymraeg.
- 2.14 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas ag enwi etholaethau. Awgrymodd y Comisiynydd y dylid dod o hyd i enwau Cymraeg a fyddai'n addas i'w defnyddio yn Gymraeg a Saesneg er mwyn osgoi'r angen am ffurfiau deuol. Ni wnaeth y Comisiynydd unrhyw awgrymiadau ar gyfer enwau unrhyw etholaeth neu etholaethau penodol. Nid yw'r Comisiwn wedi dilyn awgrym Comisiynydd y Gymraeg. Yn gyffredinol, mae enwau'r etholaethau arfaethedig yn adlewyrchu etholaethau presennol neu ardaloedd awdurdod lleol. Yn ein barn ni, yr enwau etholaethau hynny sy'n debygol o fynnu mwy o gefnogaeth a bod yn haws i'w hadnabod gan y rheiny sy'n byw ynddynt nag etholaethau y rhoddir enwau wedi'u creu o'r newydd iddynt. Byddai'r Comisiwn yn gwahodd Comisiynydd y Gymraeg i awgrymu unrhyw newidiadau arfaethedig i enwau unrhyw rai o'r etholaethau diwygiedig, neu'r holl etholaethau diwygiedig a gynigir ym Mhennod 5.

- 2.15 Yn eu Hadroddiad, argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol ollwng y defnydd o gysyllteiriau mewn rhai achosion fel yn yr enwau Ynys Môn Bangor a Rhondda Llantrisant. Roedd y Comisiwn o'r farn fod hyn yn amhriodol gan y dylai'r enw adlewyrchu'r ddwy ardal ar wahân o fewn yr etholaeth arfaethedig. Byddai mabwysiadu ymagwedd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn arwain at anghysondeb hefyd o ran enwi, gan y byddai rhai enwau etholaethau yn cynnwys cysylltair a rhai eraill heb fod yn cynnwys cysylltair. Roedd y Comisiwn o'r farn mai'r ymagwedd orau lle'r oedd etholaeth arfaethedig yn cynnwys dwy ardal gyfarwydd oedd cynnwys y ddau enw wedi'u cysylltu gan y cysylltair.
- 2.16 Hefyd, tynnodd y Comisiynwyr Cynorthwyol sylw at arfer yn y Gymraeg o enwi lleoedd daearyddol o'r Gorllewin i'r Dwyrain. Mae'r Comisiwn wedi derbyn y cyngor hwn mewn perthynas ag Etholaeth Conwy a Cholwyn.
- 2.17 Mae'n bwysig nodi mai dim ond pŵer i wneud argymhellion ynglŷn ag enwau etholaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol sydd gan y Comisiwn. Mae Adran 3(5A) o Ddeddf 1986 yn darparu er mwyn i'r Ysgrifennydd Gwladol osod Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor gerbron y Senedd yn rhoi grym i argymhellion y Comisiwn. Ymhellach, mae Adran 25(2) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn amodi, lle bo Deddf Seneddol yn rhoi grym, i'w arfer gan offeryn statudol, i roi enw i unrhyw gorff, swydd, neu le, y bydd y grym yn cynnwys y grym i roi enwau amgen yn Saesneg ac yn Gymraeg. Mae'r Comisiwn o'r farn felly os yw'n argymhell bod etholaethau yn cael enwau amgen, y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'i rymuso i roi grym i'r argymhellion hynny wrth osod Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor gerbron y Senedd.

### Dynodi

- 2.18 Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob etholaeth gael ei dynodi naill ai'n 'etholaeth sirol' neu 'etholaeth fwrdeistrefol'. Mae'r Comisiwn o'r farn, fel egwyddor gyffredinol, lle mae etholaethau'n cynnwys mwy nag un elfen wledig fach, y dylid eu dynodi yn etholaethau sirol fel arfer. Mewn achosion eraill, dylid eu dynodi yn etholaethau bwrdeistrefol. Caiff y dynodiad ei ôl-ddodi at enw'r etholaeth a chaiff ei dalfyrru fel arfer: **BC** am etholaeth fwrdeistrefol ac **CC** am etholaeth sirol.
- 2.19 Yn gyffredinol, y dynodiad sy'n pennu pwy fydd yn gweithredu fel Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau Seneddol. Mae'r dynodiad hefyd yn pennu'r terfyn ar y swm y caniateir i ymgeisydd ei wario yn ystod etholiad Seneddol yn yr etholaeth. Mae'r terfyn ychydig yn is mewn etholaethau bwrdeistrefol, er mwyn adlewyrchu'r costau is o gynnal ymgyrch mewn ardal drefol, sy'n gywasgedig fel arfer.
- 2.20 Mae'n bwysig nodi bod enwau a dynodiadau'r etholaethau presennol wedi'u creu gan Orchymyn yn y Senedd mewn un iaith yn unig. Gwneir cyfeiriadau at yr etholaethau presennol hyn ar y sail honno. Fodd bynnag, bydd yr holl gyfeiriadau yn yr adroddiad hwn, a'r fersiwn Gymraeg, yn cynnwys y dynodiad priodol yn yr iaith briodol, fel yn Adroddiad Cynigion Cychwynnol y Comisiwn.

## 3. Datblygu'r Etholaethau

### Nifer yr Etholwyr

- 3.1 Ar hyn o bryd, mae 40 o etholaethau yng Nghymru. Mae nifer yr etholwyr yn yr etholaethau yn amrywio o 37,739 (Arfon CC) i 72,392 (Cardiff South and Penarth BC) a nifer gyfartalog yr etholwyr yn y 40 o etholaethau presennol yng Nghymru yw 54,546. Dan y ddeddfwriaeth newydd, caiff nifer yr etholaethau yng Nghymru ei lleihau o 40 i 29, ac mae'r amrediad etholwyr statudol rhwng 71,031 a 78,507. O ganlyniad i hynny, un etholaeth bresennol yn unig, sef Cardiff South and Penarth BC, sydd o fewn yr amrediad statudol. Felly, bydd patrwm newydd yr etholaethau yn amrywio'n fawr o batrwm yr etholaethau presennol.
- 3.2 Un o effeithiau lleihau nifer gyffredinol yr etholaethau a ddyrannwyd i Gymru, a gofynion yr amrediad etholwyr statudol, yw y gall fod angen newid yr etholaeth bresennol y mae nifer ei hetholwyr o fewn yr amrediad statudol, serch hynny, o ganlyniad i'r angen i greu etholaethau ymarferol mewn ardaloedd eraill.

### Maint Etholaethau

- 3.3 Mae maint (o ran arwynebedd) yr etholaethau presennol yn amrywio o 17km<sup>2</sup> (Cardiff Central BC) i 3,014km<sup>2</sup> (Brecon and Radnor CC). Y maint mwyaf a ganiateir ar gyfer etholaeth gan y ddeddfwriaeth newydd yw 13,000km<sup>2</sup>. Byddai etholaeth o'r maint hwnnw yn gorchuddio tua 61% o Gymru. O ystyried y nifer gymharol fach o etholwyr mewn rhannau gwledig o Gymru mae'n anochel, o dan y trefniadau newydd, y bydd rhai etholaethau yn fawr iawn o ran arwynebedd. Nid oes yr un o'r etholaethau arfaethedig yng Nghymru, fodd bynnag, yn dod yn agos at y maint mwyaf ond, o ganlyniad i gwota etholiadol y DU, mae'n anochel y bydd rhai etholaethau yng Nghymru yn fwy na'r rheiny sy'n bodoli ar hyn o bryd.

### Patrwm yr Etholaethau

- 3.4 Derbyniodd y Comisiwn lawer o gynrychiolaethau yn gofyn am i ystyriaeth arbennig gael ei rhoi i Ynys Môn i aros fel etholaeth ynys ond, o dan y Ddeddf, ni all fod unrhyw achosion arbennig eraill ac eithrio'r rheiny a bennwyd yn Lloegr a'r Alban. Yn ogystal, oherwydd niferoedd cyfyngedig yr etholwyr yn rhai o Gymoedd De Cymru, bydd rhaid i etholaethau gynnwys fwy nag un cwm. Yn yr un modd, mewn rhai ardaloedd trefol, efallai y bydd angen rhannu Awdurdodau Unedol.
- 3.5 Bydd angen cyfaddawdu, felly, er mwyn greu patrwm o etholaethau ledled Cymru sy'n dilyn Rheolau'r ddeddfwriaeth newydd. Mae'n bwysig deall y bydd hyd yn oed mân newidiadau i un etholaeth yn cael effeithiau ôl-ddilynol ar ardaloedd cyfagos ac yn ehangach, o bosibl.

**Cynigion Cychwynnol**

- 3.6 Byddai unrhyw set o gynigion gan y Comisiwn yn arwain at fap Seneddol o Gymru sy'n wahanol iawn i'r hyn yr ydym yn gyfarwydd ag ef. Mae'r Comisiwn wedi wynebu'r dasg o lunio cynigion ar gyfer y 29 etholaeth ofynnol yn lle'r 40 etholaeth bresennol. Wrth wneud hynny, fe'i cyfyngwyd ymhellach gan y gofyniad absoliwt bod rhaid i nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth ddisgyn o fewn yr amrediad statudol. Oherwydd hynny, mae rhyddid y Comisiwn i roi ystyriaethau statudol eraill ar waith wedi'i gyfyngu, ar adegau. Yn yr un modd, wrth ystyried rhinweddau cynlluniau amgen, nid ystyriwyd atebion amlwg yn ymarferol, mewn rhai achosion, oherwydd na allent eu cynnwys o fewn y gofynion o ran maint yr etholaeth neu oherwydd eu heffaith ôl-ddilynol ar etholaethau eraill, y mae'n rhaid i bob un ohonynt gydymffurfio â'r un gofynion. Fodd bynnag, ym mhob cam o'i ystyriaethau, mae'r Comisiwn wedi ceisio dod o hyd i'r atebion mwyaf addas ar gyfer anghenion lleol ledled Cymru, y gellir eu bodloni o fewn y Rheolau statudol.
- 3.7 Roedd cynigion cychwynnol y Comisiwn, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016, yn cyflwyno map diwygiedig o etholaethau Seneddol yng Nghymru gyda newidiadau i bob etholaeth bresennol. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau helaeth, adeiladol a defnyddiol gan unigolion a sefydliadau mewn perthynas â'r cynigion cychwynnol gan gynnwys nifer o gynrychiolaethau a oedd yn berthnasol i Gymru gyfan, neu rannau sylweddol ohoni. Derbyniwyd 798 o gynrychiolaethau ysgrifenedig (yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnod ymgynghori) - naill ai trwy lythyr, e-bost, deisebau neu gyfraniadau drwy'r Porth Ymgynghori - ac fe wnaeth 74 o unigolion siarad mewn gwrandawiadau cyhoeddus. Mae'r Comisiwn yn ddiolchgar iawn am y cynrychiolaethau sydd wedi dod i law.

**Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol**

- 3.8 Mae Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, ar gais y Comisiwn, benodi un neu fwy o Gomisiynwyr Cynorthwyol i gynorthwyo'r Comisiwn i gyflawni'i swyddogaethau. Penodwyd tri Chomisiynydd Cynorthwyol ar gyfer Arolwg 2018 yng Nghymru. Rôl y Comisiynwyr Cynorthwyol oedd cadeirio'r gwrandawiadau cyhoeddus a rhoi adroddiad annibynnol a diduedd i'r Comisiwn ar sail cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn y gwrandawiadau ac yn ysgrifenedig. Fe ymddisysdodd y Comisiynydd Cynorthwyol arweiniol yn dilyn y gwrandawiadau cyhoeddus a benodwyd un o'r Gomisiynwyr Cynorthwyol arall fel Comisiynydd Cynorthwyol arweiniol.
- 3.9 Bu'r ddau Comisiynwyr Cynorthwyol yn adolygu'r holl gynrychiolaethau a dderbyniodd y Comisiwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnod ymgynghori, a lluniwyd adroddiad ar gyfer y Comisiwn. Roedd yr Adroddiad yn crynhoi'r hyn yr ystyria'i'r Comisiynwyr Cynorthwyol oedd y pwyntiau amlwg a godwyd gan gynrychiolaethau, a gwnaeth argymhellion i'r Comisiwn ar ddiwygiadau y gellid eu gwneud i'r cynigion cychwynnol. Gellir gweld Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol ar wefan y Comisiwn.

### Cynigion Diwygiedig

3.10 Mae Adran 5(5) y Ddeddf yn rhoi'r pŵer i'r Comisiwn ddiwygio'i gynigion cychwynnol yng ngolau cynrychiolaethau a dderbyniwyd. Mae'r Ddeddf yn darllen fel a ganlyn:

*“(5) Os yw'r Comisiwn, ar ddiwedd yr ail gyfnod ymgynghori, â'u bryd ar ddiwygio'u cynigion gwreiddiol er mwyn argymhell etholaethau gwahanol, byddant yn cymryd camau fel y gwelant yn dda i hysbysu pobl ym mhob un o'r etholaethau arfaethedig diwygiedig hynny:*

- (a) beth yw'r cynigion diwygiedig,*
- (b) bod copi o'r cynigion diwygiedig yn agored i'w archwilio mewn lle penodedig yn yr etholaeth arfaethedig ddiwygiedig, ac*
- (c) y gellir gwneud cynrychiolaethau ysgrifenedig mewn perthynas â'r cynigion diwygiedig i'r Comisiwn yn ystod cyfnod penodedig o wyth wythnos.”*

3.11 Yng ngoleuni'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd mewn perthynas â chynigion cychwynnol y Comisiwn, mae'r Comisiwn wedi penderfynu diwygio'i gynigion. Wrth ddatblygu cynigion diwygiedig, mae'r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnod ymgynghori, a'r argymhellion a wnaed gan y Comisiynwyr Cynorthwyol.

3.12 Disgrifir yr etholaethau arfaethedig yn fanwl ac fe'u dangosir ar fapiau amlinell ym Mhennod 5. Mae mapiau manylach ar gael hefyd ar wefan Porth Ymgynghori'r Comisiwn yn [www.cffg2018.org.uk](http://www.cffg2018.org.uk) ac maent wedi'u rhoi ar adnau mewn lle dynodedig ym mhob etholaeth bresennol (gweler Atodiad 2 am fanylion cyfeiriadau ym mhob etholaeth bresennol). Nodwch y rhybudd ynglŷn â hawlfraint, ym mharagraff 8.1 ar tudalen 133, mewn perthynas â'r mapiau. Dylid nodi hefyd yn yr Adroddiad Cynigion Diwygiedig, y caiff yr etholaethau arfaethedig eu cyflwyno yn yr un drefn â hynny a ddefnyddiwyd yn y cynigion cychwynnol, gan ddechrau gydag **'Ynys Môn a Fangor'**, a gorffen gyda **'Ceredigion a Gogledd Sir Benfro'**. Mae'r drefn hon at ddibenion cyflwyniadol yn unig, fel bod modd ymdrin â newidiadau arfaethedig a'u heffeithiau trawstoriadol mewn trefn synhwyrol, ac nid yw'n adlewyrchu sut y cafodd newidiadau eu gwneud.

### Beth nesaf?

3.13 Yn dilyn y cyfnod ymgynghori o wyth wythnos ar y cynigion diwygiedig, a fydd yn rhedeg o 17 Hydref i 11 Rhagfyr 2017, bydd y Comisiwn yn ystyried p'un ai i wneud unrhyw newidiadau pellach i'w gynigion. Bydd argymhellion terfynol yn cael eu gwneud i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn mis Medi 2018.

## 4. Crynodeb o'r Cynigion Diwygiedig

- Ar ôl archwilio'r cynrychiolaethau a gyflwynwyd ac ystyried argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi diwygio:
  - 19 o'i gynigion cychwynol - o ran eu cyfansoddiad daearyddol, ac mae rhai o'r newidiadau hyn yn sylweddol.
  - 9 o'r enwau arfaethedig.
- Cwota etholiadol y DU yw 74,769 gyda goddefiant o rhwng 95% a 105% o'r ffigur hwn (71,031 a 78,507 yn y drefn honno). O dan y cynigion diwygiedig, byddai pob un o'r etholaethau o fewn yr amrediad statudol gyda 18 o etholaethau yn is na'r cwota etholiadol ac 11 yn uwch na'r cwota etholiadol.
- Byddai 15 o'r etholaethau presennol yn gyfan gwbl o fewn etholaeth newydd (Alun a Glannau Dyfrdwy, Blaenau Gwent, Brecon and Radnor, Bridgend, Cardiff West, Ceredigion, Cynon Valley, Dwyfor Meirionnydd, Llanelli, Merthyr Tydfil and Rhymney, Neath, Rhondda, Torfaen, Wrexham, ac Ynys Môn).
- Byddai chwe phrif gyngor yn gyfan gwbl o fewn etholaeth newydd (Blaenau Gwent, Ceredigion, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Thorfaen).
- Byddai chwech o etholaethau dros 1,000 km<sup>2</sup> (Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn, Caerfyrddin, Ceredigion a Gogledd Sir Benfro, De Clwyd a Gogledd Maldwyn, Gwynedd, a Chanol a De Sir Benfro). Byddai dwy o'r etholaethau hyn rhwng 2,000 a 3,000 km<sup>2</sup> (Caerfyrddin a Ceredigion a Gogledd Sir Benfro) ac mae dwy dros 3,000 km<sup>2</sup> (Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn a Gwynedd). Nid oes unrhyw etholaeth 4,000 km<sup>2</sup>.
- O'r 881 o wardiau etholiadol yng Nghymru, byddai 880 yn gyfan gwbl o fewn etholaeth newydd. Ystyriwyd ei bod yn briodol rhannu un ward etholiadol er mwyn cydymffurfio â Rheolau 2 a 5. Byddai ward Ponciau yn cael ei rhannu i'w chymunedau cyfansoddol.

## 5. Cynigion Diwygiedig

5.1 Disgrifir cynigion diwygiedig y Comisiwn yn fanwl isod. Ar gyfer pob etholaeth arfaethedig, mae'r adroddiad yn amlinellu:

- Enw'r etholaeth o dan y cynigion diwygiedig, gan gynnwys yr enw amgen arfaethedig (os yw'n gymwys);
- Pob etholaeth bresennol y mae'r cynnig yn effeithio arni yn uniongyrchol, gan gynnwys nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth a'r amrywiant canran o gwota etholiadol y DU a lleiafswm yr amrediad statudol;
- Cyfansoddiad yr etholaeth y cynigiodd y Comisiwn yn y lle cyntaf, y wardiau etholiadol y byddai'n eu cynnwys, ei hamrywiant oddi wrth gwota etholiadol y DU a'r enw a awgrymwyd;
- Y dadleuon a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus i gefnogi neu i wrthwynebu'r cynigion cychwynnol. Er na sonnir am yr holl gynrychiolaethau yn yr adroddiad hwn, mae'r Comisiwn wedi ystyried pob cynrychiolaeth a wnaed wrth benderfynu ar ddiwygiadau i'w cynigion. Mae rhagor o fanylion am y cynrychiolaethau a ddaeth i law ar gael yn Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol;
- Barnau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol;
- Ymateb y Comisiwn i'r cynrychiolaethau a'r argymhellion a wnaed;
- Cyfansoddiad yr etholaeth arfaethedig ddiwygiedig a'r enw arfaethedig;
- Map o'r etholaeth a argymhellir, a,
- Mewn nifer o achosion, mae materion yn cael effaith ar amrywiaeth o etholaethau arfaethedig y mae angen eu hystyried yn eu cyfanrwydd cyn bod modd ystyried etholaethau unigol. Yn yr achosion hyn, mae'r Comisiwn wedi ymdrin â'r materion hyn mewn blwch sydd wedi ei liwddangos.


### Esboniad o'r mapiau manwl ac allwedd

5.2 Mae teitlau mapiau'r etholaethau oll yn brif enwau a dynodiadau swyddogol a roddir gan y Comisiwn. Mae'r Comisiwn wedi darparu cyfieithiad swyddogol o enw pob etholaeth. Mae'r rhain yn y disgrifiad o'r cynnig. Mae **BC** yn cyfeirio at etholaeth fwrdeistrefol; mae **CC** yn cyfeirio at etholaeth sirol.

5.3 Er mwyn dangos y diwygiadau y mae'r Comisiwn wedi'u gwneud, dangosir ffiniau etholaethau o'r Cynigion Cychwynnol fel llinell felen o dan y Cynigion Diwygiedig (a ddangosir fel llinell las amlwg). Fel hyn, mae'n bosibl gweld pa newidiadau sydd wedi'u gwneud.




Ffin Etholaeth Cynigion Diwygiedig



Ffin Etholaeth Cynigion Cychwynnol



Ffin Etholaeth Trefniadau Presennol



Blankton  
Uchaf  
(2,096)

Teitl y Ward Etholiadol Presennol




Ffin Ward Etholiadol Presennol

5.4 Mae'r tair tudalen ganlynol yn amlinellu darlun cyffredinol o'r trefniadau presennol, cynigion cychwynnol y Comisiwn, a chynigion diwygiedig y Comisiwn.






# Etholaethau Presennol



# Cynigion Cychwynnol

1. Ynys Môn ac Arfon (Isle of Anglesey and Arfon) - 77,425
2. Gogledd Clwyd a Gwynedd (North Clwyd and Gwynedd) - 76,147
3. Colwyn and Conwy (Colwyn a Conwy) - 75,035
4. Flint and Rhuddlan (Fflint a Rhuddlan) - 75,902
5. Alyn and Deeside (Alyn a Glannau Dyfrdwy) - 76,678




6. Wrexham Maelor (Wrescam Maelor) - 72,137
7. De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn (South Clwyd and North Montgomeryshire) - 71,097
8. Brecon, Radnor and Montgomery (Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn) - 72,115
9. Monmouthshire (Sir Fynwy) - 74,532
10. Newport (Casnewydd) - 75,986
11. Torfaen - 72,367
12. Blaenau Gwent - 75,664
13. Merthyr Tydfil and Rhymney (Merthyr Tudful a Rhymni) - 77,770
14. Caerphilly (Caerffili) - 76,323
15. Cynon Valley and Pontypridd (Cwm Cynon a Phontypridd) - 78,005
16. Rhondda and Llantrisant (Rhondda a Llantrisant) - 74,965

17. Cardiff West (Gorllewin Caerdydd) - 75,563
18. Cardiff North (Gogledd Caerdydd) - 78,014
19. Cardiff South and East (De a Dwyrain Caerdydd) - 77,059
20. Vale of Glamorgan East (Dwyrain Bro Morgannwg) - 76,984
21. Bridgend and Vale of Glamorgan West (Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg) - 73,004
22. Ogmore and Port Talbot (Ogwr a Phort Talbot) - 72,503
23. Neath and Aberavon (Castell-nedd ac Aberafon) - 77,397



24. Swansea East (Dwyrain Abertawe) - 76,514
25. Gower and Swansea West (Gŵyr a Gorllewin Abertawe) - 77,873
26. Llanelli and Lliw (Llanelli a Lliw) - 76,751
27. Caerfyrddin (Carmarthenshire) - 72,569
28. South Pembrokeshire (De Sir Benfro) - 74,070
29. Ceredigion a Gogledd Sir Benfro (Ceredigion and North Pembrokeshire) - 71,392

# Cynigion Diwygiedig

1. Ynys Môn a Fangor (Anglesey and Bangor) - 71,398
2. Gwynedd (Gwynedd) - 74,790
3. Conwy and Colwyn (Conwy a Cholwyn) - 77,613
4. Flint and Rhuddlan (Flint a Rhuddlan) - 75,548
5. Alyn and Deeside (Alyn a Glannau Dyfrdwy) - 77,032



Graddfa / Scale: 1:1,030,000



- |   |   |   |
|---|---|---|
| 6. Wrexham (Wrecsam) - 72,137   | 17. Cardiff West (Gorllewin Caerdydd) - 78,321  | 24. Swansea East (Dwyrain Abertawe) - 71,637                                      |
| 7. De Clwyd a Gogledd Maldwyn (South Clwyd and North Montgomeryshire) - 71,570  | 18. Cardiff North (Gogledd Caerdydd) - 78,187   | 25. Gower and Swansea West (Gŵyr a Gorllewin Abertawe) - 76,085                   |
| 8. Brecon, Radnor and Montgomery (Aberhonddu, Maesyfed, a Threfaldwyn) - 74,903 | 19. Cardiff South and East (De a Dwyrain Caerdydd) - 74,128                             | 26. Llanelli (Llanelli) - 76,302  |
| 9. Monmouthshire (Sir Fynwy) - 74,532   | 20. Vale of Glamorgan East (Dwyrain Bro Morgannwg) - 76,984                             | 27. Caerfyrddin (Carmarthen) - 72,569   |
| 10. Newport (Casnewydd) - 75,986  | 21. Bridgend and Vale of Glamorgan West (Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg) - 74,092 | 28. Mid and South Pembrokeshire (Canol a De Sir Benfro) - 74,070                  |
| 11. Torfaen - 72,367  | 22. Ogmore and Aberavon (Ogwr ac Aberafan) - 78,365                                     | 29. Ceredigion a Gogledd Sir Benfro (Ceredigion and North Pembrokeshire) - 71,467 |
| 12. Blaenau Gwent - 75,664  | 23. Neath (Castell-nedd) - 74,621   |   |
| 13. Merthyr Tydfil and Rhymney (Merthyr Tudful a Rhymni) - 77,770               |   |   |
| 14. Caerphilly (Caerffili) - 76,323   |   |   |
| 15. Cynon Valley and Pontypridd (Cwm Cynon a Phontypridd) - 78,005              |   |   |
| 16. Rhondda and Llantrisant (Rhondda a Llantrisant) - 77,905                    |   |   |

## Ynys Môn a Fangor (Anglesey and Bangor)

- 1.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
- 1.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Aberconwy** CC gyfanswm o 44,153 o etholwyr sydd 41% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 38% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 1.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Arfon** CC gyfanswm o 37,739 o etholwyr sydd 49% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 47% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 1.1 c. Mae gan etholaeth bresennol **Ynys Môn** CC gyfanswm o 49,287 o etholwyr sydd 34% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 31% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 1.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 1.2 a. y wardiau etholiadol yn **Arfon** CC presennol a Sir Gwynedd, sef Arllechwedd (971), Bethel (1,020), Cadnant (1,438), Cwm-y-Glo (710), Deiniol (496), Deiniolen (1,263), Dewi (1,098), Garth (420), Gerlan (1,559), Glyder (1,139), Hendre (835), Hiracl (881), Llanrug (1,289), Marchog (1,446), Menai (Bangor) (839), Menai (Caernarfon) (1,671), Ogwen (1,556), Peblig (Caernarfon) (1,344), Penisarwaun (1,293), Pentir (1,636), Seiont (2,079), Tregarth & Mynydd Llandygai (1,531) ac Y Felinheli (1,624); a,
- 1.2 b. etholaeth bresennol **Ynys Môn** CC yn gyfan.
- 1.3 Byddai gan yr etholaeth hon 77,425 o etholwyr sydd 3.6% yn uwch na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Ynys Môn ac Arfon**. Yr enw amgen a awgrymwyd oedd **Isle of Anglesey and Arfon**.
- 1.4 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a awgrymodd y dylid ymdrin ag Ynys Môn fel 'achos arbennig' ac felly, dylai gael ei heithrio o'r meini prawf deddfwriaethol, fel yr roedd yn wir yn achos Ynys Wyth yn Lloegr a'r ddwy etholaeth Orkney a Shetland, a Na h-Eileanan an Iar yn yr Alban. Ni all y Comisiwn wyro oddi wrth y rheolau a amlinellir yn y ddeddfwriaeth. Felly nid yw'n bosibl creu 'achos arbennig' neu 'eithriad' ar gyfer Ynys Môn.
- 1.5 Dynododd nifer o gynrychiolaethau bod etholwyr Ynys Môn yn edrych tuag at Fangor yn gyntaf, ac yna tua'r dwyrain yn hytrach na thuag at Gaernarfon am eu cysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol. Fodd bynnag mae nifer o wardiau o etholaeth Arfon, yn cynnwys Caernarfon a'r ardal o'i gwmpas, a gysylltiadau agosach â gweddill Gwynedd, a dylid ei gynnwys mewn etholaeth a oedd yn cynnwys Gwynedd yn hytrach na'i gynnwys, fel y cynigiwyd yn wreiddiol, mewn etholaeth gydag Ynys Môn. Y wardiau hyn oedd Menai Caernarfon, Peblig Caernarfon, Seiont, Bethel, Llanrug, Penisarwaun, Cadnant, Deiniolen, a Chwm-y-Glo. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: *"Ystyriwn felly na ddylai'r wardiau a enwyd uchod ynghyd â wardiau Caernarfon, yn cynnwys Cwm-y-glo a Chadnant,*

*fod gydag Ynys Môn mewn etholaeth ond dylid eu hychwanegu at etholaeth Gogledd Clwyd a Gwynedd.” Ac felly “Er mwyn bodloni’r amrediad etholwyr statudol ac oherwydd cysylltiadau lleol, byddai’n amhriodol wedyn ychwanegu’r wardiau i’r dwyrain o Fangor a gynigiwyd yn wreiddiol i ffurfio rhan o Golwyn a Chonwy” at yr etholaeth arfaethedig hon.*

1.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae’r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac mae’n cynnig dileu wardiau etholiadol i’r gorllewin o Fangor cyfeirir ati ym mharagraff 1.5 o bennod 5 uchod. Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth fod gan y wardiau etholiadol hyn gysylltiadau lleol â Gwynedd, ac felly eu bod wedi’u lleoli yn well mewn etholaeth ddiwygiedig Gwynedd er mwyn osgoi torri’r cysylltiadau hynny. Er mwyn i’r etholaeth arfaethedig hon fodloni’r amrediad etholiadol statudol, byddai angen ychwanegu wardiau ychwanegol wedyn. Mae’r Comisiwn yn derbyn argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol mai’r wardiau etholiadol mwyaf priodol i’w cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon yw Bryn, Capelulo, Pandy, a Phant-yr-afon/Penmaenan. Ystyriwyd ei bod yn amhriodol cynnwys ward etholiadol Conwy yn yr etholaeth ddiwygiedig hon. Ystyriodd y Comisiwn ward Y Felinheli a daeth i’r casgliad, er bod gan y ward gysylltiadau â Chaernarfon, y dylai’r ward hon gael ei chynnwys o fewn yr etholaeth arfaethedig hon. Byddai hynny’n sicrhau bod yr etholaeth arfaethedig hon o fewn yr amrediad etholiadol statudol. Mae’r newidiadau hyn yn caniatáu creu etholaethau ar draws canolbarth Cymru a gogledd Cymru sydd, at ei gilydd, yn adlewyrchu’r meini prawf statudol yn well.

1.7 **Felly mae’r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o’r canlynol:**

1.7 a. **y wardiau etholiadol yn Aberconwy CC presennol a wardiau etholiadol Sir Conwy, sef Bryn (1,349), Capel Ulo (1,179), Pandy (1,433), ac Pant-yr-afon/Penmaenan (2,119),**

1.7 b. **y wardiau etholiadol yn Arfon CC presennol a Sir Gwynedd, sef Arllechwedd (971), Deiniol (496), Dewi (1,098), Garth (420), Gerlan (1,559), Glyder (1,139), Hendre (835), Hirael (881), Marchog (1,446), Menai (Bangor) (839), Ogwen (1,556), Pentir (1,636), , Tregarth & Mynydd Llandygai (1,531) a Y Felinheli (1,624); ac,**

1.7 c. **Etholaeth bresennol Ynys Môn CC yn gyfan.**


1.8 **Byddai gan yr etholaeth hon 71,398 o etholwyr sydd 4.5% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

1.9 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi’r newidiadau ac awgrymodd hefyd y dylai enw’r etholaeth newid. Fel enghraifft, dywed cynrychiolaeth 7925 y dylid gollwng Arfon o’r enw am fod wardiau Caernarfon wedi’u dileu, ac y dylai enw’r etholaeth newydd adlewyrchu’r cytrefi mawr sy’n ei ffurfio. Mae’r gynrychiolaeth yn awgrymu y dylai enw’r etholaeth newydd gynnwys Bangor.

1.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newid yr enw i ‘Ynys Môn Bangor’. Y rheswm dros hyn yw bod y Comisiynwyr Cynorthwyol yn teimlo, drwy hepgor y cysylltair, mai dim ond un enw fyddai ei angen ar yr etholaeth arfaethedig, ac y byddai modd adnabod yr enw hwnnw yn y ddwy iaith. *“Mae’r enw Ynys Môn ... yn ddigon adnabyddus yn y ddwy iaith, a thrwy hepgor cysyllteiriau, rydym o’r farn y gallai’r etholaeth gael un enw dwyieithog.”*

- 1.11 Nid oedd y Comisiwn yn cytuno â chynnig y Comisiynwyr Cynorthwyol i hepgor y cysylltair. Ystyriwyd bod hyn yn amhriodol am y dylai'r enw, ym marn y Comisiwn, adlewyrchu'r ddwy ardal ar wahân yn glir yn yr etholaeth arfaethedig. Byddai mabwysiadu ymagwedd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn arwain at anghysondeb hefyd o ran enwi, gan y byddai rhai etholaethau'n cynnwys cysylltair a rhai eraill heb fod yn ei gynnwys. Roedd y Comisiwn o'r farn mai'r ymagwedd orau lle'r oedd etholaeth arfaethedig yn cynnwys dwy ardal adnabyddadwy oedd cynnwys y ddau enw a'u cysylltu â chysylltair.
- 1.12 Yn sgil dileu Tref Caernarfon a wardiau eraill sy'n ffurfio rhan o etholaeth Arfon, a chynnwys y wardiau etholiadol i'r dwyrain o Fangor yn yr etholaeth arfaethedig hon, cred y Comisiwn nad yw'r enw Ynys Môn ac Arfon yn briodol mwyach.
- 1.13 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl dystiolaeth a ddaeth i law ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw sydd yn fwyaf priodol, a'r enw y maent yn ei argymhell ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon felly, yw **Ynys Môn a Fangor**. Yr enw amgen a awgrymir yw **Anglesey and Bangor**. Mae'r enw newydd yn adlewyrchu'n well yr ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth arfaethedig hon yn ei chynrychioli, a byddai'n debygol o arwain at fod gan etholwyr fwy o gyswllt â hi.

Ynys Môn a Fangor (Anglesey and Bangor)



## 2. Gwynedd

- 2.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
- 2.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Aberconwy** CC gyfanswm o 44,153 o etholwyr sydd 41% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 38% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  - 2.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Arfon** CC gyfanswm o 37,739 o etholwyr sydd 49% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 47% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  - 2.1 c. Mae gan etholaeth bresennol **Clwyd West** CC gyfanswm o 56,862 o etholwyr sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 20% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  - 2.1 d. Mae gan etholaeth bresennol **Dwyfor Meirionnydd** CC gyfanswm o 42,353 o etholwyr sydd 43% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 40% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  - 2.1 e. Mae gan etholaeth bresennol **Vale of Clwyd** CC gyfanswm o 55,839 o etholwyr sydd 25% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 21% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 2.2 Yng nghynigion cychwynol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 2.2 a. y wardiau etholiadol yn **Aberconwy** CC presennol a Sir Conwy, sef Betws-y-Coed (932), Caerhun (1,609), Crwst (1,583), Eglwysbach (1,195), Gower (887), Trefriw (1,022), ac Uwch Conwy (1,230),
  - 2.2 b. y wardiau etholiadol yn **Arfon** CC presennol a Sir Gwynedd, sef Bontnewydd.(824), Groeslon (1,246), Llanberis (1,445), Llanllyfni (892), Llanwnda (1,428), Penygroes (1,289), Talysarn (1,276) a Waunfawr (1,201);
  - 2.2 c. y wardiau etholiadol yn **Clwyd West** CC presennol a Sir Conwy, sef Betws yn Rhos (1,626), Llangernyw (1,147), a Llansannan (1,470);
  - 2.2 d. y wardiau etholiadol yn Dwyfor Meirionnydd CC presennol a Sir Gwynedd, sef Aberdaron (712), Aberdovey (851), Abererch (971), Abermaw (1,468), Abersoch (510), Botwnnog (698), Bowydd & Rhiw (1,211), Brithdir a Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltud (1,080), Bryn-crug/Llanfihangel (732), Clynnog (698), Corris/Mawddwy (917), Criccieth (1,263), Diffwys a Maenofferen (744), Dolbenmaen (888), Gogledd Dolgellau (862), De Dolgellau (992), Dyffryn Ardudwy (1,128) Efail-newydd/Buan (988), Harlech (1,419), Llanaelhaearn (1,121), Llanbedr (783), Llanbedrog (733), Llanengan (802), Llangelynin



## ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG AROLWG 2018

(1,505), Llanystumdwy (1,452), Morfa Nefyn (880), Nefyn (952), Penrhyndeudraeth (1,718), Dwyrain Porthmadog (1,076), Gorllewin Porthmadog (1,193), Porthmadog-Tremadog (918), Gogledd Pwllheli (1,407), De Pwllheli (1,218), Teigl (1,321), Trawsfynydd (1,070), Tudweiliog (661), a Tywyn (2,358); a,

- 2.2 e. Y wardiau etholiadol yn Vale of Clwyd CC presennol a Sir Ddinbych, sef Bodelwyddan (1,583), Canol Dinbych (1,567), Dinbych Isaf (3,575), Dinbych Uchaf/Henllan (2,371), Dwyrain Llanelwy (1,375), Gorllewin Llanelwy (1,265), Trefnant (1,496), a Tremeirchion (1,313).
- 2.3 Byddai gan yr etholaeth hon 76,147 o etholwyr sydd 1.8% yn uwch na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Gogledd Clwyd a Gwynedd**. Yr enw amgen a awgrymwyd oedd **North Clwyd and Gwynedd**.
- 2.4 Derbyniodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn awgrymu bod gan Dref Caernarfon a'r wardiau etholiadol cyfagos gysylltiadau gydag ardal Gwynedd yn hytrach nag Ynys Môn. Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth hefyd y byddai'n fwy priodol lleoli wardiau Sir Ddinbych mewn etholaeth wahanol, a bod gan wardiau etholiadol y Bala, Llandderfel a Llanuwchllyn (yr oedd y cynigion cychwynnol wedi'u cynnwys mewn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn) gysylltiadau diwylliannol cryf â Gwynedd, a bod y wardiau hyn yn ystyried eu hunain yn rhan o Wynedd. Awgrymwyd hefyd y dylai ward etholiadol Uwchaled gael ei chynnwys yn etholaeth Gwynedd gan fod ganddi gysylltiadau, ac yn benodol, cysylltiadau o ran y Gymraeg fel yr amlygwyd yng Nghyfrifiad 2011, gydag ardaloedd o Wynedd.
- 2.5 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: *“roedd llawer o gynrychiolaethau a nododd nad oes gan wardiau Dyffryn Clwyd, yn cynnwys Dinbych a Llanelwy, unrhyw gysylltiadau cymdeithasol, diwylliannol nac economaidd gydag ardal ehangach Gwynedd sy'n cynnwys Penrhyn Llŷn ac Aberdyfi”, a dywedont hefyd “Roedd cefnogaeth gref iawn dros gynnwys Uwchaled, Llandderfel, Bala, a Llanuwchllyn yn etholaeth Gwynedd yn hytrach nag yn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn oherwydd y cysylltiadau cryf o ran y Gymraeg, a chysylltiadau cymdeithasol ac economaidd rhwng yr ardal honno a Gwynedd.”*
- 2.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac yn cynnig cynnwys wardiau etholiadol Arfon i'r gorllewin o Fangor y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.5 o bennod 5 ar tudalen 16 ac 17 uchod mewn etholaeth sydd wedi'i seilio'n bennaf ar wardiau etholiadol yn ardal Gwynedd. Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth i gefnogi cynnwys y wardiau etholiadol hyn gan fod ganddynt gysylltiadau lleol â Gwynedd. Mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol hefyd y dylai wardiau etholiadol Bala, Llandderfel, Llanuwchllyn ac Uwchaled gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon gan y byddai hyn yn osgoi torri cysylltiadau lleol a'r cysylltiadau o ran y Gymraeg sy'n bodoli rhwng y wardiau hyn ac ardaloedd o Wynedd.
- 2.7 Mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol hefyd na ddylai wardiau etholiadol o Sir Ddinbych gael eu cynnwys mewn etholaeth sy'n cynnwys wardiau o


Wynedd yn bennaf am nad oedd ganddynt gysylltiadau cymuned leol ag ardal ehangach Gwynedd.

- 2.8 Fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn yn derbyn argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylai'r etholaeth arfaethedig ddiwygiedig ymestyn ddim pellach i'r dwyrain na ward etholiadol Llangernyw. Byddai'r argymhelliad hwnnw yn golygu cynnwys un ward o Wynedd, sef Llansannan, mewn etholaeth arfaethedig arall.
- 2.9 Mae'r Comisiwn, felly, wedi cynnwys ward Llansannan yn yr etholaeth ddiwygiedig hon ac mae hyn yn galluogi'r Comisiwn i gynnwys wardiau o un prif gyngor yn llai yn etholaeth De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn a drafodir yn paragraff 5.7 yn bennod 5 ar tudalen 33.
- 2.10 Ystyriodd y Comisiwn nifer o gynigion amgen ar gyfer yr ardal hon; fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn bod yr etholaeth arfaethedig ddiwygiedig hon, at ei gilydd, yn adlewyrchu'r gofynion statudol yn well nag unrhyw gynigion amgen a awgrymwyd ar ei chyfer.
- 2.11 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 2.11 a. **y wardiau etholiadol yn Aberconwy CC presennol a Sir Conwy, sef Betws-y-Coed (932), Caerhun (1,609), Crwst (1,583), Eglwysbach (1,195), Gower (887), Trefriw (1,022), ac Uwch Conwy (1,230);**
- 2.11 b. **y wardiau etholiadol yn Arfon CC presennol a Sir Gwynedd, sef Bethel (1,020), Bontnewydd.(824), Cadnant (1,438), Cwm-y-Glo (710), Deiniolen (1,263), Groeslon (1,246), Llanberis (1,445), Llanllyfni (892), Llanrug (1,289), Llanwnda (1,428), Menai (Caernarfon) (1,671), Peblig (Caernarfon) (1,344), Penisarwaun (1,293), Penygroes (1,289), Seiont (2,079), Talysarn (1,276) a Waunfawr (1,201);**
- 2.11 c. **y wardiau etholiadol yn etholaeth bresennol Clwyd West CC a Sir Conwy sef Llangernyw (1,147), Llansannan (1,470) ac Uwchaled (1,124); a,**
- 2.11 d. **Dwyfor Meirionnydd CC presennol yn gyfan**
- 2.12 **Byddai gan yr etholaeth hon 76,260 o etholwyr sydd 2% yn uwch na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 2.13 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn cefnogi ad-drefnu'r etholaeth ac a oedd hefyd yn cefnogi newid i enw'r etholaeth newydd. Nid yw'r etholaeth arfaethedig ddiwygiedig yn cynnwys wardiau Sir Ddinbych sydd wedi ei cynnwys yn yr etholaeth bresennol Vale of Clwyd, ac awgrymir felly y byddai'n amhriodol i enw'r etholaeth newydd gynnwys yr enw Clwyd.
- 2.14 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newid enw'r etholaeth i Gwynedd gan eu bod wedi dileu pob un o wardiau etholiadol Sir Ddinbych o'r cynnig cychwynnol.

## ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG AROLWG 2018

- 2.15 Gan nad yw wardiau Sir Ddinbych i'r gogledd ddwyrain wedi'u cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig mwyach, ac o ystyried bod y wardiau o amgylch y Bala i'r de ddwyrain yn cael eu cynnwys, mae'r Comisiwn o'r farn nad yw'r enw Gogledd Clwyd a Gwynedd yn briodol mwyach.
- 2.16 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed ac wedi dod i'r casgliad mai'r enw priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig ddiwygiedig yn well yw Gwynedd. Maent yn argymhell felly y dylid galw'r etholaeth arfaethedig yn **Gwynedd**. Gellir adnabod Gwynedd yn y ddwy iaith ac felly nid oes enw amgen wedi'i awgrymu.

Gwynedd



### 3. Conwy and Colwyn (Conwy a Cholwyn)

- 3.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
- 3.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Aberconwy** CC gyfanswm o 44,153 o etholwyr sydd 41% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 38% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  - 3.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Clwyd West** CC gyfanswm o 56,862 o etholwyr sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 20% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  - 3.1 c. Mae gan etholaeth bresennol **Vale of Clwyd** CC gyfanswm o 55,839 o etholwyr sydd 25% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 21% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 3.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 3.2 a. y wardiau etholiadol yn **Aberconwy** CC presennol a wardiau etholiadol Sir Conwy, sef Bryn (1,349), Capel Ulo (1,179), Conwy (3,227), Craig-y-Don (2,801), Deganwy (3,235), Gogarth (2,829), Llansanffraid (1,807), Marl (3,500), Mostyn (2,751), Pandy (1,433), Pant-yr-afon/Penmaenan (2,119), Penrhyn (3,784), Pensarn (2,075), a Tudno (3,606); a,
  - 3.2 b. y wardiau etholiadol yn **Clwyd West** CC presennol a wardiau etholiadol Sir Conwy, sef Abergele Pensarn (1,905), Colwyn (3,288), Eirias (2,749), Gele (3,784), Glyn (2,935), Bae Cinmel (4,506), Llanddulas (1,323), Llandrillo yn Rhos (6,032), Llysfaen (1,862), Mochdre (1,458), Pentre Mawr (2,747), Rhiw (4,909), a Tywyn (1,842).
- 3.3 Byddai gan yr etholaeth hon 75,035 o etholwyr sydd 0.4% yn uwch na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Colwyn and Conwy**. Yr enw amgen a awgrymwyd oedd **Colwyn a Chonwy**.
- 3.4 Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth gan y cyn Aelod Seneddol dros Vale of Clwyd a ddarparodd gynnig amgen ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru; roedd cefnogaeth i'r gynrychiolaeth hon a byddai'n galluogi cadw etholaeth bresennol Vale of Clwyd. Fodd bynnag, nid oedd llawer o gefnogaeth i'r etholaethau arfaethedig yn Sir y Fflint, Wrecsam, Gwynedd, Conwy a Phowys y byddai angen eu creu o ganlyniad i dderbyn y trefniant amgen a hwn.
- 3.5 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad na ddylid cynnwys wardiau etholiadol Bryn, Pandy, Pant-yr-Afon/ Penmaenan a Chapelulo yn yr etholaeth hon fel y trafodwyd yn flaenorol yn 1.5 o bennod 5 ar tudalen 16. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad hefyd na ddylai etholaeth Gwynedd ymestyn dim pellach i'r dwyrain na ward etholiadol


Llangernyw. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad mai'r wardiau mwyaf priodol i'w hychwanegu yw wardiau etholiadol Betws yn Rhos a Dinas Llanelwy a'r wardiau cyfagos ym mhrif gyngor Sir Ddinbych. *"I gydnabod y cysylltiadau agos rhwng ardal wledig Betws yn Rhos ac arfordir a thref Bae Colwyn, argymhellwn y dylai'r ward honno gael ei chynnwys yn yr etholaeth newydd. Yn yr un modd, rydym wedi argymhell y dylai wardiau Bodelwyddan, dwyrain a gorllewin Llanelwy, Tremeirchion a Threfnant gael eu hepgor o etholaeth arfaethedig Gwynedd nad oes ganddynt unrhyw gysylltiadau lleol â hi, ond mae ganddynt gysylltiadau cryf â'r ardal arfordirol yn yr etholaeth arfaethedig hon, ac felly argymhellwn eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Colwyn a Chonwy."* Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth i gefnogi cynnwys y wardiau etholiadol hyn yn yr etholaeth arfaethedig gan fod ganddynt gysylltiadau lleol gydag Arfordir Gogledd Cymru. Derbyniwyd cynrychiolaethau hefyd a oedd yn cefnogi bod cysylltiadau yn bodoli rhwng Betws yn Rhos a Bae Colwyn.

- 3.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac yn cynnig cynnwys ward etholiadol Betws yn Rhos gyda Dwyrain Llanelwy, a Gorllewin Llanelwy, ynghyd â wardiau cyfagos Bodelwyddan, Tremeirchion, a Threfnant yn yr etholaeth arfaethedig hon.
- 3.7 Er bod corff o bobl yn cefnogi'r gynrychiolaeth a wnaed gan y cyn Aelod Seneddol dros Vale of Clwyd a byddai'n cadw etholaeth bresennol Vale of Clwyd, mae'r Comisiwn o'r farn y byddai cadw etholaeth bresennol Vale of Clwyd yn cael effaith niweidiol ar yr etholaethau arfaethedig eraill yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru. Mae'r cynnig a roddwyd gerbron gan y Comisiynwyr Cynorthwyol yn adlewyrchu'r gofynion statudol yn well yn gyffredinol; byddai'r cynnig hwn yn galluogi cadw etholaethau presennol eraill yng Ngogledd Ddwyrain Cymru o fewn etholaethau.
- 3.8 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 3.8 a. **y wardiau etholiadol yn Aberconwy CC presennol a wardiau etholiadol Sir Conwy, sef Conwy (3,227), Craig-y-Don (2,801), Deganwy (3,235), Gogarth (2,829), Llansanffraid (1,807), Marl (3,500), Mostyn (2,751), Penrhyn (3,784), Pensarn (2,075), a Tudno (3,606);**
- 3.8 b. **y wardiau etholiadol yn Clwyd West CC presennol a wardiau etholiadol Sir Conwy, sef Abergele Pensarn (1,905), Betws yn Rhos (1,626), Colwyn (3,288), Eirias (2,749), Gele (3,784), Glyn (2,935), Bae Cinmel (4,506), Llanddulas (1,323), Llandrillo yn Rhos (6,032), Llysfaen (1,862), Mochdre (1,458), Pentre Mawr (2,747), Rhiw (4,909), a Tywyn (1,842); ac**
- 3.8 c. **y wardiau etholiadol yn Vale of Clwyd CC presennol a Sir Ddinbych, sef Bodelwyddan (1,583), Dwyrain Llanelwy (1,375), Gorllewin Llanelwy (1,265), Trefnant (1,496), a Tremeirchion (1,313).**
- 3.9 **Byddai gan yr etholaeth hon 77,613 o etholwyr sydd 3.8% yn uwch na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

## ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG AROLWG 2018

- 3.10 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau bod enw'r cynnig cychwynnol yn dechrau ar y ffin ac yn symud tua'r gorllewin ac nid yw'n hwylus i'r glust, ac yn y Gymraeg y duedd yw enwi lleoedd o'r Gorllewin i'r Dwyrain. Drwy enwi'r etholaeth yn y modd y gwnaeth y Comisiwn, yn y cynnig cychwynnol, mae'n arwain at enw lletchwith.
- 3.11 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newid i enw'r cynnig cychwynnol i adlewyrchu arfer o enwi lleoedd daearyddol yn y Gymraeg gan gyfeirio at leoedd o'r Gorllewin i'r Dwyrain. Hefyd, cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol hepgor y cysylltair o'r cynnig cychwynnol. Drwy hepgor y cysylltair dim ond un enw fyddai ei angen ar y cynnig, a byddai modd adnabod hwnnw yn y ddwy iaith. Nid oedd y Comisiwn yn cytuno ag ymagwedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o hepgor y cysylltair am y rhesymau a roddwyd uchod mewn perthynas ag etholaeth arfaethedig Ynys Môn a Fangor.
- 3.12 Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r Comisiynwyr Cynorthwyol y dylai'r enw adlewyrchu arfer enwi yn y Gymraeg a awgrymwyd, ac mae wedi dod i'r casgliad felly y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Conwy and Colwyn**. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **Conwy a Cholwyn**.

Conwy and Colwyn (Conwy a Cholwyn)






## 4. Fflint and Rhuddlan (Fflint a Rhuddlan)

- 4.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
- 4.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Delyn** CC gyfanswm o 52,388 o etholwyr sydd 30% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 26% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth
- 4.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Vale of Clwyd** CC gyfanswm o 55,839 o etholwyr sydd 25% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 21% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 4.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 4.2 a. y wardiau etholiadol yn **Delyn** CC presennol a Sir y Fflint, sef Dwyrain Bagillt (1,420), Gorllewin Bagillt (1,559), Brynffordd (1,702), Caerwys (1,979), Cilcain (1,495), Ffynnongroyw (1,409), Castell Y Fflint (1,324), Coleshill Y Fflint (2,914), Oakenholt Y Fflint (2,026), Trelawny Y Fflint (2,645), Maesglas (1,965), Gronant (1,182), Gwernaffield (1,602), Helygain (1,395), Canol Treffynnon (1,389), Dwyrain Treffynnon (1,361), Gorllewin Treffynnon (1,766), Mostyn (1,413), Llaneurgain (2,439), Trelawnyd a Gwaenysgor (1,451) a Chwitffordd (1,824);a,
- 4.2 b. y wardiau etholiadol yn **Vale of Clwyd** CC presennol a Sir Ddinbych, sef Diserth (1,905), Canol Prestatyn (2,814), Dwyrain Prestatyn (3,219), Prestatyn Allt Melyd (1,572), Gogledd Prestatyn (4,691), De Orllewin Prestatyn (2,848), Rhuddlan (2,851), Dwyrain Y Rhyl (3,684), De Y Rhyl (2,948), De Dwyrain Y Rhyl (6,007), De Orllewin Y Rhyl (3,736) a Gorllewin Y Rhyl (3,367).
- 4.3 Byddai gan yr etholaeth hon 75,902 o etholwyr sydd 1.5% yn uwch na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Flint and Rhuddlan**. Yr enw amgen a awgrymwyd oedd **Fflint a Rhuddlan**.
- 4.4 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth yn y gwrandawriad cyhoeddus yn Wrecsam gan yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Delyn y dylai ward etholiadol Gwernaffield gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy oherwydd ei chysylltiadau lleol gyda Thref yr Wyddgrug, ac y dylai ward Northop Hall gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig oherwydd ei chysylltiadau lleol gyda ward etholiadol Llaneurgain. Cefnogwyd hyn gan gynrychiolaethau eraill a dderbyniodd y Comisiwn, a chyflwyniad y Blaid Lafur. Derbyniodd y Comisiwn gynllun amgen hefyd gan gyn Aelod Seneddol Vale of Clwyd fel y trafodwyd yn flaenorol ym mharagraff 3.4 o bennod 5 ar tudalen 25.
- 4.5 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad fod gan ward etholiadol Northop Hall gysylltiadau gyda ward etholiadol Llaneurgain ac y dylid ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon, ac y dylai ward etholiadol Gwernaffield, sydd â chysylltiadau lleol â Thref yr Wyddgrug, gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Alyn a Glannau Dyfrdwy.

- 4.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac yn cynnig cynnwys ward etholiadol Northop Hall yn yr etholaeth arfaethedig hon er mwyn osgoi torri ei chysylltiadau â Llaneurgain, a chynnwys ward etholiadol Gwernaffield yn etholaeth arfaethedig Alyn a Glannau Dyfrdwy er mwyn osgoi torri ei chysylltiadau â Thref yr Wyddgrug. Derbyniodd y Comisiwn gynnig amgen gan y cyn Aelod Seneddol ar gyfer Vale of Clwyd, ac ystyrir hwn ym mharagraff 3.4 o bennod 5 ar tudalen 25 uchod.
- 4.7 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 4.7 a. **y wardiau etholiadol yn Delyn CC presennol a Sir y Fflint, sef Dwyrain Bagillt (1,420), Gorllewin Bagillt (1,559), Brynffordd (1,702), Caerwys (1,979), Cilcain (1,495), Ffynngroyw (1,409), Castell Y Fflint (1,324), Coleshill Y Fflint (2,914), Oakenholt Y Fflint (2,026), Trelawny Y Fflint (2,645), Maesglas (1,965), Gronant (1,182), , Helygain (1,395), Canol Treffynnon (1,389), Dwyrain Treffynnon (1,361), Gorllewin Treffynnon (1,766), Mostyn (1,413), Llaneurgain (2,439), Northop Hall (1,248), Trelawnyd a Gwaenysgor (1,451) a Chwitffordd (1,824) ); ac,**
- 4.7 b. **y wardiau etholiadol yn Vale of Clwyd CC presennol a Sir Ddinbych, sef Diserth (1,905), Canol Prestatyn (2,814), Dwyrain Prestatyn (3,219), Prestatyn Allt Melyd (1,572), Gogledd Prestatyn (4,691), De Orllewin Prestatyn (2,848), Rhuddlan (2,851), Dwyrain Y Rhyl (3,684), De Y Rhyl (2,948), De Dwyrain Y Rhyl (6,007), De Orllewin Y Rhyl (3,736), a Gorllewin Y Rhyl (3,367).**
- 4.8 **Byddai gan yr etholaeth hon 75,548 o etholwyr sydd 1% yn uwch na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 4.9 Roedd cytundeb cyffredinol bod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yn briodol. Awgrymwyd enwau amgen ynghyd a threfn enwau amgen. Cynigiwyd Flintshire West and North Denbighshire [Gorllewin Sir y Fflint a Gogledd Sir Ddinbych] a Vale of Clwyd [Dyffryn Clwyd] gan y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr, yn y drefn honno.
- 4.10 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn bod yr enw a gynigiwyd yn y cynnig cychwynnol yn briodol, neu'n fwy priodol, nag unrhyw rai eraill a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau.
- 4.11 Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r Comisiynwyr Cynorthwyol fod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yn briodol. Maent felly yn argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Flint and Rhuddlan**. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **Fflint a Rhuddlan**.

**Flint and Rhuddlan (Fflint a Rhuddlan)**



## 5. Alyn and Deeside (Alyn a Glannau Dyfrdwy)


- 5.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
- 5.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Alyn and Deeside** CC gyfanswm o 60,550 o etholwyr sydd 19% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 15% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 5.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Delyn** CC gyfanswm o 52,388 o etholwyr sydd 30% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 26% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 5.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 5.2 a. y cyfan o **Alyn and Deeside** CC presennol yn cynnwys wardiau etholiadol Sir y Fflint, sef Aston (2,440), Gogledd Dwyrain Brychdyn (1,660), De Brychdyn (2,808), Dwyrain Bistre Bwcle (2,596), Gorllewin Bistre Bwcle (3,139), Mynydd Bwcle (2,436), Pentrobin Bwcle (3,956), Caergwrle (1,157), Ewlo (4,171), Canol Cei Conna (2,232), Cei Conna Golftyn (3,662), De Cei Conna (4,357), Cei Conna Gwepra (1,591), Penarlâg (1,549), Kinnerton Uchaf (1,283), Yr Hôb (2,008), Llanfynydd (1,391), Mancot (2,582), Pen-y-ffordd (3,283), Queensferry (1,236), Saltney Cyffordd Yr Wyddgrug (878), Saltney Stonebridge (2,583), Sealand (1,917), Dwyrain Shotton (1,267), Shotton Uchaf (1,678), Gorllewin Shotton (1,409), a Treuddyn (1,281); ac,
- 5.2 b. y wardiau etholiadol yn **Delyn** CC presennol a Sir y Fflint, sef Argoed (2,130), Gwernymynydd (1,371), Coed Llai (1,543), Broncoed Yr Wyddgrug (1,878), Dwyrain Yr Wyddgrug (1,491), De Yr Wyddgrug (2,155), Gorllewin Yr Wyddgrug (1,965), New Brighton (2,347) a Northop Hall (1,248).
- 5.3 Byddai gan yr etholaeth hon 76,678 o etholwyr sydd 2.6% yn uwch na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Alyn and Deeside**. Yr enw amgen a awgrymwyd oedd **Alyn a Glannau Dyfrdwy**.
- 5.4 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth yn y gwrandawriad cyhoeddus yn Wrecsam gan yr Aelod Seneddol presennol ar gyfer Delyn a ddywedodd y dylai ward Gwernaffield gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy oherwydd ei chysylltiadau lleol gyda Thref yr Wyddgrug, ac y dylai ward Northop Hall gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Fflint a Rhuddlan oherwydd ei chysylltiadau lleol gyda ward etholiadol Llaneurgain. Cefnogwyd hyn gan gynrychiolaethau eraill a dderbyniodd y Comisiwn, a chyflwyniad y Blaid Lafur. Derbyniodd y Comisiwn gynllun amgen hefyd gan gyn Aelod Seneddol Vale of Clwyd a drafodir ym mharagraff 3.5 o bennod 5 ar tudalen 25.
- 5.5 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad y dylai ward etholiadol Gwernaffield gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig oherwydd ei chysylltiadau lleol â'r Wyddgrug, ac y

## ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG AROLWG 2018

dylai ward etholiadol Northop Hall, sydd â chysylltiadau lleol â Llaneurgain, gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Fflint a Rhuddlan fel y trafodwyd yn 4.4 o bennod 5 at tudalen 29.

- 5.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac yn cynnig cynnwys ward etholiadol Gwernaffield yn yr etholaeth arfaethedig er mwyn osgoi torri ei chysylltiadau gyda Thref yr Wyddgrug, a chynnwys ward etholiadol Northop Hall yn etholaeth arfaethedig Fflint a Rhuddlan er mwyn osgoi torri ei chysylltiadau gyda ward etholiadol Llaneurgain. Derbyniodd y Comisiwn gynnig amgen gan y cyn Aelod Seneddol dros Vale of Clwyd, fodd bynnag, ystyriwyd hwn yn flaenorol yn 3.5 o bennod 5 ar tudalen 25.
- 5.7 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 5.7 a. **Etholaeth bresennol Alyn and Deeside CC yn gyfan; a,**
- 5.7 b. **y wardiau etholiadol yn Delyn CC presennol a Sir y Fflint, sef Argoed (2,130), Gwernaffield (1,602), Gwernymynydd (1,371), Coed Llai (1,543), Broncoed Yr Wyddgrug (1,878), Dwyrain Yr Wyddgrug (1,491), De Yr Wyddgrug (2,155), Gorllewin Yr Wyddgrug (1,965), a New Brighton (2,347).**
- 5.8 **Byddai gan yr etholaeth hon 77,032 o etholwyr sydd 3% yn uwch na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 5.9 Roedd cytundeb cyffredinol bod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yn briodol. Awgrymwyd enwau amgen ynghyd a threfn enwau amgen. Cynigiwyd Deeside [Glannau Dyfrdwy] gan y Blaid Geidwadol.
- 5.10 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn bod yr enw a gynigiwyd yn y cynnig cychwynnol yn briodol, neu'n fwy priodol, nag unrhyw rai eraill a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau.
- 5.11 Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r Comisiynwyr Cynorthwyol fod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yn briodol. Maent felly yn argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Alyn and Deeside**. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **Alyn a Glannau Dyfrdwy**.

**Alyn and Deeside (Alyn a Glannau Dyfrdwy)**




## 6. Wrexham (Wreccsam)

- 6.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
- 6.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Clwyd South** CC gyfanswm o 53,094 o etholwyr sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 6.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Wrexham** CC gyfanswm o 48,861 o etholwyr sydd 35% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 31% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 6.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 6.2 a. Y wardiau etholiadol yn etholaeth bresennol **Clwyd South** CC a Bwrdeistref Sirol Wreccsam sef Bronington (2,540), Brymbo (2,982), Bryn Cefn (1,482), Coedpoeth (3,482), Esclus (2,023), Gwenfro (1,214), Marchwiell (1,824), Y Mwynglawdd (1,843), Brychdyn Newydd (2,649), Owrtyn (2,601) a Phonciau (heb wardiau Gogledd Ponciau, De Ponciau a Rhos yng Nghymuned Rhosllannerchrugog) (636).
- 6.2 b. Etholaeth bresennol **Wrexham** CC yn gyfan.
- 6.3 Byddai gan yr etholaeth hon 72,137 o etholwyr sydd 3.5% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Wrexham Maelor**. Yr enw amgen a awgrymwyd oedd **Wreccsam Maelor**.
- 6.4 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi'r cynnig cychwynnol yn gyffredinol. Fel enghraifft, dywedodd yr Aelod Seneddol dros etholaeth bresennol Wrexham *"I fod yn gwbl glir, rwy'n cefnogi'r cynigion mewn perthynas ag etholaeth Wreccsam Maelor,"* a dywed hefyd *"Nid wyf wedi gweld unrhyw gynigion amgen darbwyllo i'r cynnig hwn ar gyfer Wreccsam."* Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth a awgrymodd y dylai Wreccsam a'r Drenewydd fod yn yr un etholaeth, a chynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol y dylai ward etholiadol Ponciau fod yn gyfan gwbl o fewn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn, ond nid oedd y Comisiwn o'r farn fod y cynigion hyn yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r cynigion cychwynnol.
- 6.5 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad fod cytundeb cyffredinol o blaid y cynnig cychwynnol ar gyfer Wreccsam yn y cynrychiolaethau ac yn y gwrandawriadau cyhoeddus.
- 6.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac yn cynnig cadw'r cynnig cychwynnol.

- 6.7 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 6.7 a. **y wardiau etholiadol yn Clwyd South CC presennol a Chyngor Bwrdeistref Wrecsam, sef Bronington (2,540), Brymbo (2,982), Bryn Cefn (1,482), Coedpoeth (3,482), Esclusham (2,023), Gwenfro (1,214), Marchwiall (1,824), Mwynglawdd (1,843), Brychdyn Newydd (2,649), Owrtyn (2,601) a Ponciau (heb wardiau Gogledd Ponciau, De Ponicaeu, a Rhos o Gymuned Rhosllanerchrugog) (636) a,**
- 6.7 b. **Etholaeth bresennol Wrexham CC yn gyfan.**
- 6.8 **Byddai gan yr etholaeth hon 72,137 o etholwyr sydd 3.5% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 6.9 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau oddi wrth AS presennol Wrexham a ddywedodd fod Wrecsam yn enw hawdd iawn i'w adnabod a bod ychwanegu Maelor yn ddiangen, a byddai'n creu dryswch. Roedd y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Blaid Geidwadol o'r farn hefyd fod Maelor yn ychwanegiad diangen at enw'r etholaeth arfaethedig.
- 6.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newid enw'r etholaeth arfaethedig i Wrecsam. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad, gan fod yr holl wardiau etholiadol sy'n ffurfio'r etholaeth arfaethedig o fewn ardal prif gyngor Wrecsam, fod cynnwys Maelor yn yr enw yn ychwanegiad diangen am fod cyswllt eisoes yn bodoli gyda'r enw Wrecsam.
- 6.11 Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r Cynorthwywyr Cynorthwyol y dylai'r enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol gael ei newid i adlewyrchu'r cyswllt yn yr ardal i enw ardal y prif gyngor a'r etholaeth bresennol. Mae'r Comisiwn felly yn argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Wrexham**. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **Wrecsam**.



Wrexham (Wrexham)



## 7. De Clwyd a Gogledd Maldwyn (South Clwyd and North Montgomeryshire)

- 7.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
- 7.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Clwyd South** CC gyfanswm o 53,094 o etholwyr sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  - 7.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Clwyd West** CC gyfanswm o 56,862 o etholwyr sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 20% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  - 7.1 c. Mae gan etholaeth bresennol **Dwyfor Meirionnydd** CC gyfanswm o 42,353 o etholwyr sydd 43% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 40% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  - 7.1 d. Mae gan etholaeth bresennol **Montgomeryshire** CC gyfanswm o 46,989 o etholwyr sydd 37% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 34% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  - 7.1 e. Mae gan etholaeth bresennol **Vale of Clwyd** CC gyfanswm o 55,839 o etholwyr sydd 25% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 21% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 7.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 7.2 a. Y rhannau canlynol o etholaeth bresennol **Clwyd South** CC yn cynnwys:
    - i. Wardiau etholiadol Sir Ddinbych sef Corwen (1,826), Llandrillo (930) a Llangollen (3,319); a,
    - ii. Wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sef Cefn (3,709); Dyffryn Ceiriog (1,670), Gogledd Y Waun (1,811), De'r Waun (1,549), Johnstown (2,415), Llangollen Wledig (1,578), Pant (1,534), Pen-y-cae (1,479), Pen-y-cae a De Rhiwabon (1,898), Plas Madoc (1,198), Rhiwabon (2,071) a Ponciau (heb wardiau Aberoer a Pentrebychan o Gymuned Esclusham) (2,831);
  - 7.2 b. y rhannau canlynol o etholaeth bresennol **Clwyd West** CC yn cynnwys:
    - i. ward etholiadol Bwrdeistref Sirol Conwy, sef Uwchaled (1,124),

- ii. wardiau etholiadol Sir Ddinbych, sef Efenechdyd (1,316), Llanarmon-yn-lâl/Llandegla (1,978), Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal (1,218) Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern (1,793), Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch (1,478) a Ruthun (4,372);
- 7.2 c. y wardiau etholiadol yn **Dwyfor Meirionnydd** CC presennol yn cynnwys Sir Gwynedd, sef Y Bala (1,290), Llandderfel (1,090) a Llanuwchllyn (673);
- 7.2 d. y wardiau etholiadol yn **Montgomeryshire** CC presennol a Sir Powys, sef Glantwymyn (1,558), Banwy (746), Llanrhaeadr-ym-Mochnant/ Llansilin (1,733), Llanbryn-mair (742), Llanfair Caereinion (1,227), Llanfihangel (872), Llanwddyn (818), Meifod (1,040), Llandrinio (1,656), Cegidfa (1,799), Castell Y Trallwng (954), Y Trallwng Gungrog (1,772), Y Trallwng Llannerch Hudol (1,652), Trewern (1,054), Llanfyllin (1,147), Llansanffraid (1,511), Machynlleth (1,627) a Llandysilio (1,387); a,
- 7.2 e. y ward etholiadol yn **Vale of Clwyd** CC presennol yn cynnwys Sir Ddinbych, sef Llandyrnog (1,652).
- 7.3 Byddai gan yr etholaeth hon 71,097 o etholwyr sydd 4.9% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn**. Yr enw amgen a awgrymwyd oedd **South Clwyd and North Montgomeryshire**.
- 7.4 Derbyniodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau na ddylid cynnwys Machynlleth a wardiau etholiadol cyfagos Glantwymyn a Llanbryn-mair yn yr etholaeth arfaethedig hon, ond y dylid eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro gan mai â Cheredigion yn hytrach na Chlwyd y mae eu cysylltiadau. Fel enghraifft, dywedodd un gynrychiolaeth o ran lleoliad Machynlleth *“Wedi’i leoli yn agos at arfordir gorllewin Cymru, mae gan ardal Machynlleth gysylltiadau agosach ag Aberystwyth.”* Roedd cryn dipyn o gytundeb ymhlith y pleidiau gwleidyddol a wnaeth gynrychiolaethau ac ymhlith cynrychiolaethau eraill y dylai Machynlleth a’r ddwy ward etholiadol arall gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro. Nid yw’r Blaid Lafur, er na wnaeth wrthwynebu’r diwygiad a awgrymwyd, wedi’i hargyhoeddi bod gan Fachynlleth fwy o gysylltiadau â Cheredigion.
- 7.5 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd ar b’un ai i gynnwys wardiau etholiadol Aberriw a Ffordun yn yr etholaeth arfaethedig hon, yn ogystal â chynrychiolaethau ynglŷn â dymunoldeb cadw etholaeth bresennol Montgomeryshire. Roedd y cynrychiolaethau olaf hyn yn cyfeirio at y ffaith y bu Montgomeryshire yn Etholaeth Seneddol er 1536, ac y dylid ei chadw. Derbyniodd y Comisiwn ddeiseb â 237 o lofnodion yn cefnogi cadw’r etholaeth bresennol.
- 7.6 Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol fod ward etholiadol Llansannan a thair o wardiau etholiadol Sir Ddinbych (Canol Dinbych, Dinbych Isaf, a Dinbych Uchaf/Henllan) yn cael eu dileu o etholaeth arfaethedig gychwynnol Gogledd Clwyd a Gwynedd a’u cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon. Mae’r Comisiynwyr Cynorthwyol wedi cynnig hefyd y dylai wardiau etholiadol y Bala, Uwchaled, Llandderfel a Llanuwchllyn gael eu dileu o’r etholaeth arfaethedig hon a’u cynnwys yn etholaeth ddiwygiedig Gwynedd oherwydd y cysylltiadau cymdeithasol sy’n bodoli gydag ardal Gwynedd, ac maent wedi tynnu sylw at y gefnogaeth

gref i'r newidiadau hyn yn y gwrandawiadau cyhoeddus ac yn y cynrychiolaethau. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad y dylai Machynlleth a'r ddwy ward gyfagos gael eu dileu o'r etholaeth arfaethedig gychwynol hefyd, a'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro oherwydd y cysylltiadau lleol a'r cysylltiadau trafniadaeth rhwng Machynlleth ac Aberystwyth. Hefyd, argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylai'r ddwy ward etholiadol Aberriw a Ffordun gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon gan fod ganddynt gysylltiadau â Thref y Trallwng ac i sicrhau y byddai'r etholaeth arfaethedig o fewn yr amrediad etholiadol statudol. Rhoddodd y Comisiynwyr Cynorthwyol ystyriaeth i'r cynnig amgen a gynigiwyd gyda'r bwriad o alluogi cadw etholaeth bresennol Montgomeryshire: *"... mae'n creu problemau sylweddol mewn mannau eraill gan gynnwys rhannu Ceredigion a chysylltu'r rhan ogleddol ag etholaeth a fyddai'n ymestyn at gyrion Caernarfon a Chonwy, a chael etholaeth y Bannau a fyddai'n ymestyn o Draeth Pentwyn bron cyn belled â'r ffin â Lloegr."* Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad y byddai cadw etholaeth bresennol Montgomeryshire yn cael effeithiau ar etholaethau arfaethedig eraill ledled Cymru a oedd yn rhai negyddol, ac, er bod ganddynt gydymdeimlad â phobl Sir Drefaldwyn, roeddent o'r farn nad oedd yn ymarferol cadw'r etholaeth hanesyddol.

- 7.7 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol mewn perthynas â'r tair ward etholiadol o Sir Ddinbych (Canol Dinbych, Dinbych Isaf, a Dinbych Uchaf/Henllan) ac yn cynnig cynnwys y wardiau hynny yn yr etholaeth arfaethedig hon. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi penderfynu peidio â chynnwys ward etholiadol Llansannan yn yr etholaeth arfaethedig, ac yn argymhell y dylid ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gwynedd am y rhesymau a drafodwyd eisoes. Mae'r Comisiwn hefyd yn derbyn argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylai wardiau etholiadol y Bala, Llandderfel, Llanuwchllyn, ac Uwchaled gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Gwynedd yn hytrach na'r etholaeth arfaethedig hon fel y trafodwyd yn flaenorol yn 2.5 o bennod 5 tudalen 21. Mae'r Comisiwn yn derbyn argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol hefyd i gynnwys wardiau etholiadol Machynlleth, Llanbryn-mair a Glantwymyn yn etholaeth Ceredigion a Gogledd Sir Benfro, yn hytrach nag yn yr etholaeth hon, er mwyn osgoi torri eu cysylltiadau â thref Aberystwyth.
- 7.8 Mae'r Comisiwn wedi ystyried argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol a'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd mewn perthynas â wardiau etholiadol Aberriw a Ffordun. Mae angen i o leiaf un o'r wardiau etholiadol gael eu cynnwys yn etholaeth De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn er mwyn sicrhau bod yr etholaeth honno o fewn yr amrediad etholiadol statudol. Mae'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd o Cyngor Cymuned Ffordun gyda Tre'r-llai a Threlystan yn cyfeirio at gysylltiadau presennol Ffordun gyda Threfaldwyn a'r Ystog ac yn dynodi y byddai'n briodol i Ffordun aros yn etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn. Felly, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad, ar y dystiolaeth a oedd ganddo gerbron, y dylid cynnwys Ffordun yn etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn fel yn y cynnig gychwynol. Yn yr amgylchiadau, dylid cynnwys Aberriw yn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn.
- 7.9 Mae gan y Comisiwn gryn gydymdeimlad â'r nod o gadw etholaeth bresennol, a hanesyddol, Montgomeryshire. Mae'r Comisiwn, fodd bynnag, wedi derbyn argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol na fyddai'n ymarferol cadw etholaeth bresennol Montgomeryshire. Mae'r comisiwn yn cytuno y byddai gwneud hynny'n cael effeithiau ôl-ddilydol ar lawer o'r

## ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG AROLWG 2018

etholaethau arfaethedig eraill yng Nghymru, a byddai'n arwain at etholaethau a fyddai, yn gyffredinol, yn adlewyrchiad llai effeithiol o'r meini prawf statudol.

### 7.10 Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:

#### 7.10 a. Y rhannau canlynol o Clwyd South CC presennol yn cynnwys:

- i. **Wardiau etholiadol Sir Ddinbych, sef Corwen (1,826), Llandrillo (930) a Llangollen (3,319); a,**
- ii. **wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sef Cefn (3,709); Dyffryn Ceiriog (1,670), Gogledd Y Waun (1,811), De'r Waun (1,549), Johnstown (2,415), Llangollen Wledig (1,578), Pant (1,534), Pen-y-cae (1,479), Pen-y-cae a De Rhiwabon (1,898), Plas Madoc (1,198), Rhiwabon (2,071) a Ponciau (heb wardiau Aberoer a Pentrebychan o Gymuned Esclusham) (2,831);**

#### 7.10 b. y rhannau canlynol o Clwyd West CC presennol yn cynnwys: wardiau etholiadol Sir Ddinbych, sef Efenechdyd (1,316), Llanarmon-yn-lâl/Llandegla (1,978), Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal (1,218) Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern (1,793), Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch (1,478) a Ruthun (4,372);

#### 7.10 c. y wardiau etholiadol yn Montgomeryshire CC presennol a Sir Powys, sef Banwy (746), Aberriew (1,064), Llanrhaeadr-ym-Mochnant/ Llansilin (1,733), Llanbrynmair (742), Llanfair Caereinion (1,227), Llanfihangel (872), Llanwddyn (818), Meifod (1,040), Llandrinio (1,656), Cegidfa (1,799), Castell Y Trallwng (954), Y Trallwng Gungrog (1,772), Y Trallwng Llannerch Hudol (1,652), Trewern (1,054), Llanfyllin (1,147), Llansanffraid (1,511), a Llandysilio (1,387); a,

#### 7.10 d. y ward etholiadol yn Vale of Clwyd CC presennol yn cynnwys Sir Ddinbych, sef Canol Dinbych (1,567), Dinbych Isaf (3,575), Dinbych Uchaf/Henllan (2,371), Llandyrnog (1,652).


### 7.11 Byddai gan yr etholaeth hon 71,570 o etholwyr sydd 4.3% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.

### 7.12 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth a ddywedodd mai'r enwau Cymraeg traddodiadol ar gyfer Montgomeryshire yw naill ai Maldwyn neu Sir Drefaldwyn; cefnogwyd hyn gan gyflwyniad Plaid Cymru.

### 7.13 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newid i enw'r etholaeth arfaethedig i adlewyrchu'r enw cydnabyddedig ar gyfer yr ardal yn y Gymraeg.

### 7.14 Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid newid fersiwn Gymraeg yr enw i adlewyrchu ffurf fwy cydnabyddedig o'r enw. Felly, mae'r Comisiwn yn argymhell mai **De Clwyd a Gogledd Maldwyn** ddylai enw'r etholaeth arfaethedig fod. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **South Clwyd and North Montgomeryshire**.

**De Clwyd a Gogledd Maldwyn (South Clwyd and North Montgomeryshire)**



## 8. Brecon, Radnor and Montgomery (Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn)

8.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

8.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Brecon and Radnor** CC gyfanswm o 52,273 o etholwyr sydd 30% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 26% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

8.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Montgomeryshire** CC gyfanswm o 46,989 o etholwyr sydd 37% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 34% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

8.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

8.2 a. Etholaeth bresennol **Brecon and Radnor** CC yn gyfan; a,

8.2 b. y wardiau etholiadol yn **Montgomeryshire** CC presennol a Sir Powys, sef Aberriew (1,064), Caersws (1,712), Yr Ystog (1,214), Dolforwyn (1,587), Ffordun (1,083), Ceri (1,563), Llandinam (1,063), Trefaldwyn (1,059), Canol y Drenewydd (2,103), Dwyrain y Drenewydd (1,391), Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaearn (1,726), Y Drenewydd Gorllewin Llanllwchaearn (1,361), De y Drenewydd (1,242) a Rhiwcynon (1,674).

8.3 Byddai gan yr etholaeth hon 72,115 o etholwyr sydd 3.5% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Brecon, Radnor, and Montgomery**. Yr enw amgen a awgrymwyd oedd **Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn**.

8.4 Derbyniodd y Comisiwn nifer fawr o gynrychiolaethau yn dweud bod cysylltiadau cymunedol gan wardiau etholiadol Llanidloes a Blaen Hafren â'r Drenewydd, ac y dylid cynnwys y wardiau hynny yn etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau o Cyngor Cymuned Ffordun gyda Tre'r-llai a Threlystan a ddywedodd y dylai ward Ffordun gael ei chadw yn yr etholaeth arfaethedig hon a dywedodd *"Teimlir bod gan ward Ffordun gyswllt naturiol â Threfaldwyn a'r Ystog, y cynigir bod y ddau ohonynt i'w cadw yn yr etholaeth honno hefyd."*

8.5 Cafodd y Comisiwn gorff mawr o dystiolaeth mewn perthynas ag etholaeth bresennol Montgomeryshire. Dywedodd y cynrychiolaethau fod Montgomeryshire wedi bod yn Etholaeth Seneddol er 1536 ac y dylid ei chadw yn llawn. Derbyniodd y Comisiwn ddeiseb â 237 o lofnodion yn cefnogi cadw etholaeth Montgomeryshire.

8.6 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad y dylai wardiau etholiadol Aberriw a Ffordun gael eu dileu o'r etholaeth arfaethedig a'u lleoli yn etholaeth arfaethedig De Clwyd a

Gogledd Sir Faldwyn fel y trafodwyd yn flaenorol ym mharagraff 7.6 o bennod 5. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad hefyd y dylai wardiau etholiadol Llanidloes a Blaen Hafren gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon er mwyn osgoi torri'r cysylltiadau rhwng Llanidloes a'r Drenewydd y tynnwyd sylw atynt drwy'r holl gynrychiolaethau a dderbyniwyd gan y Comisiwn. Rhoddodd y Comisiynwyr Cynorthwyol ystyriaeth i'r cynrychiolaethau i gadw etholaeth Sir Drefaldwyn fel y trafodwyd yn flaenorol ym mharagraff 7.6 o bennod 5 tudalen 39 a 40.

- 8.7 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn yn cytuno gydag argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol i gynnwys wardiau etholiadol Llanidloes a Blaen Hafren yn yr etholaeth arfaethedig hon. Roedd nifer uchel o gynrychiolaethau a chytundeb ymhlith y pleidiau gwleidyddol a wnaeth gynrychiolaethau yn cefnogi'r diwygiad hwn i'r cynigion cychwynnol. Ystyriodd y Comisiwn yr argymhelliad mewn perthynas â wardiau etholiadol Aberriw a Ffordun fel y trafodwyd eisoes ym mharagraff 7.6 o bennod 5 tudalen 39 a 40. Roedd y Comisiwn o'r farn y dylid cynnwys Ffordun yn yr etholaeth arfaethedig hon, fel y cynigiwyd yn gychwynnol, er mwyn osgoi torri'r cysylltiadau y dangosodd y dystiolaeth oedd yn bodoli rhwng Ffordun a Threfaldwyn a'r Ystog. Penderfynodd y Comisiwn ei bod yn briodol cynnwys ward etholiadol Aberriw yn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Maldwyn.
- 8.8 Mae'r Comisiwn yn cytuno gydag argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol nad yw'n ymarferol cadw etholaeth bresennol Montgomeryshire fel y trafodwyd yn flaenorol ym mharagraff 7.6 o bennod 5 tudalen 39 a 40.
- 8.9 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 8.9 a. **Etholaeth bresennol Brecon and Radnor CC yn gyfan**
- 8.9 b. **y wardiau etholiadol yn Montgomeryshire CC presennol a Sir Powys, sef Blaen Hafren (1,782), Caersws (1,712), Yr Ystog (1,214), Dolforwyn (1,587), Ffordun (1,083), Ceri (1,563), Llandinam (1,063), Llanidloes (2,070), Trefaldwyn (1,059), Canol y Drenewydd (2,103), Dwyrain y Drenewydd (1,391), Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaearn (1,726), Y Drenewydd Gorllewin Llanllwchaearn (1,361), De y Drenewydd (1,242) a Rhiwcynon (1,674)**
- 8.10 **Byddai gan yr etholaeth hon 74,903 o etholwyr sydd 0.2% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 8.11 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau ar gyfer enwau gwahanol i'r etholaeth hon; roedd y rhain yn cynnwys yr enw Brycheiniog yn lle Aberhonddu ar gyfer Brecon, a hefyd defnyddio hen enw'r cyngor dosbarth, sef Brecknock neu Brecknockshire.
- 8.12 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol fod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol lawn mor briodol, neu'n fwy priodol nag unrhyw enwau eraill a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau.




## ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG AROLWG 2018

- 8.13 Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r Comisiynwyr Cynorthwyol fod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yn briodol. Felly maent yn argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Brecon, Radnor, and Montgomery**. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn**.

**Brecon, Radnor and Montgomery (Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn)**

1. Y Drenewydd Gorllewin Llanwchaearn (1,361)
2. Y Drenewydd Gogledd Llanwchaearn (1,726)
3. Dwyrain Y Drenewydd (1,391)
4. Canol Y Drenewydd (2,103)
5. De Y Drenewydd (1,242)
6. Gogledd Llandrindod (1,417)
7. Dwyrain Llandrindod/Gorllewin Llandrindod (892)
8. St. John (2,521)
9. St. David Fewnol (1,210)
10. Dolforwyn (1,587)
11. Llanidloes (2,070)
12. Llanbadarn Fawr (861)
13. Llanllyr (948)
14. Dyserth a Threcoed (1,045)
15. Llanfair-ym-Muallt (1,809)
16. Talgarth (1,241)
17. Llangors (855)




## 9. Monmouthshire (Sir Fynwy)

- 9.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
- 9.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Monmouth** CC gyfanswm o 62,729 o etholwyr sydd 16% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 12% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 9.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Newport East** CC gyfanswm o 53,959 o etholwyr sydd 28% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 24% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 9.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 9.2 a. Y wardiau etholiadol yn **Monmouth** CC presennol a Sir Fynwy, sef Caer-went (1,615), Cantref (1,579), Y Castell (1,507), Croesonnen (1,607), Crucornau Fawr (1,691), Devauden (1,174), Dixton gydag Osbaston (1,793), Drybridge (2,423), Goetre Fawr (1,833), Grofield (1,285), Lansdown (1,540), Larkfield (1,475), Llanbadoc (1,014), Bryn Llanelli (3,014), Llan-ffwyst Fawr (1,616), Llangybi Fawr (1,439), Llanofar (1,717), Llandeilo Gresynni (1,422), Llanwenarth Tu Draw (1,073), Y Maerdy (1,331), Llanfihangel Troddi (953), Overmonnow (1,509), Porth Sgiwed (1,684), Y Priordy (1,437), Rhaglan (1,510), Drewnewydd Gelli-farch (1,754), St. Arvans (1,253), St. Christopher's (1,762), St. Kingsmark (2,226), St. Mary's (1,414), Thornwell (1,860), Tryleg Unedig (2,122), Brynbuga (1,862), a Wyesham (1,644); a,
- 9.2 b. y rhannau canlynol o **Newport East** CC presennol yn cynnwys:
- i. Wardiau etholiadol Sir Fynwy sef Castell Caldicot (1,736), Dewstow (1,370), Green Lane (1,363), Mill (2,242), Rogiet (1,303), Hafren (1,269), The Elms (2,408), a West End (1,438); a,
- ii. wardiau etholiadol Dinas a Sir Casnewydd sef Langstone (3,620) a Llan-wern (2,645)
- 9.3 Byddai gan yr etholaeth hon 74,532 o etholwyr sydd 0.3% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Monmouthshire**. Yr enw arall a awgrymwyd oedd **Sir Fynwy**.
- 9.4 Ychydig o gynrychiolaethau a dderbyniodd y Comisiwn mewn perthynas â'r cynnig cychwynnol ar gyfer Sir Fynwy. Roedd cytundeb ymhlith y pleidiau gwleidyddol a wnaeth gynrychiolaethau fod y cynnig yn dderbyniol, ac roedd yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Monmouth o blaid cynnig cychwynnol y Comisiwn hefyd, a dywedodd bod cynnwys wardiau etholiadol Monmouth o Newport East yn amlwg yn synhwyrol, a thrwy wneud hynny byddai'r etholaeth yn plethu'r prif gyngor a'r etholaeth Seneddol. Mae'r gynrychiolaeth hefyd y cefnogi dileu wardiau etholiadol prif gyngor Torfaen o'r etholaeth am yr un rheswm.

- 9.5 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad bod cytundeb cyffredinol o blaid y cynnig cychwynnol ar gyfer Sir Fynwy yn y cynrychiolaethau ac yn y gwrandawiadau cyhoeddus.
- 9.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac yn argymhell etholaeth arfaethedig Sir Fynwy fel y pennwyd yn y cynigion cychwynnol.
- 9.7 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 9.7 a. **Y wardiau etholiadol yn Monmouth CC presennol a Sir Fynwy, sef Caer-went (1,615), Cantref (1,579), Y Castell (1,507), Croesonnen (1,607), Crucornau Fawr (1,691), Devauden (1,174), Dixon gydag Osbaston (1,793), Drybridge (2,423), Goetre Fawr (1,833), Grofield (1,285), Lansdown (1,540), Larkfield (1,475), Llanbadoc (1,014), Bryn Llanelli (3,014), Llan-ffwyst Fawr (1,616), Llanybi Fawr (1,439), Llanofar (1,717), Llandeilo Gresynni (1,422), Llanwenarth Tu Draw (1,073), Y Maerdy (1,331), Llanfihangel Troddi (953), Overmonnow (1,509), Porth Sgiwed (1,684), Y Priordy (1,437), Rhaglan (1,510), Drewnewydd Gelli-farch (1,754), St. Arvans (1,253), St. Christopher's (1,762), St. Kingsmark (2,226), St. Mary's (1,414), Thornwell (1,860), Tryleg Unedig (2,122), Brynbuga (1,862), a Wyesham (1,644); a,**
- 9.7 b. **Y rhannau canlynol o etholaeth bresennol Newport East CC yn cynnwys:**
- i. **Wardiau etholiadol Sir Fynwy sef Castell Caldicot (1,736), Dewstow (1,370), Green Lane (1,363), Mill (2,242), Rogiet (1,303), Hafren (1,269), The Elms (2,408), a West End (1,438); a,**
  - ii. **wardiau etholiadol Dinas a Sir Casnewydd sef Langstone (3,620) a Llan-wern (2,645).**
- 9.8 **Byddai gan yr etholaeth hon 74,532 o etholwyr sydd 0.3% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 9.9 Ychydig o gynrychiolaethau a dderbyniodd y Comisiwn mewn perthynas ag enw'r etholaeth. Roedd y cynrychiolaethau a ddaeth i law yn cytuno gyda'r enw a gynigiwyd yn y cynnig cychwynnol; mae'r enw yn adlewyrchu'r ardal y bydd yr etholaeth yn ei chynrychioli yn well na'r enw presennol Monmouth.
- 9.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol cadw enw'r cynnig cychwynnol. Mae'r Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn fod yr enw lawn mor briodol, neu'n fwy priodol nag unrhyw enwau eraill a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau.
- 9.11 Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn Monmouthshire, fel y cynigiwyd yn y cynigion cychwynnol. Felly maent yn argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Monmouthshire**. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **Sir Fynwy**.

Monmouthshire (Sir Fynwy)




## 10. Newport (Casnewydd)

- 10.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
- 10.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Newport East** CC gyfanswm o 53,959 o etholwyr sydd 28% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 24% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 10.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Newport West** CC gyfanswm o 60,101 o etholwyr sydd 20% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 15% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 10.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 10.2 a. y wardiau etholiadol yn **Newport East** BC presennol a Dinas a Sir Casnewydd, sef Alway (5,427), Beechwood (5,353), Liswerry (7,897), Ringland (5,732), Sain Silian (5,876), a Victoria (4,280); a,
- 10.2 b. y wardiau etholiadol yn **Newport West** BC presennol a Dinas a Sir Casnewydd, sef Allt-yr-yn (6,368), Betws (5,275), Y Gaer (6,084), Malpas (5,939), Maerun (4,554), Pilgwenlli (4,067), Shaftesbury (3,548), Stow Hill (2,794), a Parc Tredegar (2,792).
- 10.3 Byddai gan yr etholaeth hon 75,986 o etholwyr sydd 1.6% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Newport**. Yr enw arall a awgrymwyd oedd **Casnewydd**.
- 10.4 Ychydig o gynrychiolaethau a dderbyniodd y Comisiwn mewn perthynas â'r cynnig cychwynnol ar gyfer Casnewydd. Roedd cytundeb ymhlith y pleidiau gwleidyddol a wnaeth gynrychiolaethau fod y cynnig yn dderbyniol. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth a ddywedodd y dylid cynnwys Caerllion gyda Chasnewydd, ac y gallai wardiau etholiadol Betws a Malpas ddisodli Caerllion yn yr etholaeth arfaethedig.
- 10.5 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad bod cytundeb cyffredinol o blaid y cynnig cychwynnol ar gyfer Casnewydd yn y cynrychiolaethau ac yn y gwrandawiadau cyhoeddus.
- 10.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac yn argymhell etholaeth Casnewydd fel y pennwyd yn y cynigion cychwynnol. Mae'r Comisiwn yn dal o'r farn fod cynnwys wardiau etholiadol Betws a Malpas, yn hytrach na Chaerllion, yn briodol am fod gan y wardiau blaenorol gysylltiadau â Chasnewydd yn hytrach na Thorfaen, ac mae gan Gaerllion gysylltiadau â Thorfaen. Felly mae'r cynigion cychwynnol yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r cynnig amgen a gynigiwyd.

- 10.7 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth fwrdeistrefol o'r canlynol:**
- 10.7 a. **y wardiau etholiadol yn Newport East BC presennol a Dinas a Sir Casnewydd, sef Alway (5,427), Beechwood (5,353), Liswerry (7,897), Ringland (5,732), Sain Silian (5,876), a Victoria (4,280); a,**
  - 10.7 b. **y wardiau etholiadol yn Newport West BC presennol a Dinas a Sir Casnewydd, sef Allt-yr-yn (6,368), Betws (5,275), Y Gaer (6,084), Malpas (5,939), Maerun (4,554), Pilgwenlli (4,067), Shaftesbury (3,548), Stow Hill (2,794), a Parc Tredegar (2,792).**
- 10.8 **Byddai gan yr etholaeth hon 75,986 o etholwyr sydd 1.6% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 10.9 Roedd cytundeb ymhlith y pleidiau gwleidyddol a wnaeth gynrychiolaethau fod yr enw a gynigiwyd yn dderbyniol.
- 10.10 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn fod yr enw a gynigiwyd yn y cynnig cychwynnol lawn mor briodol, neu'n fwy priodol nag unrhyw enwau eraill a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau.
- 10.11 Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r Comisiynwyr Cynorthwyol mai'r enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yw'r enw priodol. Felly, maent yn argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Newport**. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **Casnewydd**.

### Newport (Casnewydd)






## 11. Torfaen

- 11.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
- 11.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Monmouth** CC gyfanswm o 62,729 o etholwyr sydd 16% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 12% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  - 11.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Newport East** CC gyfanswm o 53,959 o etholwyr sydd 28% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 24% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  - 11.1 c. Mae gan etholaeth bresennol **Torfaen** CC gyfanswm o 58,562 o etholwyr sydd 22% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 18% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 11.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 11.2 a. y cyfan o **Torfaen** CC presennol a wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Torfaen, sef Abersychan (5,002), Blaenafon (4,193), Bryn-wern (1,243), Coed Efa (1,792), Cwmynisgoi (979), Fairwater (3,839), Greenmeadow (2,649), Llantarnam (4,099), New Inn (4,773), Panteg (5,585), Pontnewydd (4,370), Pontnewynydd (1,030), Pont-y-pŵl (1,329), St. Cadocs a Phen-y-garn (1,170), Llanfihangel Llantarnam (2,684), Snatchwood (1,535), Trefddyn (2,300), Two Locks (4,525), Cwmbrân (3,739) a Waunfelin (1,726);
  - 11.2 b. y wardiau etholiadol yn **Monmouth** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Torfaen, sef Gogledd Croesyceiliog (2,580), De Croesyceiliog (1,420), Gogledd Llanyrafon (1,492), De Llanyrafon (2,099); a,
  - 11.2 c. y ward etholiadol yn **Newport West** CC presennol a Dinas a Sir Casnewydd, sef Caerllion (6,214).
- 11.3 Byddai gan yr etholaeth hon 72,367 o etholwyr sydd 3.2% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Torfaen**.
- 11.4 Ychydig o gynrychiolaethau a dderbyniodd y Comisiwn mewn perthynas â'r cynnig cychwynnol ar gyfer Torfaen. Roedd cytundeb ymhlith y pleidiau gwleidyddol a wnaeth gynrychiolaethau fod y cynnig cychwynnol yn dderbyniol, ac roedd yr Aelod Seneddol dros etholaeth bresennol Torfaen o blaid cynnig cychwynnol y Comisiwn hefyd, gan ddweud mai Caerllion yw'r ward etholiadol amlwg i'w chynnwys yn Nhorfaen oherwydd ei chysylltiadau â Phonthir a Llanfrechfa. Dywedodd yr AS hefyd y byddai'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys prif gyngor Torfaen yn gyfan gwbl ac y byddai hynny'n helpu i greu cywllt â'r etholaeth.

- 11.5 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad bod cytundeb cyffredinol o blaid y cynnig cychwynnol ar gyfer Torfaen yn y cynrychiolaethau ac yn y gwrandawiadau cyhoeddus. Daethant i'r casgliad bod cysylltiadau sylweddol rhwng Caerllion a Chwmbrân yn Nhorfaen, ac y byddai cynnwys ward etholiadol Caerllion yn sicrhau bod yr etholaeth arfaethedig o fewn yr amrediad etholiadol statudol.
- 11.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac yn bwriadu argymhell etholaeth fel y disgrifiwyd yn y cynigion cychwynnol.
- 11.7 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 11.7 a. **Etholaeth bresennol Torfaen CC yn gyfan**
- 11.7 b. **y wardiau etholiadol yn Monmouth CC presennol a Bwrdeistref Sirol Torfaen, sef Gogledd Croesyceiliog (2,580), De Croesyceiliog (1,420), Gogledd Llanyrafon (1,492), De Llanyrafon (2,099); a,**
- 11.7 c. **y ward etholiadol yn Newport West CC presennol a Dinas a Sir Casnewydd, sef Caerllion (6,214).**
- 11.8 **Byddai gan yr etholaeth hon 72,367 o etholwyr sydd 3.2% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 11.9 Roedd cytundeb ymhlith y pleidiau gwleidyddol a wnaeth gyflwyniad fod yr enw a gynigiwyd yn briodol.
- 11.10 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn fod yr enw a gynigiwyd yn y cynnig cychwynnol lawn mor briodol, neu'n fwy priodol nag unrhyw enwau eraill a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau.
- 11.11 Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r Comisiynwyr Cynorthwyol bod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yn briodol. Felly, maent yn argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Torfaen**. Gellir adnabod Torfaen yn y ddwy iaith ac felly ni awgrymir unrhyw enw amgen.

Torfaen



## 12. Blaenau Gwent

- 12.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
- 12.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Blaenau Gwent** CC gyfanswm o 49,661 o etholwyr sydd 34% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 30% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 12.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Islwyn** CC gyfanswm o 53,306 o etholwyr sydd 28.7% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 12.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 12.2 a. y cyfan o **Blaenau Gwent** CC presennol yn cynnwys wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, sef Abertyleri (3,095), Badminton (2,428), Beaufort (2,768), Y Blaenau (3,351), Bryn-mawr (3,826), Cwm (3,168), Cwmtyleri (3,358), Gogledd Glynebwy (3,249), De Glynebwy (2,905), Georgetown (2,942), Llanhilleth (3,324), Nant-y-glo (3,187), Rasa (2,386), Sirhowi (4,125), Six Bells (1,702) a Canol a Gorllewin Tredegar (3,847); a,
- 12.2 b. y wardiau etholiadol yn **Islwyn** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Argoed (1,910), Y Coed Duon (5,947), Cefn Fforest (2,765), Crymlyn (4,195), Trecelyn (4,611), Pengam (2,571) a Penmaen (4,004).
- 12.3 Byddai gan yr etholaeth hon 75,664 o etholwyr sydd 1.2% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Blaenau Gwent**.
- 12.4 Ychydig o gynrychiolaethau a dderbyniodd y Comisiwn mewn perthynas â'r cynnig cychwynnol ar gyfer Blaenau Gwent. Roedd cytundeb ymhlith y pleidiau gwleidyddol a wnaeth gynrychiolaethau fod y cynnig yn dderbyniol, ac roedd yr Aelod Seneddol dros etholaeth bresennol Blaenau Gwent o blaid cynnig cychwynnol y Comisiwn hefyd, gan ddweud bod yr etholaeth arfaethedig yn cynnwys prif gyngor Blaenau Gwent yn gyfan gwbl, a'i fod yn cydnabod y cysylltiadau daearyddol a chymunedol sydd gan y prif gyngor â wardiau etholiadol gogledd Islwyn. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth oddi wrth Gyngor Cymuned Argoed, a gefnogwyd gan yr Aelod Seneddol dros etholaeth bresennol Islwyn, a oedd yn cynnig trefniant amgen ar gyfer etholaethau presennol Blaenau Gwent, Caerphilly a Merthyr Tydfil a Rhymney. Roedd cyflwyniad y Blaid Lafur yn mynegi'r gred fod ymagwedd y Comisiwn yn Ne Ddwyrain Cymru yn cynyddu parch at etholaethau presennol a phrif gynghorau i'r eithaf.
- 12.5 Rhoddodd y Comisiynwyr Cynorthwyol ystyriaeth i'r trefniadau amgen a roddwyd gerbron gan Gyngor Cymuned Argoed a daeth i'r casgliad bod y cynnig yn rhannu ardaloedd prif

## ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG AROLWG 2018

gyngor ac yn torri cysylltiadau lleol. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad bod cytundeb cyffredinol o blaid y cynnig cychwynol ar gyfer Blaenau Gwent yn y cynrychiolaethau ac yn y gwrandawiadau cyhoeddus.

12.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac yn bwriadu argymhell etholaeth fel y disgrifiwyd yn y cynigion cychwynol. Mae'r cynnig a roddwyd gerbron gan Gyngor Cymuned Argoed yn cael mwy o effaith ar yr etholaethau presennol nag ymagwedd y Comisiwn yn yr ardal hon, ac mae'n torri cysylltiadau lleol. Felly, mae'r cynnig cychwynol yn adlewyrchu'r gofynion statudol yn well na'r cynnig amgen.

12.7 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**

12.7 a. **Etholaeth bresennol Blaenau Gwent CC yn gyfan**

12.7 b. **y wardiau etholiadol yn Islwyn CC presennol a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Argoed (1,910), Y Coed Duon (5,947), Cefn Fforest (2,765), Crymlyn (4,195), Trecelyn (4,611), Pengam (2,571) a Penmaen (4,004).**


12.8 **Byddai gan yr etholaeth hon 75,664 o etholwyr sydd 1.2% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

12.9 Roedd cytundeb ymhlith y pleidiau gwleidyddol a wnaeth gyflwyniadau fod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynol yn briodol. Mae'r cyflwyniad a roddwyd gerbron gan Gyngor Cymuned Argoed yn awgrymu enwau gwahanol ar gyfer yr etholaethau yr effeithir arnynt yn ei gynnis, sef: Dwyrain Caerffili, Gorllewin Caerffili, a Blaenau'r Cymoedd oedd yr enwau a gynigiwyd.

12.10 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn fod yr enw a gynigiwyd yn y cynnig cychwynol lawn mor briodol, neu'n fwy priodol nag unrhyw enwau eraill a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau.

12.11 Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r Comisiynwyr Cynorthwyol bod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynol yn briodol. Felly, maent yn argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Blaenau Gwent**. Gellir adnabod Blaenau Gwent yn y ddwy iaith ac felly ni awgrymir unrhyw enw amgen.

**Blaenau Gwent**



## 13. Merthyr Tydfil and Rhymney (Merthyr Tudful a Rhymni)

13.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

13.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Caerphilly** CC gyfanswm o 61,158 o etholwyr sydd 18% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 14% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

13.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Islwyn** CC gyfanswm o 53,306 o etholwyr sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

13.1 c. Mae gan etholaeth bresennol **Merthyr Tydfil a Rhymney** CC gyfanswm o 53,166 o etholwyr sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

13.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

13.2 a. Y cyfan o **Merthyr Tydfil and Rhymney** CC presennol yn cynnwys:

- i. wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Cwm Darran (1,760), Moriah (3,031), Tredegar Newydd (3,233), Pontlotyn (1,405), a Twyn Carno (1,655); a,
- ii. wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, sef Bedlinog (2,649), Cyfarthfa (4,961), Dowlais (4,736), Gurnos (3,309), Bro Merthyr (2,663), Y Parc (3,176), Penydarren (3,678), Plymouth (3,855), Y Dref (5,580), Treharris (4,831) ac Y Faenor (2,644);

13.2 b. y wardiau etholiadol yn **Caerphilly** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Bargoed (4,277), Gilfach (1,481), Hengoed (3,617), Nelson (3,374), St. Cattwg (5,400) ac Ystrad Mynach (3,935): a,

13.2 c. y ward etholiadol yn Islwyn CC presennol a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Aberbargoed (2,520).

13.3 Byddai gan yr etholaeth hon 77,770 o etholwyr sydd 4% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Merthyr Tydfil and Rhymney**. Yr enw arall a awgrymir yw **Merthyr Tudful a Rhymni**.

13.4 Ychydig o gynrychiolaethau a dderbyniodd y Comisiwn mewn perthynas â'r cynnig cychwynnol ar gyfer Merthyr Tudful a Rhymni. Roedd cytundeb ymhlith y pleidiau gwleidyddol a wnaeth gynrychiolaethau fod y cynnig yn dderbyniol, ac roedd yr Aelod Seneddol dros etholaeth bresennol Merthyr Tudful a Rhymni o blaid cynnig cychwynnol y Comisiwn hefyd, gan ddweud fod yr etholaeth arfaethedig yn cynnwys etholaeth bresennol gyfan Merthyr Tydfil a Rhymney, ac yn cydnabod y cysylltiadau daearyddol a chymunedol

sydd gan y prif gyngor â wardiau etholiadol Islwyn a Chaerffili. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth oddi wrth Gyngor Cymuned Argoed, a gefnogwyd gan yr Aelod Seneddol dros etholaeth bresennol Islwyn, a oedd yn cynnig trefniant amgen ar gyfer etholaethau presennol Blaenau Gwent, Caerphilly a Merthyr Tydfil a Rhymney. Roedd cyflwyniad y Blaid Lafur yn mynegi'r gred fod ymagwedd y Comisiwn yn Ne Ddwyrain Cymru yn cynyddu parch at etholaethau presennol a phrif gynghorau i'r eithaf.


- 13.5 Rhoddodd y Comisiynwyr Cynorthwyol ystyriaeth i'r trefniadau amgen a roddwyd gerbron gan Gyngor Cymuned Argoed a daeth i'r casgliad bod y cynnig yn rhannu ardaloedd prif gyngor ac yn torri cysylltiadau lleol. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad bod cytundeb cyffredinol o blaid cadw'r cynnig cychwynnol ar gyfer Merthyr Tudful a Rhymni yn y cynrychiolaethau ac yn y gwrandawiadau cyhoeddus.
- 13.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac yn bwriadu argymhell etholaeth fel y disgrifiwyd yn y cynigion cychwynnol. Mae'r cynnig a roddwyd gerbron gan Gyngor Cymuned Argoed yn cael mwy o effaith ar yr etholaethau presennol nag ymagwedd y Comisiwn yn yr ardal hon, ac mae'n torri cysylltiadau lleol. Felly, mae'r cynnig cychwynnol yn adlewyrchu'r gofynion statudol yn well na'r cynigion amgen.
- 13.7 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 13.7 a. **Etholaeth bresennol Merthyr Tydfil a Rhymney CC yn gyfan**
- 13.7 b. **y wardiau etholiadol yn Caerphilly CC presennol a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Bargoed (4,277), Gilfach (1,481), Hengoed (3,617), Nelson (3,374), St. Cattwg (5,400) ac Ystrad Mynach (3,935): a,**
- 13.7 c. **y ward etholiadol yn Islwyn CC presennol a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Aberbargoed (2,520).**
- 13.8 **Byddai gan yr etholaeth hon 77,770 o etholwyr sydd 4% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 13.9 Roedd cytundeb ymhlith y pleidiau gwleidyddol a wnaeth gyflwyniadau fod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yn briodol. Mae'r cyflwyniad a roddwyd gerbron gan Gyngor Cymuned Argoed yn awgrymu enwau gwahanol ar gyfer yr etholaethau yr effeithir arnynt yn ei gynnig, sef: Dwyrain Caerffili, Gorllewin Caerffili, a Blaenau'r Cymoedd oedd yr enwau a gynigiwyd.
- 13.10 Mae'r Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn fod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol lawn mor briodol, neu'n fwy priodol nag unrhyw enwau eraill a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau.
- 13.11 Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r Comisiynwyr Cynorthwyol bod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yn briodol. Felly, maent yn argymhell y dylid enwi'r etholaeth



## ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG AROLWG 2018

arfaethedig yn **Merthyr Tydfil and Rhymney**. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **Merthyr Tudful a Rhymni**.

**Merthyr Tydfil and Rhymney (Merthyr Tudful a Rhymni)**



## 14. Caerphilly (Caerffili)

14.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

14.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Caerphilly** CC gyfanswm o 61,158 o etholwyr sydd 18% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth ac 14% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

14.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Islwyn** CC gyfanswm o 53,306 o etholwyr sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

14.1 c. Mae gan etholaeth bresennol **Newport West** CC gyfanswm o 60,101 o etholwyr sydd 20% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 15% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

14.2 Yng nghynigion cychwynol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

14.2 a. y wardiau etholiadol yn **Caerphilly** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Cwm Aber (4,478), Bedwas, Trethomas a Machen (7,456), Llanbradach (3,133), Morgan Jones (5,153), Penyrheol (8,525), St. James (4,126), a St. Martins (6,203);

14.2 b. y wardiau etholiadol yn **Islwyn** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Abercarn (3,884), Crosskeys (2,344), Maesycwmmwr (1,607), Pontllanfraith (5,976), Dwyrain Rhisga (4,468), Gorllewin Rhisga (3,795), ac Ynysddu (2,709); a,


14.2 c. y wardiau etholiadol yn **Newport West** CC presennol a Dinas a Sir Casnewydd, sef Y Graig (4,723), a Tŷ-du (7,743).

14.3 Byddai gan yr etholaeth hon 76,323 o etholwyr sydd 2.1% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Caerphilly**. Yr enw arall a awgrymwyd oedd **Caerffili**.

14.4 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth ysgrifenedig gan yr Aelod Seneddol dros etholaeth bresennol Caerphilly a oedd yn cefnogi'r cynnig cychwynol, er i'r AS fynegi'r farn nad oedd cynnwys dwy ward Casnewydd yn ddelfrydol. Pwysleisiodd yr Aelod Seneddol dros etholaeth bresennol Casnewydd fod y cynnig cychwynol gryn dipyn yn well nag unrhyw gynigion amgen. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth oddi wrth Gyngor Cymuned Argoed, a gefnogwyd gan yr Aelod Seneddol dros etholaeth bresennol Blaenau Gwent, Caerffili a Merthyr Tudful a Rhymni. Roedd cyflwyniad y Blaid Lafur yn mynegi'r gred fod ymagwedd y Comisiwn yn Ne Ddwyrain Cymru yn cynyddu parch at etholaethau presennol a phrif gynghorau i'r eithaf.

- 14.5 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad bod cytundeb cyffredinol o blaid y cynnig cychwynnol ar gyfer Caerffili yn y cynrychiolaethau ac yn y gwrandawladau cyhoeddus. Rhoddodd y Comisiynwyr Cynorthwyol ystyriaeth i b'un a ddylai ward etholiadol Tŷ-du gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig. Daethant i'r casgliad fod y ward etholiadol yn ward briodol i'w chynnwys yn etholaeth arfaethedig Caerffili o ystyried ei lleoliad i'r gogledd o draffordd yr M4, a'i chysylltiadau da o ran trafndiaeth â Chaerffili, a byddai'n galluogi'r etholaeth arfaethedig i fod o fewn yr amrediad etholiadol statudol.
- 14.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac yn bwriadu argymhell etholaeth Caerffili fel y pennwyd yn y cynigion cychwynnol. Mae'r cynnig a roddwyd gerbron gan Gyngor Cymuned Argoed yn cael mwy o effaith ar yr etholaethau presennol nag ymagwedd y Comisiwn yn yr ardal hon, ac mae'r cynnig cychwynnol yn adlewyrchu'r gofynion statudol yn well na'r cynnig amgen.
- 14.7 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 14.7 a. **y wardiau etholiadol yn Caerphilly CC presennol a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Cwm Aber (4,478), Bedwas, Trethomas a Machen (7,456), Llanbradach (3,133), Morgan Jones (5,153), Penyrheol (8,525), St. James (4,126), a St. Martins (6,203);**
- 14.7 b. **y wardiau etholiadol yn Islwyn CC presennol a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Abercarn (3,884), Crosskeys (2,344), Maesycwmmmer (1,607), Pontllanfraith (5,976), Dwyrain Rhisga (4,468), Gorllewin Rhisga (3,795), ac Ynysddu (2,709); a,**
- 14.7 c. **y wardiau etholiadol yn Newport West CC presennol a Dinas a Sir Casnewydd, sef Y Graig (4,723), a Tŷ-du (7,743).**
- 14.8 **Byddai gan yr etholaeth hon 76,323 o etholwyr sydd 2.1% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 14.9 Roedd cytundeb ymhlith y pleidiau gwleidyddol a wnaeth gyflwyniadau fod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yn briodol. Mae'r gynrychiolaeth a roddwyd gerbron gan Gyngor Cymuned Argoed yn awgrymu enwau gwahanol ar gyfer yr etholaethau yr effeithir arnynt yn ei gynnig, sef: Dwyrain Caerffili, Gorllewin Caerffili, a Blaenau'r Cymoedd oedd yr enwau a gynigiwyd.
- 14.10 Mae'r Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn fod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol lawn mor briodol neu'n fwy priodol nag unrhyw enwau eraill a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau.
- 14.11 Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r Comisiynwyr Cynorthwyol bod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yn briodol. Felly, maent yn argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Caerphilly**. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **Caerffili**.

**Caerphilly (Caerffili)**



## 15. Cynon Valley and Pontypridd (Cwm Cynon a Phontypridd)

- 15.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
- 15.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Cynon Valley** CC gyfanswm o 49,405 o etholwyr sydd 34% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 30% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 15.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Pontypridd** CC gyfanswm o 56,525 o etholwyr sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 20% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 15.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 15.2 a. y cyfan o **Cynon Valley** CC presennol a wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Gogledd Aberaman (3,571), De Aberaman (3,261), Abercynon (4,288), Dwyrain Aberdâr (4,772), Gorllewin Aberdâr/Llwyd-coed (7,036), Cilfynydd (1,998), Cwmbach (3,467), Glyncoch (2,039), Hirwaun (3,076), Dwyrain Aberpennar (2,086), Gorllewin Aberpennar (3,046), Penrhiw-ceibr (4,013), Pen-y-waun (1,993), Y Rhigos (1,337) ac Ynysybwl (3,422); a,
- 15.2 b. y wardiau etholiadol yn **Pontypridd** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Pentre'r Eglwys (3,469), Graig (1,455), Y Ddraenen Wen (2,869), Llanilltud Faerdre (4,593), Tref Pontypridd (2,141), Rhondda (3,364), Canol Rhydfelen/ Ilan (2,924), Ton-Teg (3,170), Trallwng (2,770) a Trefforest (1,845).
- 15.3 Byddai gan yr etholaeth hon 78,005 o etholwyr sydd 4.3% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Cynon Valley and Pontypridd**. Yr enw arall a awgrymwyd oedd **Cwm Cynon a Phontypridd**.
- 15.4 Ychydig o gynrychiolaethau a dderbyniodd y Comisiwn mewn perthynas â'r cynnig cychwynnol ar gyfer Cwm Cynon a Phontypridd. Roedd cytundeb ymhlith y pleidiau gwleidyddol a wnaeth gynrychiolaethau fod y cynnig yn dderbyniol. Derbyniodd y Comisiwn gynigion ar gyfer trefniant amgen ar gyfer Cwm Cynon a Phontypridd, ac etholaethau arfaethedig Rhondda a Llantrisant gan Blaid Lafur Etholaeth Pontypridd, a gefnogwyd gan yr Aelod Seneddol a'r Aelod Cynulliad ar gyfer etholaeth bresennol Pontypridd. Dywedodd y gynrychiolaeth fod Ffynnon Taf yn bendant yn ward etholiadol y cymoedd gyda chysylltiadau â phrif gyngor Rhondda Cynon Taf. Hefyd, awgrymodd y gynrychiolaeth mai'r ffordd fwyaf priodol o ffurfio'r etholaethau hyn fyddai creu etholaethau a oedd yn mynd ar draws y cymoedd yn hytrach nag i lawr y cymoedd fel y cynigir gan y Comisiwn.


## ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG AROLWG 2018

- 15.5 Rhoddodd y Comisiynwyr Cynorthwyol ystyriaeth i'r trefniant amgen fel y'i cyflwynwyd gan y gynrychiolaeth honno, a daeth i'r casgliad fod gan Donyrefail gysylltiadau â Llantrisant a Thonysguboriau sy'n cyfiawnhau ei gynnwys yn etholaeth arfaethedig Rhondda a Llantrisant. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad hefyd bod cysylltiadau, gyda chysylltiadau trafndiaeth a chyfathrebu da, rhwng Ffynnon Taf a wardiau etholiadol Gogledd Caerdydd i gyfiawnhau ei gynnwys yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd. Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn bod cytundeb cyffredinol o blaid yr etholaeth a gynigiwyd ar gyfer Cwm Cynon a Phontypridd yn y cynigion cychwynnol yn y cynrychiolaethau ac yn y gwrandawiadau cyhoeddus.
- 15.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, ac yn argymhell creu etholaeth fel y pennwyd yn y cynigion cychwynnol. Rhoddodd y Comisiwn ystyriaeth i'r trefniadau amgen a gynigiwyd gan Blaid Lafur Etholaeth Pontypridd. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn fod y cynnig cychwynnol yn adlewyrchu'r gofynion statudol yn well na'r cynnig amgen. Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r ffordd fwyaf priodol o greu etholaethau sy'n cynrychioli'r cymoedd yw gwneud hynny drwy fynd i lawr y cymoedd o'r Gogledd i'r De. Ystyria'r Comisiwn fod creu etholaethau ar gyfer y cymoedd yn y modd hwn yn adlewyrchu cysylltiadau presennol, gan gynnwys cysylltiadau cyfathrebu a rhwydweithiau ffyrdd. Rhoddodd y Comisiwn ystyriaeth i ward etholiadol Ffynnon Taf. Er ei fod yn cydnabod y dadleuon dros gynnwys y ward etholiadol honno yn yr etholaeth arfaethedig hon, nid oedd hyn yn ymarferol gan y byddai'n arwain at yr etholaeth arfaethedig yn mynd dros yr amrediad etholiadol statudol. Roedd y Comisiwn o'r farn y byddai'n well cynnwys Ffynnon Taf, yn hytrach na ward etholiadol arall, mewn etholaeth arfaethedig wahanol. Am y rhesymau a roddwyd isod, mae'r Comisiwn yn argymhell cynnwys Ffynnon Taf yn etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd fel y trafodwyd ym mharagraff A.4.v isod.
- 15.7 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 15.7 a. **Etholaeth bresennol Cynon Valley CC yn gyfan**
- 15.7 b. **y wardiau etholiadol yn Pontypridd CC presennol a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Pentre'r Eglwys (3,469), Graig (1,455), Y Ddraenen Wen (2,869), Llanilltud Faerdre (4,593), Tref Pontypridd (2,141), Rhondda (3,364), Canol Rhydfelen/ Ilan (2,924), Ton-Teg (3,170), Trallwng (2,770) a Trefforest (1,845).**
- 15.8 **Byddai gan yr etholaeth hon 78,005 o etholwyr sydd 4.3% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 15.9 Cynigiodd Plaid Lafur Etholaeth Pontypridd enwau amgen ynghyd â threfniant amgen ar gyfer etholaethau Cwm Cynon a Phontypridd a Rhondda a Llantrisant. Cynigiodd Plaid Lafur Etholaeth Pontypridd y dylid enwi un etholaeth yn Pontypridd a Llantrisant, ac enwi'r llall yn Rhondda a Chwm Cynon.
- 15.10 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn fod yr enw a gynigiwyd yn y cynnig cychwynnol lawn mor briodol, neu'n fwy priodol nag unrhyw enwau eraill a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau.

- 15.11 Mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad bod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yn briodol. Felly maent yn argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Cynon Valley and Pontypridd**. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **Cwm Cynon a Phontypridd**.



**Cynon Valley and Pontypridd (Cwm Cynon a Phontypridd)**



## 16. Rhondda and Llantrisant (Rhondda a Llantrisant)

- 16.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
- 16.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Ogmore**CC gyfanswm o 54,614 o etholwyr sydd 27% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 23% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 16.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Pontypridd** CC gyfanswm o 56,525 o etholwyr sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 20% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 16.1 c. Mae gan etholaeth bresennol **Rhondda** CC gyfanswm o 49,161 o etholwyr sydd 34% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 31% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 16.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 16.2 a. y wardiau etholiadol yn **Pontypridd** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Beddau (3,090), Tref Llantrisant (3,590), Pont-y-clun (5,888), Tonysguboriau (1,936), Dwyrain Tonyrefail (4,215), Gorllewin Tonyrefail (4,620) a Tyn-y-nant (2,465)..
- 16.2 b. y cyfan o **Rhondda** CC presennol yn cynnwys wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Cwm Clydach (1,975), Cymer (3,905), Glyn Rhedyn (3,040), Llwyn-y-pia (1,644), Y Maerdy (2,244), Pentre (3,722), Pen-y-graig (3,879), Y Porth (4,280), Tonypandy (2,618), Trealaw (2,803), Treherbert (4,035), Treorci (5,545), Tylorstown (2,895), Ynyshir (2,372) ac Ystrad (4,204); a.
- 16.3 Byddai gan yr etholaeth hon 74,965 o etholwyr sydd 0.3% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Rhondda and Llantrisant**. Yr enw arall a awgrymwyd oedd **Rhondda a Llantrisant**.
- 16.4 Ychydig o gynrychiolaethau a dderbyniodd y Comisiwn mewn perthynas â'r cynnig cychwynnol ar gyfer Rhondda a Llantrisant. Roedd cytundeb ymhlith y pleidiau a wnaeth gynrychiolaethau fod y cynnig yn dderbyniol. Derbyniodd y Comisiwn gynnig ar gyfer trefniant amgen i Gwm Cynon, Pontypridd, ac etholaethau arfaethedig Rhondda a Llantrisant gan Blaid Lafur Etholaeth Pontypridd, a gefnogwyd gan yr Aelod Seneddol a'r Aelod Cynulliad ar gyfer etholaeth bresennol Pontypridd. Roedd y gynrychiolaeth o'r farn fod Ffynnon Taf yn bendant yn ward etholiadol y cymoedd gyda chysylltiadau â phrif gyngor Rhondda Cynon Taf. Hefyd, awgrymodd y gynrychiolaeth mai'r ffordd fwyaf priodol o ffurfio'r etholaethau hyn fyddai cyfuno wardiau ar draws y cymoedd yn hytrach nag i lawr y cymoedd fel y cynigir gan y Comisiwn.
- 16.5 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth a dynnodd sylw at y cyswllt sydd gan ward etholiadol Llanhari â phrif awdurdod Rhondda Cynon Taf ac felly nid yw'n cytuno y dylid lleoli'r ward mewn etholaeth Ogwr. Hefyd, derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth a


## ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG AROLWG 2018

ddywedodd y dylai ward etholiadol Gilfach Goch gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Rhondda a Llantrisant, er bod y gynrychiolaeth yn addef na fydd yn bosibl cyflawni hyn efallai oherwydd y cyfyngiadau statudol a bennwyd ar y Comisiwn.

- 16.6 Rhoddodd y Comisiynwyr Cynorthwyol ystyriaeth i'r trefniant amgen fel y'i cyflwynwyd gan Blaid Lafur Etholaeth Pontypridd, a daeth i'r casgliad fod gan Donyrefail gysylltiadau â Llantrisant a Thonysguboriau sy'n cyfiawnhau ei gynnwys yn etholaeth arfaethedig Rhondda a Llantrisant. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad hefyd bod cysylltiadau trafniadaeth a chyfathrebu da rhwng Ffynnon Taf a wardiau etholiadol Gogledd Caerdydd i gyfiawnhau ei gynnwys yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd. Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn bod cytundeb cyffredinol o blaid y cynnig cychwynnol ar gyfer Cwm Cynon a Phontypridd yn y cynrychiolaethau ac yn y gwrandawiadau cyhoeddus.
- 16.7 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol yn fras. Rhoddodd y Comisiwn ystyriaeth i'r trefniadau amgen a gynigiwyd gan Blaid Lafur Etholaeth Pontypridd. Mae'r Comisiwn o'r farn fod y cynnig cychwynnol yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well fel y trafodwyd ym mharagraff 15.6 o bennod 5 tudalen 67. Mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad ei bod yn briodol cynnwys ward etholiadol Llanhari yn yr etholaeth arfaethedig hon. Ceir deunydd sy'n cefnogi bod cysylltiadau rhwng y ward etholiadol hon a'r etholaeth arfaethedig sy'n cyfiawnhau ei chynnwys yn yr etholaeth hon.
- 16.8 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 16.8 a. **y ward etholiadol yn Ogmored CC presennol a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Llanhari (2,490); a,**
- 16.8 b. **y wardiau etholiadol yn Pontypridd CC presennol a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Beddau (3,090), Tref Llantrisant (3,590), Pont-y-clun (5,888), Tonysguboriau (1,936), Dwyrain Tonyrefail (4,215), Gorllewin Tonyrefail (4,620) a Tyn-y-nant (2,465); a.**
- 16.8 c. **Etholaeth bresennol Rhondda CC yn gyfan**
- 16.9 **Byddai gan yr etholaeth hon 77,905 o etholwyr sydd 4.2% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 16.10 Cynigion Plaid Lafur Etholaeth Pontypridd enwau amgen ynghyd â threfniant amgen ar gyfer etholaethau Cwm Cynon a Phontypridd, a Rhondda a Llantrisant. Cynigiodd Plaid Lafur Etholaeth Pontypridd bod un etholaeth yn cael ei enwi yn Pontypridd a Llantrisant, a bod y llall yn cael ei henwi yn Rhondda a Chwm Cynon.
- 16.11 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol hepgor y cysylltair er mwyn galluogi defnyddio un enw y gellir ei adnabod yn y ddwy iaith. Nid oedd y Comisiwn yn cytuno ag ymagwedd y Comisiynwyr Cynorthwyol am y rheswm a amlinellwyd uchod ym mharagraff 2.15 ac mewn perthynas ag Ynys Môn a Fangor ym mharagraff 1.11 o bennod 5 tudalennau 6 ac 18 yn ôl eu trefn.

- 16.12 Mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad bod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yn briodol. Felly maent yn argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Rhondda and Llantrisant**. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **Rhondda a Llantrisant**.

**Rhondda and Llantrisant (Rhondda a Llantrisant)**



## Yr Etholaethau Arfaethedig yng Nghaerdydd

- A.1. Yn ei gynigion cychwynnol, cynigiwyd tair etholaeth gan y Comisiwn a oedd yn cynnwys y wardiau etholiadol yn ardal awdurdod lleol Dinas a Sir Caerdydd. Roedd y rhain fel a ganlyn:
- i. Gorllewin Caerdydd a oedd yn cynnwys etholaeth bresennol gyfan Cardiff West ynghyd â ward etholiadol Grangetown.
  - ii. Gogledd Caerdydd a oedd yn gynnwys gogledd Caerdydd a ward etholiadol Ffynnon Taf o Rhondda Cynon Taf.
  - iii. De a Dwyrain Caerdydd a oedd yn cynnwys de ddwyrain Caerdydd a ward etholiadol Pontpennau/Pentref Llanelwyrwg.
- A.2. Gwnaed nifer sylweddol o gynrychiolaethau i'r Comisiwn mewn perthynas â'r etholaethau arfaethedig yng Nghaerdydd. Mae'n briodol delio â'r materion yn ymwneud â'r etholaethau arfaethedig yn gyffredinol cyn ystyried yr etholaethau arfaethedig unigol. Roedd cryn gefnogaeth i ymagwedd y Comisiwn o greu tair etholaeth ar gyfer ardal llywodraeth leol Caerdydd. Y prif faterion a gododd oedd:
- i. Mae etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth o fewn yr amrediad etholiadol statudol ac felly roedd rhai yn dadlau y dylid cadw'r etholaeth. Tynnodd llawer o gynrychiolaethau sylw at y cysylltiadau economaidd, cymdeithasol, daearyddol a'r cysylltiadau trafniadaeth rhwng De Caerdydd a Phenarth i gefnogi cadw'r etholaeth bresennol. Gwnaed y pwynt mewn cynrychiolaethau eraill fod Grangetown (ar hyn o bryd o fewn yr etholaeth ond wedi eu cynnig am cynhwysiad o fewn etholaeth Gorllewin Caerdydd) wedi bod yn rhan o etholaeth Gorllewin Caerdydd yn flaenorol.
  - ii. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau nad oeddent yn cefnogi cadw'r etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth. Nodwyd ganddynt y byddai gwneud hynny'n cael effaith ôl-ddilynol a negyddol ar etholaethau arfaethedig eraill yn Ne Ddwyrain Cymru ac na fyddai unrhyw drefniadau amgen yn adlewyrchu'r gofynion statudol yn well. Cynnwys Penarth gyda Bro Morgannwg a gefnogir gan y ffaith fod Penarth yn ardal prif gyngor Bro Morgannwg (nid Caerdydd) ac yn cael ei wasanaethau gan Fro Morgannwg, ac â chysylltiadau sefydledig â'r ardal, er bod llawer o drigolion Penarth yn gweithio yng Nghaerdydd. Mynegwyd y farn yn y cynrychiolaethau ei bod yn fwy priodol i'r wardiau etholiadol yn ardal llywodraeth leol Caerdydd gael eu cynnwys mewn tair etholaeth Seneddol yn hytrach na chynnwys ardaloedd o Fro Morgannwg, fel Penarth, mewn etholaeth Caerdydd.
  - iii. Derbyniodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau ysgrifenedig, yn ogystal â chynrychiolaethau yn y gwrandawriad cyhoeddus, y dylai etholaeth Gogledd Caerdydd gynnwys ward etholiadol Pontpennau/Pentref Llanelwyrwg. Cyfeiriodd y cynrychiolaethau at y cysylltiadau hanesyddol gyda Llys-faen a'r cydweithredu

rhwng y Cynghorau Cymuned yng Ngogledd Caerdydd, a nodwyd y byddai'r cysylltiadau hynny'n cael eu torri pe na bai ward Pontpennau/Pentref Llaineirwg yn cael ei chynnwys mewn etholaeth Gogledd Caerdydd.

- iv. Hefyd, derbyniodd y Comisiwn rai cynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu cynnwys Pontpennau/Pentref Llaineirwg yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd. Roedd un gynrychiolaeth, er enghraifft, yn anghytuno â'r ddadl fod angen i gynghorau cymuned mewn ardal fod o fewn un etholaeth gan eu bod yn llwyddo i gydweithredu ar hyn o bryd pan nad ydynt yn yr un etholaeth. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd yn dweud bod y cysylltiadau cyfathrebu a thrafnidiaeth rhwng Pontpennau/Pentref Llaineirwg a gweddill etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd yn wael, a bod diffyg trafndiaeth gyhoeddus a dim ond lôn wledig yn eu huno.
- v. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau mewn perthynas â chynnwys Ffynnon Taf yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd. Mynegwyd y farn mewn llawer o gynrychiolaethau fod Ffynnon Taf yn bendant yn ward Pontypridd ac y dylid ei chynnwys felly yn etholaeth arfaethedig Cwm Cynon a Phontypridd. Dywed cynrychiolaethau fod ward etholiadol Ffynnon Taf yn wahanol yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn ddiwylliannol i Ogledd Caerdydd, ac yn ddaeryddol mae wedi'i rhannu o Ogledd Caerdydd gan gadwyn o fryniau.
- vi. Derbyniodd y Comisiwn gefnogaeth hefyd dros gynnwys Ffynnon Taf yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd gyda chynrychiolaethau yn dweud fod ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd yn atgyfnerthu'r cysylltiadau daeryddol a chymdeithasol sy'n bodoli rhwng wardiau etholiadol Ffynnon Taf a'r Eglwys Newydd. Mae cynrychiolaethau eraill yn amlygu'r cysylltiadau trafndiaeth a chyfathrebu cadarn rhwng ward etholiadol Ffynnon Taf a Chaerdydd.
- vii. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cynnig y dylai pum ward etholiadol graidd Gogledd Caerdydd gael eu cadw yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd, sef wardiau etholiadol; Y Mynydd Bychan, Llys-faen, Llanisien, Rhiwbeina, a'r Eglwys Newydd a Thongwynlais.
- viii. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant amgen ar gyfer Caerdydd, sef, yn eu hanfod, y rheiny a gynigiwyd gan y Blaid Geidwadol.

A.3. Ar sail y cynrychiolaethau a dderbyniwyd mewn perthynas â Chaerdydd, ystyriodd y Comisiwn nifer o gynigion amgen er mwyn asesu p'un a oeddent yn mynd i'r afael â beirniadaeth o'r cynigion cychwynnol ac yn arwain at etholaethau a oedd yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well. Hefyd, roedd y Comisiwn yn ystyriol o'r elfennau hynny o'r cynigion cychwynnol y cafodd y Comisiwn gefnogaeth iddynt.

A.4. Mae prif gasgliadau'r Comisiwn fel a ganlyn:

- i. Mae'r ymagwedd o greu tair etholaeth ar gyfer llywodraeth leol Dinas a Sir Caerdydd yn un gadarn sy'n adlewyrchu ffiniau llywodraeth leol, cysylltiadau

presennol, ac i raddau helaeth, etholaethau presennol;

- ii. Nid yw'n ymarferol cadw etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth. Mae'r Comisiwn o'r farn nad oes unrhyw gynnig amgen yn ymwneud â chadw'r etholaeth bresennol honno sy'n adlewyrchu'r gofynion statudol yn well. Mae cynnwys Penarth yn etholaeth Bro Morgannwg yn adlewyrchu ffiniau llywodraeth leol.
- iii. Mae angen i ward Ffynnon Taf gael ei chynnwys mewn etholaeth Caerdydd. Ni ellid cynnwys y ward etholiadol yn etholaeth arfaethedig Cwm Cynon a Phontypridd am y byddai gwneud hynny'n peri bod yr etholaeth yn mynd dros yr amrediad etholiadol statudol. I'r graddau hynny, mae eithriad lle mae ward etholiadol o du allan i ardal llywodraeth leol Caerdydd yn cael ei chynnwys mewn etholaeth Caerdydd yn anochel.
- iv. Daeth y Comisiwn i'r casgliad y dylai ward etholiadol Pontprennau/Pentref Llanelwyr gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd. Derbyniodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau yn cefnogi hyn, a byddai hyn yn adlewyrchu'r cysylltiadau presennol rhwng y ward etholiadol hon a wardiau eraill yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd. O ganlyniad i'r newid hwnnw, a newidiadau eraill, ni ellid cynnwys ward etholiadol Ffynnon Taf yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd a ddisgrifir yn y cynigion cychwynnol.
- v. Mae'r Comisiwn yn argymhell creu'r etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd a ddisgrifir yn y cynigion cychwynnol ond gydag addasiadau i adlewyrchu'r newidiadau sydd eu hangen yng ngolau'r diwygiadau i etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd. Mae hyn yn galluogi cadw etholaeth Gorllewin Caerdydd yn gyfan gwbl o fewn etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd. O ystyried y cysylltiadau, gan gynnwys cysylltiadau trafndiaeth ac ysgol, rhwng Ffynnon Taf ac etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd, mae'n briodol cynnwys y ward etholiadol hon yn yr etholaeth arfaethedig hon.

A.5. Mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad bod y cynigion cychwynnol, fel y'u haddaswyd i ystyried y cynrychiolaethau a ddaeth i law, yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well yn gyffredinol. Ni fyddai argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer newidiadau mwy sylweddol i'r cynigion cychwynnol, at ei gilydd, yn arwain at etholaethau a oedd yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well. Cynigir y tair etholaeth ganlynol yng ngolau'r cyflwyniadau a wnaed, y cynrychiolaethau a ddaeth i law, y cynigion amgen a awgrymwyd a chan ddilyn proses ofalus o gydbwysu'r cynrychiolaethau yn erbyn y meini prawf statudol.



## 17. Cardiff West (Gorllewin Caerdydd)

17.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

17.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Cardiff South and Penarth** CC gyfanswm o 72,392 o etholwyr sydd 3% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 2% yn uwch na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

17.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Cardiff West** CC gyfanswm o 63,892 o etholwyr sydd 15% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 10% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

17.1 c. Mae gan etholaeth bresennol **Pontypridd** CC gyfanswm o 56,525 o etholwyr sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 20% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

17.2 Yng nghynigion cychwynol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth fwrdeistrefol o'r canlynol:

17.2 a. y ward etholiadol yn **Cardiff South and Penarth** BC presennol a Dinas a Sir Caerdydd, sef Grangetown (11,671).

17.2 b. y cyfan o **Cardiff West** BC presennol yn cynnwys wardiau etholiadol Dinas a Sir Caerdydd, sef Caerau (7,480), Treganna (10,371), Creigiau/Sain Ffagan (3,888), Trelai (9,449), Y Tyllgoed (9,338), Llandaf (6,828), Pentyrch (2,752), Radyr (5,146) a Riverside (8,640); a;

17.3 Byddai gan yr etholaeth hon 75,563 o etholwyr sydd 1.1% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Cardiff West**. Yr enw amgen a awgrymwyd oedd **Gorllewin Caerdydd**.

17.4 Fel y trafodwyd uchod, derbyniodd y Comisiwn nifer sylweddol o gynrychiolaethau mewn perthynas â'r etholaethau arfaethedig ar gyfer ardal Caerdydd. Derbyniodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau yn cefnogi ei gynnig cychwynol, gan gynnwys cynrychiolaethau gan yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Cardiff West. Tynnodd yr AS sylw at y defnydd o Afon Taf fel ffin hawdd ei hadnabod; y cysylltiadau da o ran trafndiaeth gyhoeddus, dalgylchoedd ysgolion, cysylltiadau cymdeithasol, a chysylltiadau cyfathrebu rhwng y wardiau etholiadol y mae'r Comisiwn wedi'u cynnwys yng Ngorllewin Caerdydd; a'r ffaith fod Grangetown, yn hanesyddol, wedi bod yn rhan o etholaeth Gorllewin Caerdydd.


17.5 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau y dylai Grangetown gael ei gynnwys, ynghyd â Butetown, mewn etholaeth De Caerdydd, ac i gynnwys naill ai Cathays neu i gynnwys Ystum Taf a Gabalfa mewn etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd.

- 17.6 Ni chynigiwyd unrhyw drefniadau amgen ar gyfer yr etholaeth hon gan y pleidiau gwleidyddol a wnaeth gynrychiolaethau, ac eithrio'r Blaid Geidwadol. Cynigiodd y Blaid Geidwadol bod wardiau gogleddol yr etholaeth yn cael eu cynnwys yn yr etholaeth Gogledd Caerdydd arfaethedig hon, i gynnwys Ystum Taf a Grangetown yn yr etholaeth arfaethedig hon, a cheisiodd amlygu yr hyn a ddywedwyd oedd cysylltiadau diwylliannol rhwng Grangetown a Butetown. Gwnaeth Aelod Cynulliad gynrychiolaethau hefyd yn mynegi'r farn fod gan y wardiau etholiadol yng ngogledd etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd fwy o gyswllt â wardiau yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd.
- 17.7 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad y byddai wardiau gogleddol etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd yn cael eu gosod yn fwy priodol yng Ngogledd Caerdydd *"Rydym o'r farn ei bod yn fwy priodol cynnwys wardiau etholiadol Pentyrch, Radyr, a Creigiau/Sain Ffagan yn etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd."* Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad y dylai Butetown a Grangetown gael eu huno yn yr etholaeth hon hefyd yn sgil y cysylltiadau diwylliannol cryf rhwng y ddwy ward.
- 17.8 Fel y trafodwyd uchod, ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad fod etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd a ddisgrifir yn y cynigion cychwynnol, gan ychwanegu ward etholiadol Ffynnon Taf, yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well. Mae'r Comisiwn wedi ystyried y trefniadau amgen fel y'u cynigiwyd yn y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, ond nid ydynt yn fodlon fod unrhyw rai o'r trefniadau a gynigiwyd yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well yng Nghaerdydd nag yn y cynigion cychwynnol.
- 17.9 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth fwrdeistrefol o'r canlynol:**
- 17.9 a. **y ward etholiadol yn Cardiff South and Penarth BC presennol a Dinas a Sir Caerdydd, sef Grangetown (11,671).**
- 17.9 b. **Etholaeth bresennol Cardiff West BC yn gyfan**
- 17.9 c. **y wardiau etholiadol yn Pontypridd CC presennol a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Ffynnon Taf (2,758).**
- 17.10 **Byddai gan yr etholaeth hon 78,321 o etholwyr sydd 4.8% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 17.11 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau ar gyfer trefniadau amgen i'r etholaeth hon a oedd yn cynnwys enwau amgen. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw enwau amgen ar gyfer yr etholaeth a gynhwyswyd yn ei gynnig cychwynnol.
- 17.12 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newid i enw'r etholaeth arfaethedig i Cardiff South West [De Orllewin Caerdydd]. Mae'r Comisiynwyr Cynorthwyol yn argymhell y wardiau gogleddol o'r etholaeth arfaethedig a ddisgrifiwyd yn y cynnig cychwynnol, ac roeddent o'r farn fod yr enw newydd yn disgrifio ehangder daearyddol eu hetholaeth arfaethedig yn well.

## ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG AROLWG 2018

- 17.13 Mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad bod yr enw arfaethedig ar gyfer yr etholaeth a argymhellwyd yn y cynigion cychwynnol yn briodol. Felly maent yn argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Cardiff West**. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **Gorllewin Caerdydd**.

Cardiff West (Gorllewin Caerdydd)



## 18. Cardiff North (Gogledd Caerdydd)

18.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

18.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Cardiff Central** CC gyfanswm o 49,403 o etholwyr sydd 34% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 30% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

18.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Cardiff North** CC gyfanswm o 63,574 o etholwyr sydd 15% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth ac 11% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

18.1 c. Mae gan etholaeth bresennol **Pontypridd** CC gyfanswm o 56,525 o etholwyr sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 20% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

18.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth fwrdeistrefol o'r canlynol:

18.2 a. y wardiau etholiadol yn **Cardiff Central** BC presennol a Dinas a Sir Caerdydd, sef Cyncoed (8,139) a Pentwyn (10,435);

18.2 b. y wardiau etholiadol yn **Cardiff North** BC presennol a Dinas a Sir Caerdydd, sef Gabalfa (4,045), Y Mynydd Bychan (9,326), Llysfaen (2,871), Ystum Taf (5,722), Llanisien (12,916), Rhiwbeina (9,129), Yr Eglwys Newydd a Tongwynlais (12,673);

18.2 c. y ward etholiadol yn **Pontypridd** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Ffynnon Taf (2,758)).

18.3 Byddai gan yr etholaeth hon 78,014 o etholwyr sydd 4.3% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Cardiff North**. Yr enw arall oedd **Gogledd Caerdydd**.

18.4 Fel y trafodwyd uchod, derbyniodd y Comisiwn nifer sylweddol o gynrychiolaethau mewn perthynas â'r etholaethau arfaethedig ar gyfer ardal Caerdydd. Derbyniodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau ysgrifenedig, yn ogystal â chynrychiolaethau yn y gwrandawiadau cyhoeddus, y dylai etholaeth Gogledd Caerdydd gynnwys ward etholiadol Pontpennau/Pentref Llaneirwg. Cyfeiriodd y cynrychiolaethau at y cysylltiadau hanesyddol gyda Llys-faen a'r cydweithredu rhwng y Cynghorau Cymuned yng Ngogledd Caerdydd fel rhesymau dros gynnwys Pontpennau/Pentref Llaneirwg mewn etholaeth Gogledd Caerdydd. Hefyd, roedd cefnogaeth dros gynnwys y wardiau gogleddol yn etholaeth bresennol Gorllewin Caerdydd yn yr etholaeth arfaethedig hon. Derbyniodd y Comisiwn rai cynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu cynnwys Pontpennau/Pentref Llaneirwg yn ward Gogledd Caerdydd. Roedd un gynrychiolaeth yn dadlau nad oes angen i'r holl Gynghorau Cymuned sy'n cydweithredu fod o fewn un


etholaeth, a nododd nad yw'r Cynghorau Cymuned i gyd o fewn yr un etholaeth ar hyn o bryd. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd yn dweud bod y cysylltiadau cyfathrebu a thrafnidiaeth rhwng Pontprennau/Pentref Llaneirwg a gweddill etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd yn wael, a bod diffyg trafndiaeth gyhoeddus a dim ond lôn wledig yn uno Pontprennau/Pentref Llaneirwg gyda Llys-faen.

- 18.5 Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol ad-drefniant mawr o etholaethau arfaethedig Gogledd Caerdydd a De a Dwyrain Caerdydd yn seiliedig ar ddalgylchoedd ysgolion a data'r cyfrifiad. Ysgogodd y gynrychiolaeth hon ymatebion yn ystod yr ail ymgynghoriad, gyda chynrychiolaethau'n mynegi pryder ynghylch dileu ward y Mynydd Bychan o etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn tynnu sylw at gysylltiad Gabalfa â wardiau etholiadol de Caerdydd, fel Cathays, a hefyd â ward etholiadol gogledd Caerdydd, sef Y Mynydd Bychan.
- 18.6 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad ei bod yn fwy priodol gosod wardiau gogleddol etholaeth bresennol Cardiff West yn yr etholaeth hon. Hefyd, cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol cynnwys ward Pontprennau/Pentref Llaneirwg yn yr etholaeth arfaethedig hon. Er mwyn cyflawni'r amrediad etholiadol statudol yn yr etholaeth hon, cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol ddileu wardiau etholiadol Gabalfa ac Ystum Taf. Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn fod gan Ystum Taf gysylltiadau â Llandaf, ac y byddai'n fwy priodol ei roi mewn etholaeth De Ddwyrain Caerdydd, a bod gan Gabalfa gysylltiadau cymunedol cryf â Cathays, ac y byddai'n fwy priodol hefyd lleoli'r wardiau hyn mewn etholaeth De Ddwyrain Caerdydd.
- 18.7 Fel y trafodwyd uchod, ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol diwygio'i gynigion cychwynnol a chynnwys ward Pontprennau/Pentref Llaneirwg yn yr etholaeth arfaethedig. Byddai hynny'n osgoi torri'r cysylltiadau sy'n bodoli rhwng Pontprennau/Pentref Llaneirwg a wardiau eraill sy'n ffurfio rhan o etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd. Roedd nifer o gynrychiolaethau yn cefnogi hyn. Bydd y cynigion diwygiedig yn sicrhau bod saith (o'r wyth) o wardiau yn etholaeth bresennol Cardiff North yn cael eu cynnwys mewn un etholaeth arfaethedig. Roedd y Comisiwn o'r farn y dylid cynnwys ward etholiadol Gabalfa yn etholaeth arfaethedig De a Dwyrain Caerdydd. Mae gan Gabalfa gysylltiadau â Cathays, ac mae ffin yr A48 sy'n hawdd ei hadnabod i'r gogledd o ward etholiadol Gabalfa yn ei gwneud yn briodol i'r ward hon gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig De a Dwyrain Caerdydd. Mae'r Comisiwn wedi ystyried y trefniadau amgen fel y'u cynigiwyd yn y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, ond nid yw'n fodlon bod y trefniadau a gynigiwyd gan y Comisiynwyr Cynorthwyol yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well yng Nghaerdydd na'r cynigion cychwynnol. Roedd y Comisiwn o'r farn bod y cynigion cychwynnol, fel y'u diwygiwyd yn y modd a ddisgrifiwyd, yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well at ei gilydd.
- 18.8 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth fwrdeistrefol o'r canlynol:**
- 18.8 a. **Y wardiau etholiadol yn Cardiff Central BC presennol a Dinas a Sir Caerdydd, sef Cyncoed (8,139) a Pentwyn (10,435);**

## ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG AROLWG 2018

- 18.8 b. **y wardiau etholiadol yn Cardiff North BC presennol a Dinas a Sir Caerdydd, sef Y Mynydd Bychan (9,326), Llysfaen (2,871), Ystum Taf (5,722), Llanisien (12,916), Pontprennau/Yr Hen Laneirwg (6,976), Rhiwbeina (9,129), Yr Eglwys Newydd a Tongwynlais (12,673).**
- 18.9 **Byddai gan yr etholaeth hon 78,187o etholwyr sydd 4.6% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 18.10 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau ar gyfer trefniadau amgen i'r etholaeth hon a oedd yn cynnwys enwau amgen. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw enwau amgen ar gyfer yr etholaeth a gynhwyswyd yn ei gynnig cychwynnol.
- 18.11 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol bod enw'r cynnig cychwynnol yn briodol ar gyfer eu cynnig diwygiedig. Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn fod yr enw lawn mor briodol, neu'n fwy priodol nag unrhyw enwau eraill a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau.
- 18.12 Mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad bod yr enw arfaethedig yn y cynigion cychwynnol yn briodol. Felly maent yn argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Cardiff North**. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **Gogledd Caerdydd**.

Cardiff North (Gogledd Caerdydd)





## 19. Cardiff South and East (De a Dwyrain Caerdydd)

19.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

19.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Cardiff Central** CC gyfanswm o 49,403 i etholwyr sydd 34% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 30% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

19.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Cardiff North** CC gyfanswm o 63,574 o etholwyr sydd 15% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth ac 11% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

19.1 c. Mae gan etholaeth bresennol **Cardiff South and Penarth** CC gyfanswm o 72,392 o etholwyr sydd 3% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 2% yn uwch na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

19.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth fwrdeistrefol o'r canlynol:

19.2 a. y wardiau etholiadol yn **Cardiff Central** BC presennol a Dinas a Sir Caerdydd, sef Adamsdown (5,044), Cathays (7,176), Penylan (9,188), a Plasnewydd (9,421);;

19.2 b. y ward etholiadol yn **Cardiff North** BC presennol a Dinas a Sir Caerdydd, sef Pontprennau/Yr Hen Laneirwg (6,976); ac,

19.2 c. y wardiau etholiadol yn **Cardiff South and Penarth** BC presennol a Dinas a Sir Caerdydd, sef Butetown (6,524), Llanrhymni (7,387), Tredelerch (6,304), Y Sblot (8,454) a Trowbridge (10,585).

19.3 Byddai gan yr etholaeth hon 77,059 o etholwyr sydd 3.1% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Cardiff South and East**. Yr enw amgen a awgrymwyd oedd **De a Dwyrain Caerdydd**.

19.4 Fel y trafodwyd uchod, derbyniodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau ysgrifenedig, yn ogystal â chynrychiolaethau yn y gwrandawriadau cyhoeddus, o blaid cadw etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth, gan dynnu sylw at y cysylltiadau economaidd, cymdeithasol a daearyddol, a'r cysylltiadau trafniadaeth rhwng De Caerdydd a Phenarth. Nododd lawer o gynrychiolaethau hefyd fod yr etholaeth bresennol o fewn yr amrediad etholiadol statudol. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau a oedd yn darparu trefniadau amgen ymarferol ar gyfer gweddill Caerdydd pe bai etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth yn cael ei chadw.

19.5 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn darparu rhesymau dros beidio â chadw'r etholaeth bresennol, gan ddweud, er mwyn cadw'r etholaeth bresennol, y byddai angen i'r


Comisiwn darfu ar y cynigion ar gyfer etholaethau arfaethedig eraill yn Ne Ddwyrain Cymru, ac na fyddai unrhyw ad-drefniant yn adlewyrchu'r meini prawf statudol a bennir yn y Ddeddf yn well na'r cynigion cychwynnol. Hefyd, derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn cefnogi cynnwys Penarth gyda Bro Morgannwg. Mae'r cynrychiolaethau yn tynnu sylw at y ffaith fod Penarth yn ardal prif gyngor Bro Morgannwg, ac yn cael ei wasanaethu gan Fro Morgannwg, ac mae ganddo gysylltiadau sefydledig â'r ardal.

- 19.6 Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol ad-drefniant mawr o etholaethau arfaethedig Gogledd Caerdydd a De a Dwyrain Caerdydd fel y'u cynigiwyd gan y Comisiwn yn seiliedig ar ddalgylchoedd ysgolion a data'r cyfrifiad. Ysgogodd y gynrychiolaeth hon ymatebion yn ystod yr ail ymgynghoriad, gyda chynrychiolaethau'n mynegi pryder ynghylch dileu ward y Mynydd Bychan o etholaeth arfaethedig Gogledd Caerdydd. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn tynnu sylw at gysylltiad Gabalfa â wardiau etholiadol de Caerdydd, fel Cathays, a hefyd â ward etholiadol gogledd Caerdydd, sef Y Mynydd Bychan.
- 19.7 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad nad oedd unrhyw ffordd ymarferol o gadw etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth gan na fyddai unrhyw drefniadau amgen yn adlewyrchu'r meini prawf statudol gystal â'r cynigion cychwynnol ar gyfer dewis tair etholaeth Caerdydd drwy hepgor Penarth.
- 19.8 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad na fyddai'n bosibl cadw etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth ac y gwasanaethir Caerdydd yn well o gael tair etholaeth, a chynnwys Penarth yn ei etholaeth arfaethedig Dwyrain Bro Morgannwg. Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r argymhellion a wnaed gan y Comisiynwyr Cynorthwyol i gynnwys Gabalfa mewn etholaeth De Caerdydd oherwydd ei gysylltiadau â Cathays a ffin yr A48 sy'n hawdd ei hadnabod i'r gogledd o ward etholiadol Gabalfa. Mae'r Comisiwn wedi ystyried y trefniadau amgen fel y'u cynigiwyd yn y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, ond nid yw'n fodlon bod y trefniadau a gynigiwyd gan y Comisiynwyr Cynorthwyol yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well yng Nghaerdydd nag yn y cynigion cychwynnol fel y'u diwygiwyd yn y ffordd a ddisgrifiwyd uchod.
- 19.9 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth fwrdeistrefol o'r canlynol:**
- 19.9 a. **Y wardiau etholiadol yn Cardiff Central BC presennol a Dinas a Sir Caerdydd, sef Adamsdown (5,044), Cathays (7,176), Penylan (9,188), a Plasnewydd (9,421);;**
- 19.9 b. **y ward etholiadol yn Cardiff North BC presennol a Dinas a Sir Caerdydd, sef Gabalfa (4,045); a;**
- 19.9 c. **y wardiau etholiadol yn Cardiff South and Penarth BC presennol a Dinas a Sir Caerdydd, sef Butetown (6,524), Llanrhymni (7,387), Tredelerch (6,304), Y Sblot (8,454) a Trowbridge (10,585).**
- 19.10 **Byddai gan yr etholaeth hon 74,128 o etholwyr sydd 0.9% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

## ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG AROLWG 2018

- 19.11 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau ar gyfer trefniadau amgen i'r etholaeth hon a oedd yn cynnwys enwau amgen. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw enwau amgen ar gyfer yr etholaeth a gynhwyswyd yn ei gynnig cychwynol.
- 19.12 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newid i enw'r etholaeth arfaethedig i Cardiff South East yn seiliedig ar eu cynigion diwygiedig.
- 19.13 Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynol yn briodol. Felly mae'n argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Cardiff South and East**. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **De a Dwyrain Caerdydd**.

### Cardiff South and East (De a Dwyrain Caerdydd)



## 20. Vale of Glamorgan East (Dwyrain Bro Morgannwg)

20.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

20.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Cardiff South and Penarth** CC gyfanswm o 72,392 o etholwyr sydd 3% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 2% yn uwch na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

20.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Vale of Glamorgan** CC gyfanswm o 69,673 o etholwyr sydd 7% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 2% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

20.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

20.2 a. Y wardiau etholiadol yn **Cardiff South and Penarth** BC presennol a Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, sef Cornerswell (3,885), Llandochau (1,454), Plymouth (4,419), St. Augustine's (4,913), Stanwell (3,178), Y Sili (3,531); a,

20.2 b. y wardiau etholiadol yn **Vale of Glamorgan** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, sef Baruc (4,636), Buttrills (4,175), Cadoc (6,842), Castleland (3,096), Y Cwrt (3,031), Y Bont-faen (4,997), Dinas Powys (6,139), Dyfan (3,983), Gibbonsdown (3,646), Illtyd (5,951), Llanbedr-y-fro (1,828), Y Rhws (5,158), a Gwenfô (2,122).


20.3 Byddai gan yr etholaeth hon 76,984 o etholwyr sydd 3% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Vale of Glamorgan East**. Yr enw amgen oedd **Dwyrain Bro Morgannwg**.

20.4 Ychydig o gynrychiolaethau a dderbyniodd y Comisiwn mewn perthynas â'r cynnig cychwynnol ar gyfer Dwyrain Bro Morgannwg. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau mewn perthynas ag etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth fel y trafodwyd yn flaenorol ym mharagraff 19.4 o bennod 5 tudalen 85. Hefyd, derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth y gallai Sain Tathan a Y Bont-faen gael eu cynnwys yn etholaethau arfaethedig Dwyrain Bro Morgannwg, a Phen-y-bont ar Ogwr a Gorllewin Bro Morgannwg yn y drefn honno. Roedd cytundeb cyffredinol at ei gilydd, fodd bynnag, bod yr etholaeth arfaethedig a ddisgrifiwyd yn y cynigion cychwynnol yn dderbyniol.

20.5 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol cynnal y cynnig cychwynnol yn llawn, gan ddod i'r casgliad na fyddai'n ymarferol cadw etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth, a'i bod yn briodol creu etholaeth a oedd yn cynnwys wardiau etholiadol i gyd o ardal un prif gyngor.

- 20.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac yn cynnig argymhell yr etholaeth arfaethedig a ddisgrifiwyd yn y cynnig cychwynnol. Rhoddodd y Comisiwn ystyriaeth i'r cwestiwn o gadw etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth fel y trafodwyd uchod. Felly, mae'r Comisiwn yn fodlon mai'r etholaeth a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol orau.
- 20.7 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 20.7 a. **y wardiau etholiadol yn Cardiff South and Penarth BC presennol a Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, sef Cornerswell (3,885), Llandochoau (1,454), Plymouth (4,419), St. Augustine's (4,913), Stanwell (3,178), Y Sili (3,531); a,**
- 20.7 b. **Y wardiau etholiadol yn Vale of Glamorgan CC presennol a Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, sef Baruc (4,636), Buttrills (4,175), Cadoc (6,842), Castleland (3,096), Y Cwrt (3,031), Y Bont-faen (4,997), Dinas Powys (6,139), Dyfan (3,983), Gibbonsdown (3,646), Illtyd (5,951), Llanbedr-y-fro (1,828), Y Rhws (5,158), a Gwenfô (2,122).**
- 20.8 **Byddai gan yr etholaeth hon 76,984 o etholwyr sydd 3% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 20.9 Ychydig o gynrycholethau a dderbyniodd y Comisiwn mewn perthynas ag enwi'r etholaeth hon. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth yn awgrymu bod yr etholaeth arfaethedig yn cael ei henwi yn Vale of Glamorgan / Bro Morgannwg yn syml.
- 20.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol yr enw a gynigiwyd yn y cynnig cychwynnol. Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn fod yr enw lawn mor briodol, neu'n fwy priodol nag unrhyw enwau eraill a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau.
- 20.11 Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yn briodol. Felly mae'n argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Vale of Glamorgan East**. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **Dwyrain Bro Morgannwg**.

Vale of Glamorgan East (Dwyrain Bro Morgannwg)



## Y cynigion ar gyfer ardaloedd Port Talbot, Sgiwen ac Abertawe.

- B.1. Yn ei gynigion cychwynnol, amlinellodd y Comisiwn chwe etholaeth a oedd yn cynnwys y rhan hon o ardal De Cymru. Roedd y rhain fel a ganlyn:
- i. Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg a oedd yn cynnwys etholaeth bresennol gyfan Bridgend ynghyd â wardiau gorllewinol etholaeth bresennol Vale of Glamorgan.
  - ii. Ogwr a Phort Talbot a oedd yn cynnwys etholaeth bresennol gyfan Ogmores ynghyd â wardiau dwyreiniol etholaeth bresennol Aberavon.
  - iii. Castell-nedd ac Aberafan a oedd yn cynnwys wardiau gogleddol etholaeth bresennol Neath gyda wardiau Aberafan yn etholaeth bresennol Aberavon.
  - iv. Dwyrain Abertawe a oedd yn cynnwys etholaeth bresennol gyfan Swansea East ynghyd â wardiau Coedffranc yn etholaeth bresennol Aberavon, ynghyd â ward Clydach yn etholaeth bresennol Gower a ward y Castell yn etholaeth bresennol Swansea West.
  - v. Gŵyr a Gorllewin Abertawe a oedd yn cynnwys wardiau gorllewinol etholaeth bresennol Gower a wardiau gorllewinol etholaeth bresennol Swansea East.
  - vi. Llanelli a Lliw a oedd yn cynnwys etholaeth bresennol gyfan Llanelli a chwe ward ogleddol etholaeth bresennol Gower.
- B.2. Gwnaed nifer sylweddol o gynrychiolaethau i'r Comisiwn mewn perthynas â'r etholaethau arfaethedig yn y rhan hon o Gymru - yn cynnwys deiseb yn cynnwys 537 o lofnodion. Roedd y prif faterion a godwyd fel a ganlyn:
- i. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau nad oeddent yn cefnogi rhannu etholaeth bresennol Aberavon. Y rhesymau a roddwyd oedd y byddai effaith negyddol ar ardal drefol Aberafan, Port Talbot, a Margam fel y disgrifir isod. Hefyd, roedd y cynrychiolaethau yn mynegi'r farn ei bod yn synhwyrol i'r etholaethau arfaethedig gael eu cadw yn ardal prif gyngor Castell-nedd Port Talbot.
  - ii. Derbyniodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau ysgrifenedig, deiseb â 537 o lofnodion, yn ogystal â chynrychiolaethau yn y gwrandawiadau cyhoeddus y dylai etholaeth Port Talbot gynnwys wardiau etholiadol Aberafan, Baglan, Gorllewin Sandfields, a Dwyrain Sandfields. Roedd y cynigion cychwynnol ar gyfer etholaethau Castell-nedd ac Aberafan, ac Ogwr a Phort Talbot yn rhannu'r ardal adwaenir fel Port Talbot ar hyd cwrs Afon Afan. Roedd y cynrychiolaethau a ddaeth i law yn dynodi bod cysylltiadau cryf iawn ar draws yr afon, a bod Aberafan



a Phort Talbot, yn hanesyddol, wedi bod yn yr un etholaeth erioed. Mae'r ardal i gyd yn rhan o brif gyngor Castell-nedd Port Talbot ac mae'n ardal adeiledig barhaus a chanddi gysylltiadau hanesyddol, cymdeithasol, ac economaidd y byddai'r cynigion cychwynol yn amharu arnynt.

- iii. Derbyniodd y Comisiwn rai cynrychiolaethau hefyd a oedd yn gwrthwynebu cynnwys Cymuned Coedffranc, sy'n cynnwys yr ardal a adwaenir fel Sgiwen, yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe. Mae Coedffranc yn rhan o ardal prif gyngor Castell-nedd Port Talbot, ac â chysylltiadau hanesyddol â Chastell-nedd, a byddai'n fwy priodol ei gynnwys mewn etholaeth gyda Chastell-nedd.
- iv. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn dweud bod cysylltiadau'n bodoli rhwng wardiau etholiadol Lluchwr Isaf, Lluchwr Uchaf, Pontybrenin, Gorseinon, a Phenyrheol, ac yn awgrymu y dylid eu cynnwys o fewn yr un etholaeth. Roedd y cynrychiolaethau hynny'n awgrymu yr ystyrir bod gan Gorseinon gyswllt a chysylltiadau agos â Chymuned Lluchwr (wardiau etholiadol Pontybrenin, Lluchwr Isaf a Lluchwr Uchaf) ac yn ehangach ag Abertawe ac ardal Gŵyr, sydd wedi bod yn gysylltiedig yn yr un etholaeth yn hanesyddol.
- v. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau sy'n awgrymu y dylai ward etholiadol Tre-gŵyr gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw. Hefyd, derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn awgrymu bod Tre-gŵyr yn edrych tua'r de at Gŵyr, ac mae â Gŵyr y mae ei chysylltiadau gan ei bod wedi'i chysylltu â gweddill Gŵyr o ran diwylliant, traddodiad, hanes, ac ysgolion, ac fe'i hadwaenir fel "Y Porth i'r Gŵyr."

### B.3. Mae'r Comisiynwyr Cynorthwyol yn argymhell:

- i. Cynnwys wardiau etholiadol Lluchwr Isaf, Lluchwr Uchaf a Phontybrenin yn etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw;
- ii. Cynnwys wardiau Tŷ-croes a Chydweli yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin;
- iii. Cynnwys ward etholiadol Cwmbwrla yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe;
- iv. Wardiau etholiadol Baglan, Aberafan, Gorllewin Sandfields a Dwyrain Sandfields yn etholaeth arfaethedig Ogwr a Phort Talbot;
- v. Cynnwys wardiau etholiadol Gorllewin Coedffranc Gogledd Coedffranc a Chanol Coedffranc yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd ac Aberafan;
- vi. Cynnwys wardiau etholiadol Bryn a Chwmafon, Cymer, Gwynfi a Glyncorrwg yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd ac Aberafan;
- vii. Cynnwys wardiau etholiadol Cefn Cribwr, Abercynffig, ac Ynysawdre yn etholaeth

arfaethedig Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg.

- B.4. Ar sail y cynrychiolaethau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r ardal, ystyriodd y Comisiwn nifer o gynigion amgen i ystyried pa un a fyddent yn mynd i'r afael â beirniadaethau o'r cynigion cychwynnol, ac yn arwain at etholaethau a fyddai'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well.
- B.5. Mae trefniadau yn yr ardal hon yn golygu bod newidiadau i un etholaeth arfaethedig yn cael effaith ganlyniadol ar yr etholaeth gyfagos. Mae prif gasgliadau'r Comisiwn fel a ganlyn:
- i. Dylid cynnwys Tre-gŵyr yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe. Mae'r Comisiwn o'r farn bod y dystiolaeth a dderbyniwyd yn dangos bod gan ward etholiadol Tre-gŵyr gysylltiadau â wardiau etholiadol eraill yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe ac y byddai cynnwys ward etholiadol Tre-gŵyr mewn etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw yn torri'r cysylltiadau presennol hynny.
  - ii. Mae cysylltiad cynhenid rhwng Gorseinon a Chymuned Lluchwr a byddai eu cynnwys gyda'i gilydd yn etholaeth arfaethedig Llanelli yn osgoi torri'r cysylltiadau hynny.
  - iii. Dylid cynnwys wardiau Llangyfelach, Mawr, a Phenllergaer yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe gan gydnabod eu cysylltiadau trwy Gwm Tawe ac i mewn i'r ddinas ei hun.
  - iv. O ganlyniad i'r newidiadau a grybwyllwyd uchod, mae'n briodol cynnwys ward Cwmbwrla yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe. Bydd hyn yn sicrhau bod yr etholaeth arfaethedig yn bodloni'r amrediad etholiadol statudol.
  - v. Mae gan Gymuned Coedffranc (sy'n cynnwys yr ardal a adwaenir fel Sgiwen) gysylltiadau cryf â Chastell-nedd a dylid ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd.
  - vi. Dylid cynnwys wardiau Bryn a Chwmafon, Cymer, a Glyncorrwg yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd i gydnabod eu cysylltiadau lleol ac i gynorthwyo â sicrhau bod yr etholaeth arfaethedig o fewn yr amrediad etholiadol statudol.
  - vii. Dylid cynnwys wardiau Aberafan, Baglan, Dwyrain Sandfields, a Gorllewin Sandfields yn etholaeth arfaethedig Ogwr ac Aberafan er mwyn sicrhau bod yr ardal a adwaenir fel Port Talbot yn gyfan gwbl yn yr un gymuned, gan osgoi torri cysylltiadau lleol felly.
  - viii. Mae'n briodol cynnwys ward Cefn Cribwr yn etholaeth arfaethedig Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg; bydd hynny'n sicrhau bod yr etholaeth arfaethedig o fewn yr amrediad etholiadol statudol; a

ix. Mae'n briodol cynnwys ward Llanhari yn etholaeth arfaethedig Rhondda a Llantrisant; bydd hynny'n sicrhau bod yr etholaeth arfaethedig o fewn yr amrediad etholiadol statudol.

B.6. Mae'r Comisiwn yn cynnig y chwe etholaeth ddiwygiedig hyn yng ngolau'r cynrychiolaethau a ddaeth i law, y cynigion amgen a awgrymwyd, argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac yn dilyn gwerthusiad gofalu o'r cynrychiolaethau yn erbyn y meini prawf statudol.

## 21. Bridgend and Vale of Glamorgan West (Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg)

- 21.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
- 21.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Bridgend** CC gyfanswm o 58,932 o etholwyr sydd 21% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth ac 17% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  - 21.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Ogmore** CC gyfanswm o 54,614 o etholwyr sydd 27% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 23% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  - 21.1 c. Mae gan etholaeth bresennol **Vale of Glamorgan** CC gyfanswm o 69,673 o etholwyr sydd 7% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 2% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 21.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 21.2 a. y cyfan o **Bridgend** CC presennol yn cynnwys wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sef Bracla (7,934), Bryntirion, Trelaes a Merthyr Mawr (6,305), Cefn Glas (1,237), Coety (1,708), Corneli (5,101), Llangrallo Isaf (1,131), Litchard (1,715), Llangewydd and Brynhyfryd (1,831), Morfa (3,080), Y Castellnewydd (4,010), Newton (2,901), Notais (2,750), Yr Hengastell (3,530), Pendre (1,321), Pen-y-fai (1,828), Canol Dwyrain Porthcawl (2,518), Canol Gorllewin Porthcawl (2,775), Y Pil (5,331) Rest Bay (1,926); a,
  - 21.2 b. y wardiau etholiadol yn **Vale of Glamorgan CC** presennol a Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, sef Llandw/Ewenni (2,061), Llanilltud Fawr (7,502), Sain Tathan (2,412) a Saint-y-Brid (2,097).
- 21.3 Byddai gan yr etholaeth hon 73,004 o etholwyr sydd 2.4% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Bridgend and Vale of Glamorgan West**. Yr enw arall a awgrymwyd oedd **Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg**.
- 21.4 Ychydig o gynrychiolaethau a dderbyniodd y Comisiwn mewn perthynas â'r cynnig cychwynnol ar gyfer Pen-y-bont a Gorllewin Morgannwg. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth gan Blaid Lafur Etholaeth Ogwr yn cyfeirio at yr hyn a ddywedwyd oedd y cysylltiadau cryf sydd gan Cefn Cribwr, Ynysawdre, ac Abercynffig ag etholaeth Ogwr gan ddweud *"Mae gan yr ardaloedd hyn gysylltiadau hirsefydlog trwy gyflogaeth a diwydiant, yn ogystal â thrafnidiaeth gyhoeddus, diwylliant, gwasanaethau iechyd a'r ddarpariaeth addysgol sy'n golygu nid yn unig bod y cymunedau hyn yn rhannu cysylltiadau daearyddol a*


## ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG AROLWG 2018

*hanesyddol hirsefydlog, ond maent hefyd yn dibynnu ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd hefyd.”*

- 21.5 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn mynegi'r farn i'r gwrthwyneb fod gan y wardiau hyn gyswllt naturiol â Thref a Sir Pen-y-bont ar Ogwr ac y dylid eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth gan y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd yn awgrymu ychwanegu wardiau Hendre a Felindre at yr etholaeth arfaethedig hon.
- 21.6 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad y dylai etholaeth Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg gynnwys wardiau Abercynffig, Cefn Cribwr, ac Ynysawdre “...am fod gan y wardiau hynny gysylltiadau lleol cymdeithasol ac economaidd â Phen-y-bont ar Ogwr ... ac rydym o'r farn na ddylid eu torri, ac am fod y symudiad hwnnw a argymhellir yn caniatáu trefniant gwell ar gyfer etholaeth arfaethedig Ogwr a Phort Talbot drwy osgoi gwahanu Aberafan a Phort Talbot a chadw o fewn yr amrediad etholiadol statudol ar yr un pryd ar gyfer y ddwy etholaeth.” Byddai gwneud y diwygiad hwn yn hwyluso newidiadau mewn etholaethau eraill gan greu etholaethau mwy priodol yn Ne Orllewin Cymru.
- 21.7 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad bod angen gwneud newidiadau i'r etholaeth hon. Rhoddodd y Comisiwn ystyriaeth i'r cynrychiolaethau a ddaeth i law ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, ond nid oedd yn cytuno â'r trefniant fel y'i cynigiwyd gan y Comisiynwyr Cynorthwyol. Roedd y Comisiwn, yn lle hynny, yn cytuno gyda chynnwys Cefn Cribwr yn yr etholaeth arfaethedig, ond roedd o'r farn fod gan Abercynffig ac Ynysawdre gysylltiadau cymunedol cryf gyda wardiau Bryncethin a Sarn ac felly dylid cynnwys y wardiau hynny mewn etholaeth arfaethedig a oedd yn cynnwys yr ardaloedd hynny. Trwy gynnwys ward Cefn Cribwr yn yr etholaeth arfaethedig hon, roedd y Comisiwn hefyd yn gallu gwneud newidiadau i etholaethau eraill yn yr ardal a olygai bod yr etholaethau arfaethedig yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well tra'n sicrhau eu bod o fewn yr amrediad etholiadol statudol.
- 21.8 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 21.8 a. **Etholaeth bresennol Bridgend CC yn gyfan**
- 21.8 b. **y ward etholiadol yn Ogmores CC presennol a Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sef Cefn Cribwr (1,088); ac,**
- 21.8 c. **y wardiau etholiadol yn Vale of Glamorgan CC presennol a Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, sef Llandw/Ewenni (2,061), Llanilltud Fawr (7,502), Sain Tathan (2,412) a Saint-y-Brid (2,097).**
- 21.9 **Byddai gan yr etholaeth hon 74,092 o etholwyr sydd 0.9% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

- 21.10 Roedd cytundeb cyffredinol bod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yn briodol. Awgrymwyd enwau amgen ynghyd a threfniant amgen. Cynigiwyd Bridgend gan un gynrychiolaeth.
- 21.11 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn fod yr enw a gynigiwyd yn y cynnig cychwynnol yn briodol, neu'n fwy priodol nag unrhyw enwau eraill a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau.
- 21.12 Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r Comisiynwyr Cynorthwyol fod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yn briodol. Felly maent yn argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Bridgend and Vale of Glamorgan West**. Yr enw amgen yw **Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg**.

**Bridgend and Vale of Glamorgan West (Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg)**



## 22. Ogmored and Aberavon (Ogwr ac Aberafan)

- 22.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn::
- 22.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Ogmored** CC gyfanswm o 54,614 o etholwyr sydd 27% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 23% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 22.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Aberavon** CC gyfanswm o 48,346 o etholwyr sydd 35% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 32% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 22.2 Yng nghynigion cychwynol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 22.2 a. Y cyfan o **Ogmored** CC presennol yn cynnwys:
- i. wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sef Abercynffig (1,692), Betws (1,536), Melin Ifan Du (1,870), Blaengarw (1,260), Bryncethin (995), Bryncoch (1,652), Caerau (4,593), Cefn Cribwr (1,088), Felindre (2,046), Hendre (2,985), Llangeinor (846), Llangynwyd (2,330), Dwyrain Maesteg (3,536), Gorllewin Maesteg (4,185), Nant-y-Moel (1,657), Bro Ogwr (2,193), Penprysg (2,337), Pontycymer (1,648), Sarn (1,748) ac Ynysawdre (2,555); a,
  - ii. wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Brynna (3,264), Gilfach Goch (2,411) Llanharan (2,610) a Llanhari (2,940); a,
- 22.2 b. y wardiau etholiadol yn **Aberavon** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sef Bryn a Chwmafan (5,018), Y Cymer (2,015), Glyncorwg (792), Gwynfi (895), Margam (2,197), Port Talbot (4,052), a Thai-bach (3,557).
- 22.3 Byddai gan yr etholaeth hon 72,503 o etholwyr sydd 3% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Ogmored and Port Talbot**. Yr enw amgen a awgrymwyd oedd **Ogwr a Phort Talbot**.
- 22.4 Derbyniodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a awgrymodd bod gan wardiau etholiadol Aberafan a Phort Talbot gyswllt cryf â'i gilydd fel y trafodwyd uchod. Cefnogwyd y cynrychiolaethau hyn gan gynrychiolaethau a wnaed yn y gwrandawriadau cyhoeddus a deiseb yn cynnwys 537 o lofnodion. Hefyd, derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth yn dweud y byddai'n fwy priodol lleoli ward etholiadol Cefn Cribwr yn etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr. Dywed y gynrychiolaeth fod ward Cefn Cribwr wedi cael ei hystyried yn rhan o Ben-y-bont ar Ogwr erioed. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth yn tynnu sylw at fod ward Llanhari yn ardal prif gyngor Rhondda Cynon Taf a bod ganddi gysylltiadau trafniadaeth a chysylltiadau cymdeithasol sefydledig gyda wardiau yn yr ardal honno, gan ei gwneud yn fwy addas i'w chynnwys mewn etholaeth arfaethedig Pontypridd neu'r Rhondda.
- 22.5 Derbyniodd y Comisiwn drefniant amgen ar gyfer yr etholaethau arfaethedig gan Blaid Lafur Etholaeth Aberafan, a gefnogwyd gan yr Aelod Seneddol dros etholaeth bresennol Aberavon. Roedd y gynrychiolaeth o'r farn y dylai wardiau etholiadol Aberafan a Phort



Talbot gael eu cynnwys yn yr un etholaeth yn sgil eu cysylltiadau hanesyddol ac etholaethau arfaethedig ar sail yr ystyriaeth hon.


- 22.6 Ystyriodd y Comisiynwyr Cynorthwyol nifer fawr o gynrychiolaethau a ddaeth i law, ac fe wnaethant gytuno y dylid cynnwys wardiau etholiadol Aberafan a Phort Talbot yn yr un etholaeth. *“Roedd corff cadarn iawn o gynrychiolaethau yn y gwrandawriadau ac yn ysgrifenedig y byddai'r cynigion cychwynnol yn rhannu tref Port Talbot yn ddau, a bod ardal Port Talbot ac Aberafan yn ffurfio un gymuned na ddylai, am resymau hanesyddol, cymdeithasol ac economaidd, gael ei rhannu rhwng dwy etholaeth.”*
- 22.7 Ystyriodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y trefniadau amgen a gynigiwyd gan Blaid Lafur Etholaeth Aberafan, ond roeddent o'r farn nad oedd y trefniant amgen yn darparu ar gyfer yr etholaethau mwyaf priodol yn ardal De Orllewin Cymru. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad y dylai wardiau etholiadol Cwm Afan gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd, ac y dylid cynnwys wardiau etholiadol Abercynffig, Cefn Cribwr, ac Ynysawdre mewn etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr fel y trafodwyd ym mharagraff 21.6 o bennod 5 tudalen 97.
- 22.8 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ysgrifenedig ac yn y gwrandawriadau cyhoeddus, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylai wardiau etholiadol Aberafan a Phort Talbot gael eu cynnwys yn yr un etholaeth. Hefyd, cytunodd y Comisiwn y dylid cynnwys Cefn Cribwr yn etholaeth arfaethedig Pen-y-bont a Dwyrain Bro Morgannwg, ond roedd o'r farn y dylid cynnwys Abercynffig ac Ynysawdre gyda Bryncethin a Sarn yn etholaeth arfaethedig Aberafan ac Ogwr oherwydd eu cysylltiadau â'r wardiau hynny fel y trafodwyd ym mharagraff 21.7 o bennod 5 tudalen 97.
- 22.9 Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn fwy priodol cynnwys ward etholiadol Llanhari yn etholaeth Rhondda a Llantrisant. Mae cynnwys ward Llanhari yn yr etholaeth arfaethedig hon yn galluogi'r Comisiwn hefyd i wneud newidiadau i etholaethau eraill yn yr ardal sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well, tra'n sicrhau hefyd bod yr etholaethau arfaethedig o fewn yr amrediad etholiadol statudol. Rhoddodd y Comisiwn ystyriaeth i'r trefniadau amgen fel y'u cynigiwyd gan Blaid Lafur Etholaeth Aberafan. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn nad yw'r trefniadau amgen yn arwain at etholaethau sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well, at ei gilydd, na'r cynigion cychwynnol fel y'u diwygiwyd.
- 22.10 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 22.10 a. **Y wardiau etholiadol yn etholaeth bresennol Ogmored CC yn cynnwys:**
- i. **wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sef Abercynffig (1,692), Betws (1,536), Melin Ifan Du (1,870), Blaengarw (1,260), Bryncethin (995), Bryncoch (1,652), Caerau (4,593), Felindre (2,046), Hendre (2,985), Llangeinor (846), Llangynwyd (2,330), Dwyrain Maesteg (3,536), Gorllewin Maesteg (4,185), Nant-y-Moel (1,657), Bro Ogwr (2,193), Penprysg (2,337), Pontycymer (1,648), Sarn (1,748) ac Ynysawdre (2,555); a,**

- ii. **wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Brynna (3,264), Gilfach Goch (2,411), a Llanharan (2,610); a,**

22.10 b. **Y wardiau etholiadol yn etholaeth bresennol Aberavon CC a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sef Aberafan (3,887), Baglan (5,128), Margam (2,197), Port Talbot (4,052), Dwyrain Sandfields (4,850) a Gorllewin Sandfields (4,745), a Thai-bach (3,557).**

- 22.11 Byddai gan yr etholaeth hon 78,365 o etholwyr sydd 4.8% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 22.12 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau ar gyfer trefniadau amgen i'r etholaeth hon, ac roedd rhai ohonynt yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer enwau gwahanol. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw enwau amgen ar gyfer etholaeth fel y'i disgrifiwyd yn ei gynnig cychwynnol, er i Blaid Cymru ddynodi mai enw Cymraeg Aberavon yw "Aberafan" ac nid "Aberafon."
- 22.13 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol mai Ogwr ac Aberafan yw enw'r cynnig i adlewyrchu eu trefniant arfaethedig.
- 22.14 Mae'r Comisiwn wedi cytuno gydag argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylai'r enw adlewyrchu'r trefniant newydd, ac maent yn argymhell y dylid galw'r etholaeth arfaethedig yn **Ogmore and Aberavon**. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **Ogwr ac Aberafan**.

Ogmore and Aberavon (Ogŵr ac Aberafan)



## 23. Neath (Castell-nedd)


- 23.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
- 23.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Neath** CC gyfanswm o 54,691 o etholwyr sydd 27% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 23% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 23.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Aberavon** CC gyfanswm o 48,346 o etholwyr sydd 35% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 32% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 23.2 Yng nghynigion cychwynol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 23.2 a. y wardiau etholiadol yn **Aberavon** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sef of Aberafan (3,887), Baglan (5,128), Dwyrain Llansawel (2,119), Gorllewin Llansawel (1,977), Dwyrain Sandfields (4,850) Gorllewin Sandfields (4,745);; a,
- 23.2 b. y cyfan o **Neath** CC presennol yn cynnwys wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sef Aberdulais (1,662), Yr Allt-wen (1,903), Blaen-gwrach (1,458), Gogledd Bryn-côch (1,762), De Bryn-côch (4,409), Llangatwg (1,353), Cimla (3,043), Y Creunant (1,500), Cwmllynfell (894), Dyffryn (2,354), Glyn-nedd (2,578), Godre'r graig (1,452), Gwauncaegurwen (2,171), Brynaman Isaf (1,014), Dwyrain Castell-nedd (4,298), Gogledd Castell-nedd (2,872), De Castell-nedd (3,513), Onllwyn (900), Pelenna (863), Pontardawe (3,936), Resolfen (2,323), Rhos (1,940), Blaendulais (1,527), Tonna (1,885), Trebannws (1,016) ac Ystalyfera (2,065).
- 23.3 Byddai gan yr etholaeth hon 77,397 o etholwyr sydd 3.5% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Neath and Aberavon**. Yr enw amgen a awgrymwyd oedd **Castell-nedd ac Aberafan**.
- 23.4 Derbyniodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau ysgrifenedig, yn ogystal â chynrychiolaethau yn y gwrandawriadau cyhoeddus, a ddywedodd y byddai'n fwy priodol pe bai tair ward etholiadol Coedffranc, a oedd wedi'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe yn y cynigion cychwynol, yn cael eu lleoli mewn etholaeth arfaethedig Castell-nedd. Dywedodd y cynrychiolaethau a dderbyniwyd "*... mae wardiau Coedffranc sy'n ffurfio tref Sgiwen yn bennaf, yn troi at Gastell-nedd ar gyfer eu hanghenion siopa, cymdeithasol ac economaidd yn hytrach nag at Abertawe... [ac maent yn gyfan gwbl] o fewn ardal awdurdod lleol unedol Castell-nedd Port Talbot.*" Mynegodd cynrychiolaeth arall gan gyn Gyngorydd lleol y gred "*...mae cynnwys [Coedffranc] yn etholaeth Aberafan yn hytrach na Chastell-nedd wedi bod yn asgwrn cynnen ers tro byd ac mae'n dal felly. Byddai symud i etholaeth y tu allan i'r fwrdeistref sirol yn gyfan gwbl yn gwneud pethau'n waeth o lawer.*"
- 23.5 Derbyniodd y Comisiwn drefniadau amgen gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru a awgrymodd dileu wardiau etholiadol Coedffranc o etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe a'u cynnwys mewn etholaeth arfaethedig Castell-nedd ac Aberafan. Mae'r trefniadau

## ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG AROLWG 2018

amgen fel y'u cynigiwyd gan Blaid Lafur Etholaeth Aberafan yn cytuno ei bod yn fwy priodol lleoli wardiau etholiadol Coedffranc mewn etholaeth arfaethedig Castell-nedd.

- 23.6 Rhoddodd y Comisiynwyr Cynorthwyol ystyriaeth i'r trefniadau amgen a gynigiwyd gan Blaid Lafur Etholaeth Aberafan a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, a chynnig cynnwys wardiau etholiadol Coedffranc mewn etholaeth arfaethedig Castell-nedd. Nid oedd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cytuno, fodd bynnag, mai cynnwys wardiau etholiadol o ardal llywodraeth leol Powys, er mwyn sicrhau bod yr etholaeth arfaethedig yn bodloni'r amrediad etholiadol statudol, oedd yr ateb mwyaf priodol, ac yn lle hynny nodwyd pedair ward etholiadol o Gwm Afan ganddynt fel rhai mwy priodol i'w cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig, gan eu bod yn ardal prif gyngor Castell-nedd Port Talbot ac mae ganddynt gysylltiadau mwy sefydledig gyda wardiau yn yr etholaeth arfaethedig.
- 23.7 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn yn cytuno gydag argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol bod wardiau etholiadol Coedffranc (hynny yw, Gorllewin Coedffranc, Gogledd Coedffranc, a Chanol Coedffranc), ynghyd â wardiau Bryn a Chwmafon, Cymer, Gwynfi, a Glyncorrwg yn cael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon er mwyn osgoi torri cysylltiadau lleol rhwng yr ardaloedd hyn ac ardaloedd eraill a gynhwysir yn yr etholaeth arfaethedig. Byddai'r etholaeth yn cynnwys etholaeth bresennol gyfan Neath, ac mae'r holl wardiau yn dod o fewn un ardal llywodraeth leol.
- 23.8 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 23.8 a. **y wardiau etholiadol yn Aberavon CC presennol a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sef Dwyrain Llansawel (2,119), Gorllewin Llansawel (1,977) Bryn a Chwmafon (5,018), Coed-ffranc Ganol (2,733), Gogledd Coed-ffranc (1,752), a Gorllewin Coed-ffranc (2,629), Y Cymer (2,015), Glyncorrwg (792), a Gwynfi (895);**
- 23.8 b. **Etholaeth bresennol Neath CC yn gyfan**
- 23.9 **Byddai gan yr etholaeth hon 74,621 o etholwyr sydd 0.2% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 23.10 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau ar gyfer trefniadau amgen i'r etholaeth hon, a oedd yn cynnwys enwau amgen. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw enwau amgen ar gyfer yr etholaeth arfaethedig fel y'i disgrifiwyd yn ei gynnig cychwynnol.
- 23.11 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newid i enw'r etholaeth ar y sail: "*Gan ein bod wedi argymhell dileu wardiau Baglan, Aberafan, a Gorllewin a Dwyrain Sandfields o etholaeth arfaethedig Castell-nedd ac Aberafan, rydym yn argymhell bod yr etholaeth [nawr] yn cael ei galw yn Neath (Castell-nedd).*" Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn fod yr enw lawn mor briodol, neu'n fwy priodol, nag unrhyw enwau eraill a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau.
- 23.12 Mae'r Comisiwn yn cytuno ag argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol ac yn cytuno bod yr etholaeth arfaethedig yn cael ei henwi yn **Neath**. Yr enw amgen yw **Castell-nedd**.

Neath (Castell-nedd)



## 24. Swansea East (Dwyrain Abertawe)

- 24.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
- 24.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Aberavon** CC gyfanswm o 48,346 o etholwyr sydd 35% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 32% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  - 24.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Gower** CC gyfanswm o 59,478 o etholwyr sydd 20% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth ac 16% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  - 24.1 c. Mae gan etholaeth bresennol **Swansea East** BC gyfanswm o 55,392 o etholwyr sydd 26% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 22% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  - 24.1 d. Mae gan etholaeth bresennol **Swansea West** BC gyfanswm o 51,952 o etholwyr sydd 31% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 27% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 24.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 24.2 a. y cyfan o **Swansea East** BC presennol a wardiau etholiadol Dinas a Sir Abertawe, sef Bôn-y-maen (4,697), Cwmbwrla (5,337), Glandwr (4,472), Llansamlet (10,408), Treforys (11,532), Mynydd-bach (6,429), Penderi (7,146) St. Thomas (5,020);
  - 24.2 b. y wardiau etholiadol yn **Aberavon** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sef Coed-ffranc Ganol (2,733), Gogledd Coed-ffranc (1,752), a Gorllewin Coed-ffranc (2,629);
  - 24.2 c. y ward etholiadol yn **Gower** CC presennol a Dinas a Sir Abertawe, sef Clydach (5,525);a,
  - 24.2 d. y ward etholiadol yn **Swansea West** BC presennol a Dinas a Sir Abertawe, sef Y Castell (8,834).
- 24.3 Byddai gan yr etholaeth hon 76,514 o etholwyr sydd 2.3% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Swansea East**. Yr enw amgen a awgrymwyd oedd **Dwyrain Abertawe**.
- 24.4 Derbyniodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau ysgrifenedig, yn ogystal â chynrychiolaethau yn y gwrandawiadau cyhoeddus, a ddywedodd y byddai'n fwy priodol pe bai tair ward etholiadol Coedffranc, a oedd wedi'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig

Dwyrain Abertawe yn y cynigion cychwynnol, yn cael eu lleoli mewn etholaeth arfaethedig Castell-nedd fel y trafodwyd ym mharagraff 25.4 o bennod 5.

- 24.5 Derbyniodd y Comisiwn gynigion ar gyfer trefniadau amgen gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru a gefnogodd dileu wardiau etholiadol Coedffranc o'r etholaeth arfaethedig hon. Roedd y trefniadau amgen yn cynnig ymhellach bod wardiau Llangyfelach, Mawr, a Phenllergaer yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe yn lle'r wardiau hyn. Maent hefyd yn awgrymu cynnwys ward Cwmbwrla yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe yn hytrach nag yn etholaeth Dwyrain Abertawe, am fod y ward wedi'i gwahanu oddi wrth weddill Dwyrain Abertawe. Cefnogir y farn hon gan y cyn Aelod Cynulliad ar gyfer yr ardal. Mynegodd gyflwyniad y Blaid Geidwadol y farn y byddai wardiau etholiadol Llangyfelach, Mawr, a Phenllergaer yn cael eu gwasanaethu'n well o'u cynnwys mewn etholaeth arfaethedig Llanelli a Chwm Tawe. Roedd y Blaid Geidwadol yn dadlau bod wardiau Cwm Tawe yn cysylltu'n dda â Llanelli drwy ward etholiadol Pontarddulais.
- 24.6 Nododd y Comisiynwyr Cynorthwyol y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn dynodi bod Llangyfelach, a Phenllergaer "*...yn troi at Dreforys a Dinas Abertawe ar gyfer cyflogaeth, a gwasanaethau a cheir cysylltiadau trafniadaeth rhwng Llangyfelach ac ardaloedd yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe.*" Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: "*Mae Mawr yn ward wledig eang yng nghornel gogledd orllewinol ardal Dinas a Sir Abertawe. Mae cysylltiadau trafniadaeth yn dilyn yr afonydd i mewn i Glydach neu Dreforys, felly mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn troi i Abertawe am wasanaethau*". Mae llifoedd traffig a nodweddion daearyddol yn dangos hefyd mai ychydig o ddylanwad sydd gan Llanelli a Sir Gaerfyrddin ar Gwm Tawe, ac maent yn awgrymu y byddai'r tair ward yn elwa o gael eu cynnwys yn Nwyrain Abertawe.
- 24.7 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad bod wardiau Coedffranc yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd, gan osgoi torri eu cysylltiadau â Chastell-nedd felly o ran y gymuned, trafniadaeth a chysylltiadau cymdeithasol eraill, a daeth i'r casgliad bod y newid hwn yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well. Er mwyn helpu sicrhau bod etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe o fewn yr amrediad etholiadol statudol ac mewn ymateb i gynrychiolaeth gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Abertawe a Gŵyr, argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol ei bod yn briodol i ward etholiadol Cwmbwrla gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe y mae ganddi gysylltiadau lleol cryfach â hi.
- 24.8 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac yn cynnig cynnwys wardiau etholiadol Llangyfelach, Mawr, a Phenllergaer yn yr etholaeth arfaethedig. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn cefnogi cynnwys y wardiau etholiadol hyn am fod ganddynt gysylltiadau lleol da â Dinas Abertawe. Hefyd, roedd y Comisiwn yn cytuno ag argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol mai'r ward etholiadol fwyaf priodol i'w chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe, yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe, oedd Cwmbwrla. Byddai hynny'n sicrhau bod yr etholaethau arfaethedig o fewn yr amrediad etholiadol statudol.



## ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG AROLWG 2018

### 24.9 Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:

24.9 a. y wardiau Swansea East BC presennol a wardiau etholiadol Dinas a Sir Abertawe, sef Bôn-y-maen (4,697), Glandwr (4,472), Llansamlet (10,408), Treforys (11,532), Mynydd-bach (6,429), Penderi (7,146), a St. Thomas (5,020);

24.9 b. y ward etholiadol yn Gower CC presennol a Dinas a Sir Abertawe, sef Clydach (5,525), Llangyfelach (3,803), Mawr (1,305), a Penlle'r-gaer (2,466), a,

24.9 c. y ward etholiadol yn Swansea West BC presennol a Dinas a Sir Abertawe, sef Y Castell (8,834)


24.10 Byddai gan yr etholaeth hon 71,637 o etholwyr sydd 4.2% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.

24.11 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau ar gyfer trefniadau amgen i'r etholaeth hon, a oedd yn cynnwys enwau amgen. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw enwau amgen ar gyfer ei gynnig cychwynnol.

24.12 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn fod yr enw a gynigiwyd yn y cynnig cychwynnol lawn mor briodol, neu'n fwy priodol nag unrhyw enwau eraill a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau.

24.13 Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r Comisiynwyr Cynorthwyol bod yr enw a gynigiwyd yn y cynnig cychwynnol yn briodol. Felly maent yn argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Swansea East**. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **Dwyrain Abertawe**.

Swansea East (Dwyrain Abertawe)



## 25. Gower and Swansea West (Gŵyr a Gorllewin Abertawe)

25.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

25.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Gower** CC gyfanswm o 59,478 o etholwyr sydd 20% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth ac 16% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

25.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Swansea East** BC gyfanswm o 55,392 o etholwyr sydd 26% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 22% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

25.1 c. Mae gan etholaeth bresennol **Swansea West** BC gyfanswm o 51,952 o etholwyr sydd 31% yn is na chwota etholiadol y DU sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth a 27% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

25.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

25.2 a. Y wardiau etholiadol yn **Gower CC** presennol a Dinas a Sir Abertawe, sef Llandeilo Ferwallt (2,610), Fairwood (2,218), Gŵyr (2,828), Tre-gŵyr (3,862), Pontybrenin (3,299), Lluchwr Isaf (1,734), Newton (2,687), Ystumllwynarth (3,151), Penclawdd (2,852), Pennard (2,175), Lluchwr Uchaf (2,092), West Cross (5,023); a

25.2 b. y wardiau etholiadol yn **Swansea West** BC presennol a Dinas a Sir Abertawe, sef Cocyd (10,125) Dynfant (3,353) Gogledd Cilâ (1,892), De Cilâ (1,846), Mayals (2,060), Sgeti (10,294) Townhill (5,617) ac Uplands (8,155).

25.3 Byddai gan yr etholaeth hon 77,873 o etholwyr sydd 4.2% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Gower and Swansea West**. Yr enw amgen a awgrymwyd oedd **Gŵyr a Gorllewin Abertawe**.


25.4 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau ysgrifenedig, yn ogystal â chynrychiolaethau yn y gwrandawladau cyhoeddus, yn dweud y dylai wardiau etholiadol Pontybrenin, Lluchwr Isaf a Lluchwr Uchaf gael eu cynnwys yn yr un etholaeth â Gorseinon a Phenyrrheol gan awgrymu mai etholaeth Llanelli yn hytrach nag etholaeth Gŵyr a Gorllewin Abertawe oedd yr etholaeth fwyaf priodol ar gyfer yr ardaloedd hyn. Cefnogwyd yr awgrym hwn gan yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol Llanelli, a ddywedodd bod gan y bobl o'r ardaloedd hyn draddodiad hir o weithio, siopa a threulio amser hamdden yn Llanelli oherwydd eu lleoliad dros Bont Lluchwr. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth nad oedd yn cytuno â'r ymagwedd hon, a derbyniwyd ychydig o gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi cynnwys y wardiau hyn yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe fel y cynigiwyd

gan y Comisiwn yn ystod ei gynigion cychwynnol. Fodd bynnag, roedd y cynrychiolaethau hyn yn mynegi'r farn hefyd y dylai wardiau etholiadol Gorseinon a Penllergaer gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon hefyd. Roedd rhywfaint o gefnogaeth hefyd ymhlith y cynrychiolaethau y dylai'r wardiau hyn i gyd gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe.

- 25.5 Mae gwrthgynigion Democratiaid Rhyddfrydol Abertawe a Gŵyr yn awgrymu cynnwys ward etholiadol Cwmbwrla yn yr etholaeth arfaethedig hon yn hytrach nag yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe. Dywedodd y gynrychiolaeth y byddai cynnwys Cwmbwrla yn yr etholaeth arfaethedig hon yn sicrhau y byddai'r etholaethau cyfagos yn gallu parhau o fewn yr amrediad etholiadol statudol. Dywed y gynrychiolaeth fod mwy o gyswllt gan ward Cwmbwrla â Gorllewin Abertawe, a'i bod, yn ei hanfod, wedi'i gwahanu'n ddaearyddol oddi wrth weddill etholaeth bresennol Dwyrain Abertawe y mae'n ffurfio rhan ohoni ar hyn o bryd. Ailadroddwyd y dadleuon hyn mewn cynrychiolaeth gan gyn Aelod Cynulliad, a gefnogodd y diwygiad a awgrymwyd a fyddai'n cynnwys ward Cwmbwrla yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe.
- 25.6 Rhoddodd y Comisiynwyr Cynorthwyol ystyriaeth i'r cynrychiolaethau ysgrifenedig a'r cynrychiolaethau a wnaed yn y gwrandawiadau cyhoeddus, a daeth i'r casgliad mai'r etholaeth fwyaf priodol i gynnwys wardiau etholiadol Llwchwr Uchaf a Llwchwr Isaf a Phontybrenin yw etholaeth arfaethedig Llanelli. Felly mae'r Comisiynwyr Cynorthwyol wedi cynnig etholaeth Gŵyr a Gorllewin Abertawe nad yw'n cynnwys y wardiau hynny mwyach ond yn cynnwys ward etholiadol Cwmbwrla. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad y byddai'r trefniant hwn yn cadw cysylltiadau lleol ac yn adlewyrchu'r meini prawf statudol orau.
- 25.7 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac yn cynnig y dylai wardiau etholiadol Llwchwr Uchaf, Llwchwr Isaf, a Phontybrenin gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Llanelli yn hytrach na'r etholaeth arfaethedig hon. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi cynnwys y wardiau etholiadol hyn mewn etholaeth arfaethedig Llanelli gan fod ganddynt gysylltiadau lleol â'r ardal honno. Roedd y Comisiwn hefyd yn cytuno gydag argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol mai'r ward etholiadol fwyaf priodol i'w chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig, ac a fyddai'n ei galluogi i fodloni'r amrediad etholiadol statudol, yw Cwmbwrla.
- 25.8 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 25.8 a. **y wardiau etholiadol yn Gower CC presennol a Dinas a Sir Abertawe, sef Llandeilo Ferwallt (2,610), Fairwood (2,218), Gŵyr (2,828), Tre-gŵyr (3,862), Newton (2,687), Ystumllwynarth (3,151), Penclawdd (2,852), Pennard (2,175), West Cross (5,023); a**
- 25.8 b. **y ward etholiadol yn Swansea West BC presennol a Dinas a Sir Abertawe, sef Cwmbwrla (5,337); a,**

- 25.8 c. **y wardiau etholiadol yn Swansea West BC presennol a Dinas a Sir Abertawe, sef Cocyd (10,125) Dynfant (3,353) Gogledd Cilâ (1,892), De Cilâ (1,846), Mayals (2,060), Sgeti (10,294) Townhill (5,617) ac Uplands (8,155).**
- 25.9 **Byddai gan yr etholaeth hon 76,085 o etholwyr sydd 1.8% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 25.10 Roedd y partïon a wnaeth gynrychiolaethau yn derbyn yn gyffredinol fod yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yn briodol. Ni roddwyd unrhyw gynrychiolaethau gerbron i awgrymu enw gwahanol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig, gan fod yr enw arfaethedig yn parhau i adlewyrchu'r ardal dan sylw.
- 25.11 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol. Mae'r Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn fod yr enw lawn mor briodol, neu'n fwy priodol nag unrhyw enwau eraill a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau.
- 25.12 Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r Comisiynwyr Cynorthwyol bod yr enw a gynigiwyd yn y cynnig cychwynnol yn briodol. Felly maent yn argymhell y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Gower and Swansea West**. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **Gŵyr a Gorllewin Abertawe**.

**Gower and Swansea West (Gŵyr a Gorllewin Abertawe)**



1. Dynfant (3,353)
2. De Cilâ (1,846)
3. Gogledd Cilâ (1,892)
4. Townhill (5,617)

## 26. Llanelli

- 26.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
- 26.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Llanelli** CC gyfanswm o 57,202 o etholwyr sydd 23% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth, a 19% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 26.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Gower** CC gyfanswm o 59,468 o etholwyr sydd 20% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth, ac 16% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 26.2 Yng nghynigion cychwynol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 26.2 a. y cyfan o etholaeth bresennol **Llanelli** CC yn cynnwys wardiau etholiadol Sir Gaerfyrddin, sef Bigyn (4,439), Porth Tywyn (3,200), Y Bynie (2,985), Dafen (2,368), Elli (2,216), Felinfoel (1,343), Glanymor (3,833), Glyn (1,630), Yr Hendy (2,381), Hengoed (2,798), Cydweli (2,705), Llangennech (3,699), Llannon (3,817), Lliedi (3,625), Llwynhendy (2,974), Pembre (3,232), Pontyberem (2,074), Swiss Valley (2,041), Trimsaran (1,828), Tycroes (1,756) Tyisha (2,258); a
- 26.2 b. y wardiau etholiadol yn **Gower** CC presennol a wardiau etholiadol Dinas a Sir Abertawe, sef Gorseinon (3,228), Llangyfelach (3,803), Mawr (1,305), Penlle'r-gaer (2,466), Penyrheol (4,131) a Pontarddulais (4,616).
- 26.3 Byddai gan yr etholaeth hon 76,751 o etholwyr sydd 2.7% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Llanelli and Lliw**. Yr enw amgen a awgrymwyd oedd **Llanelli a Lliw**.
- 26.4 Derbyniodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn awgrymu y dylai'r etholaeth arfaethedig gynnwys wardiau etholiadol Lluchwr Uchaf, Lluchwr Isaf, a Phontybrenin, fel y trafodwyd yn mharagraff 25.4 o bennod 5.
- 26.5 Derbyniodd y Comisiwn un gynrychiolaeth gan Blaid Cymru Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr a oedd yn darparu rhywfaint o dystiolaeth fod dalgylchoedd ysgolion a phatrymau siopa lleol yn bodoli o amgylch Tycroes a Chwm Aman, a oedd yn awgrymu y dylai cymuned Tycroes gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Sir Gaerfyrddin.
- 26.6 Roedd trefniant amgen a gynigiwyd gan y Blaid Lafur yn awgrymu y dylai Cydweli gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin, ond ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi hyn heblaw i awgrymu y byddai'r newid yn fodd o gyflawni etholaeth gytbwys yn rhywle arall.
- 26.7 Ystyriodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y cynrychiolaethau a oedd yn trafod wardiau etholiadol Lluchwr Uchaf, Lluchwr Isaf, Pontybrenin, Penyrheol, a Gorseinon, a daethant i'r casgliad: "*Y dystiolaeth a dderbyniwyd gennym yw bod y pum ward etholiadol hyn yn ffurfio*

*un gymuned o fewn ardal drefol unigol a bod cysylltiadau trafndiaeth rhwng Lluchwr, a Phontybrenin a Gorseinon, a Phenyrheol. Trwy osod dwy o'r wardiau etholiadol hyn yn etholaeth arfaethedig Llanelli and Lliw a thair yn etholaeth arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe, mae'r cynigion Cychwynnol yn torri cysylltiadau lleol presennol rhwng y pum ward etholiadol hyn. Argymhellwn, felly, y dylai wardiau etholiadol Lluchwr Isaf, Lluchwr Uchaf, a Phontybrenin gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Llanelli ynghyd â wardiau etholiadol Gorseinon a Phenyrheol."*

- 26.8 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn y byddai'n briodol cynnwys wardiau etholiadol Cydweli a Chymuned Tycroes yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Llanelli. Mae cynrychiolaethau gan Blaid Cymru'n honni bod Tycroes yn uniaethu ag etholaeth Caerfyrddin, ond ni honnwyd ac ni ddangoswyd bod cysylltiadau tebyg yn bodoli mewn perthynas â Chydwelli.
- 26.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, daeth y Comisiwn i'r casgliad y byddai'n briodol cynnwys wardiau etholiadol Lluchwr Uchaf, Lluchwr Isaf, a Phontybrenin yn etholaeth Llanelli, oherwydd bod gan y wardiau hynny gysylltiadau â wardiau Gorseinon a Phenyrheol yr argymhellir eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Llanelli. Nid oedd y Comisiwn yn cytuno y dylai wardiau Cydweli a Thycroes gael eu dileu o'r etholaeth arfaethedig hon a'u cynnwys yn etholaeth Caerfyrddin, fel yr awgrymwyd gan y Comisiynwyr Cynorthwyol. Roedd y Comisiwn o'r farn bod diffyg tystiolaeth wedi'i chyflwyno i gefnogi'r newid hwn i'r cynigion cychwynnol. Nododd y Comisiwn fod wardiau etholiadol Cydweli a Tycroes o fewn etholaeth bresennol Llanelli. Gwnaethant nodi nad oedd digon o ddeunydd i awgrymu y byddai cynnwys y ddwy ward yn etholaeth arfaethedig Llanelli yn torri cysylltiadau i unrhyw raddau, neu i unrhyw raddau arwyddocaol. Roedd y Comisiwn o'r farn y byddai cynnwys pob un o'r pum ward yn etholaeth arfaethedig Llanelli yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well yn gyffredinol.
- 26.10 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 26.10 a. **Etholaeth bresennol Llanelli CC yn gyfan**
- 26.10 b. **y wardiau etholiadol yn Gower CC presennol a wardiau etholiadol Dinas a Sir Abertawe, sef Gorseinon (3,228), Pontybrenin (3,299), Lluchwr Isaf (1,734), Penyrheol (4,131), Pontarddulais (4,616), a Lluchwr Uchaf (2,092)**
- 26.11 **Byddai gan yr etholaeth hon 76,302 o etholwyr, sydd 2.1% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 26.12 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn cynnig cyfluniadau amgen ar gyfer yr etholaeth hon a oedd yn cynnwys enwau amgen. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw enwau amgen ar gyfer etholaeth a oedd yn cynnwys y wardiau a argymhellwyd yn ei gynnig cychwynnol.
- 26.13 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newid enw'r etholaeth er mwyn dileu'r cysylltair, gan newid yr enw i Llanelli Lliw, er mwyn cydnabod y dymuniad am enw byrrach ar gyfer yr ardal.



## ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG AROLWG 2018

- 26.14 Mae'r Comisiwn o'r farn bod y newidiadau i'r cynigion cychwynnol yn golygu y byddai'r enw unigol Llanelli yn adlewyrchu'r ardal sydd wedi'i chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig yn fwy priodol. Felly, maent yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n **Llanelli**. Mae Llanelli'n adnabyddus yn y ddwy iaith ac felly ni awgrymir enw amgen.



## 27. Caerfyrddin (Carmarthen)

27.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

27.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Carmarthen East and Dinefwr** CC gyfanswm o 53,991 o etholwyr, sydd 28% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth, a 24% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

27.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Carmarthen West and South Pembrokeshire** CC gyfanswm o 55,118 o etholwyr, sydd 26% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth, a 22% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.

27.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

27.2 a. y wardiau etholiadol yn **Carmarthen East and Dinefwr** CC presennol a Sir Gaerfyrddin, sef Abergwili (1,799), Rhydaman (1,861), Betws (1,730), Cilycwm (1,145), Cynwyl Gaeo (1,260), Garnant (1,486), Glanaman (1,720), Gorslas (3,384), Llanddarog (1,570), Llandeilo (2,234), Llanymddyfri (1,980), Llandybie (3,107), Llanegwad (1,887), Llanfihangel Aberbythych (1,417), Llanfihangel-ar-Arth (2,098), Llangadog (1,544), Llangynnwr (2,049), Llangyndeyrn (2,550), Llanybydder (1,922), Manordeilo a Salem (1,709), Penygroes (2,143), Pontaman (2,047), Cwarter Bach (2,108), Llanismel (2,097), Saron (3,028)a,

27.2 b. y wardiau etholiadol yn **Carmarthen West and South Pembrokeshire** CC presennol a Sir Gaerfyrddin, sef Tref Caerfyrddin Gogledd (3,606), Tref Caerfyrddin De (2,537), Tref Caerfyrddin Gorllewin (3,196), Cynwyl Elfed (2,444), Maestref Talacharn (2,085), Llanboidy (1,582), Llansteffan (1,621), Sancler (2,300), Trelech (1,659), a Hendy-gwyn-ar-daf (1,664).


27.3 Byddai gan yr etholaeth hon 72,569 o etholwyr, sydd 2.9% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Caerfyrddin**. Yr enw amgen a awgrymwyd oedd **Carmarthenshire**.

27.4 Ni dderbyniodd y Comisiwn lawer o gynrychiolaethau ynglŷn â'r etholaeth hon, ond, fel y trafodwyd ym mharagraffau 26.5 a 26.6 o bennod 5 tudalen 115, derbyniodd y Comisiwn rai cynigion ar gyfer trefniadau amgen. Byddai'r rhain yn gweld wardiau etholiadol Cydweli a Tycroes yn cael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon.

27.5 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn y byddai'n fwy priodol cynnwys Cydweli a Thycroes yn yr etholaeth arfaethedig hon, gan ddatgan: *"...argymhellwn, er mwyn osgoi torri'r cysylltiadau lleol hynny, y dylai Tycroes gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin yn hytrach nag etholaeth Llanelli and Lliw yn unol â'r Cynigion Cychwynnol."* Yn yr un modd: *"...mae gan ward Cydweli gysylltiadau lleol agos ag etholaeth arfaethedig Caerfyrddin yn hytrach na wardiau etholiadol yn etholaeth arfaethedig Llanelli a Lliw..."*

- 27.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, daeth y Comisiwn i'r casgliad nad oedd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau gwneud y newidiadau i'r cynigion cychwynnol a argymhellwyd gan y Comisiynwyr Cynorthwyol. Nododd y Comisiwn fod wardiau etholiadol Cydweli a Tycroes o fewn etholaeth bresennol Llanelli. Gwnaethant nodi nad oedd digon o ddeunydd i awgrymu y byddai cynnwys y ddwy ward yn etholaeth arfaethedig Llanelli yn torri cysylltiadau i unrhyw raddau, neu i unrhyw raddau arwyddocaol, ag ardaloedd yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai cynnwys y ddwy ward hyn yn etholaeth arfaethedig Llanelli yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r trefniadau amgen a gynigiwyd.
- 27.7 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 27.7 a. y wardiau etholiadol yn Carmarthen East and Dinefwr CC presennol a Sir Gaerfyrddin, sef Abergwili (1,799), Rhydaman (1,861), Betws (1,730), Cilycwm (1,145), Cynwyl Gaeo (1,260), Garnant (1,486), Glanaman (1,720), Gorslas (3,384), Llanddarog (1,570), Llandeilo (2,234), Llanymddyfri (1,980), Llandybie (3,107), Llanegwad (1,887), Llanfihangel Aberbythych (1,417), Llanfihangel-ar-Arth (2,098), Llangadog (1,544), Llangynnwr (2,049), Llangyndeyrn (2,550), Llanybydder (1,922), Manordeilo a Salem (1,709), Penygroes (2,143), Pontaman (2,047), Cwarter Bach (2,108), Llanismel (2,097), Saron (3,028); a,
- 27.7 b. y wardiau etholiadol yn Carmarthen West and South Pembrokeshire CC presennol a Sir Gaerfyrddin, sef Tref Caerfyrddin Gogledd (3,606), Tref Caerfyrddin De (2,537), Tref Caerfyrddin Gorllewin (3,196), Cynwyl Elfed (2,444), Maestref Talacharn (2,085), Llanboidy (1,582), Llansteffan (1,621), Sancler (2,300), Trelech (1,659), a Hendy-gwyn-ar-daf (1,664).
- 27.8 **Byddai gan yr etholaeth hon 72,569 o etholwyr, sydd 3% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 27.9 Derbyniwyd rhai cynrychiolaethau a oedd yn mynegi blaenoriaeth am enw'r etholaeth arfaethedig a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol, ac roedd cynrychiolaethau eraill yn awgrymu Dinefwr yn yr enw. Enw hanesyddol yw hwn yr ystyriwyd ei fod yn berthnasol i ardal ehangach na'r etholaeth arfaethedig, felly nid oedd y Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol cynnwys Dinefwr yn enw'r etholaeth.
- 27.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newid yr enw Caerfyrddin (Carmarthenshire) a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth yn y lle cyntaf i Caerfyrddin (Carmarthen). Er bod y newid hwn yn ymddangos yn un bach, daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: *"Y dref yw Caerfyrddin a'r sir yw Sir Gaerfyrddin. O ystyried bod llawer o Sir Gaerfyrddin y tu allan i'r etholaeth arfaethedig, teimlwn y byddai Caerfyrddin a Carmarthen yn fwyaf priodol."*
- 27.11 Mae'r Comisiwn yn cytuno â'r Comisiynwyr Cynorthwyol y dylai'r enw cychwynnol a gynigiwyd gael ei newid fel y disgrifiwyd, ac felly'n argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n **Caerfyrddin**. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **Carmarthen**.

**Caerfyrddin (Carmarthen)**



## 28. Mid and South Pembrokeshire (Canol a De Sir Benfro)

- 28.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
- 28.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Carmarthen West and South Pembrokeshire** CC gyfanswm o 55,118 o etholwyr, sydd 26% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth, a 22% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 28.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Preseli Pembrokeshire** CC gyfanswm o 54,638 o etholwyr, sydd 27% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth, a 23% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol, sef 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 28.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 28.2 a. y wardiau etholiadol yn **Carmarthen West and South Pembrokeshire** CC presennol a Sir Benfro, sef Amroth (909), Carew (1,106), East Williamston (1,816), Hundleton (1,346), Cilgeti/Begeli (1,563), Lanbedr Felfre (1,211), Lamphey (1,318), Manorbier (1,568), Martletwy (1,510), Arberth (1,483), Arberth Wledig (1,143), Doc Penfro: Canol (1,007), Doc Penfro: Llanion (1,853), Doc Penfro: Market (1,216), Doc Penfro: Pennar (2,257), Penfro: Monkton (962), Penfro: Gogledd St. Mary (1,380), Penfro: De St. Mary (946), Penfro: St. Michael (1,998), Penalun (1,188), Saundersfoot (1,867), Dinbych-y-Pysgod: Gogledd (1,574), Dinbych-y-Pysgod: De (1,661); a,
- 28.2 b. y wardiau etholiadol yn **Preseli Pembrokeshire** CC presennol a Sir Benfro, sef Burton (1,401), Camrose (1,992), Hwlfordd: Y Castell (1,466), Hwlfordd: Garth (1,539), Hwlfordd: Portfield (1,642), Hwlfordd: Prendergast (1,467), Hwlfordd: Priory (1,731), Johnston (1,867), Treletert (1,706), Llangwm (1,724), Llanrhian (1,155), Maenclochog (2,248), Merlin's Bridge (1,478), Milford: Canol (1,389), Milford: Dwyrain (1,436), Milford: Hakin (1,672), Milford: Hubberston (1,738), Milford: Gogledd (1,854), Milford: Gorllewin (1,441), Neyland: Dwyrain (1,697), Neyland: Gorllewin (1,511), Rudbaxton (816), St. David's (1,413), St. Ishmael's (1,049), Solfach (1,144), The Havens (1,118) a Wiston (1,494).
- 28.3 Byddai gan yr etholaeth hon 74,070 o etholwyr, sydd 0.9% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **South Pembrokeshire**. Yr enw amgen a awgrymwyd oedd **De Sir Benfro**.
- 28.4 Ni dderbyniodd y Comisiwn lawer o gynrychiolaethau ynglŷn â'r etholaeth arfaethedig hon, ond derbyniodd y Comisiwn rai cynrychiolaethau a oedd yn awgrymu y dylai ward etholiadol Maenclochog gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon.


## ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG AROLWG 2018

- 28.5 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad bod cytundeb cyffredinol o blaid y cynnig cychwynnol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon yn y cynrychiolaethau ysgrifenedig ac yn y gwrandawiadau cyhoeddus.
- 28.6 Mae'r Comisiwn, ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, yn cytuno ag argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac yn bwriadu argymhell creu etholaeth fel y disgrifiwyd yn y cynnig cychwynnol.
- 28.7 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 28.7 a. **y wardiau etholiadol yn Carmarthen West and South Pembrokeshire CC presennol a Sir Benfro, sef Amroth (909), Carew (1,106), East Williamston (1,816), Hundleton (1,346), Cilgeti/Begeli (1,563), Lanbedr Felfre (1,211), Lamphey (1,318), Manorbier (1,568), Martletwy (1,510), Arberth (1,483), Arberth Wledig (1,143), Doc Penfro: Canol (1,007), Doc Penfro: Llanion (1,853), Doc Penfro: Market (1,216), Doc Penfro: Pennar (2,257), Penfro: Monkton (962), Penfro: Gogledd St. Mary (1,380), Penfro: De St. Mary (946), Penfro: St. Michael (1,998), Penalun (1,188), Saundersfoot (1,867), Dinbych-y-Pysgod: Gogledd (1,574), Dinbych-y-Pysgod: De (1,661); a,**
- 28.7 b. **y wardiau etholiadol yn Preseli Pembrokeshire CC presennol a Sir Benfro, sef Burton (1,401), Camrose (1,992), Hwlfordd: Y Castell (1,466), Hwlfordd: Garth (1,539), Hwlfordd: Portfield (1,642), Hwlfordd: Prendergast (1,467), Hwlfordd: Priory (1,731), Johnston (1,867), Treletert (1,706), Llangwm (1,724), Llanrhian (1,155), Maenclochog (2,248), Merlin's Bridge (1,478), Milford: Canol (1,389), Milford: Dwyrain (1,436), Milford: Hakin (1,672), Milford: Hubberston (1,738), Milford: Gogledd (1,854), Milford: Gorllewin (1,441), Neyland: Dwyrain (1,697), Neyland: Gorllewin (1,511), Rudbaxton (816), St. David's (1,413), St. Ishmael's (1,049), Solfach (1,144), The Havens (1,118) a Wiston (1,494).**
- 28.8 **Byddai gan yr etholaeth hon 74,070 o etholwyr, sydd 0.9% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 28.9 Awgrymwyd dewisiadau amgen i'r Comisiwn ar gyfer enw'r cynnig yn ymdrin â'r ardal hon a oedd yn adlewyrchu enwau a lleoedd hanesyddol yn Sir Benfro. Roedd y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn awgrymu nad oedd yr enw a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yn adlewyrchu'n gywir yr ardal y byddai'r etholaeth arfaethedig yn ei chynrychioli.
- 28.10 Ystyriodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y cynrychiolaethau a'r enwau amgen a ddarparwyd, a gwnaethant argymhell Sir Benfro fel enw'r etholaeth. Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn bod yr enw hwn yn fwy priodol nag unrhyw un o'r dewisiadau amgen eraill a ddarparwyd.

- 28.11 Fodd bynnag, roedd y Comisiwn o'r farn, oherwydd bod y cynnig yn ymdrin ag ardaloedd Sir Benfro sy'n ymestyn o dde i ganol y sir, y byddai'n fwy priodol cydnabod hyn yn yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth. Felly, maent yn awgrymu y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n **Mid and South Pembrokeshire**. Yr enw amgen a awgrymwyd yw **Canol a De Sir Benfro**.



Mid and South Pembrokeshire (De a Canol Sir Benfro)




## 29. Ceredigion a Gogledd Sir Benfro (Ceredigion and North Pembrokeshire)

- 29.1 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
- 29.1 a. Mae gan etholaeth bresennol **Carmarthen West and South Pembrokeshire** CC gyfanswm o 55,118 o etholwyr, sydd 26% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth, a 22% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 29.1 b. Mae gan etholaeth bresennol **Ceredigion** CC gyfanswm o 50,432 o etholwyr, sydd 33% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth, a 29% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 29.1 c. Mae gan etholaeth bresennol **Preseli Pembrokeshire** CC gyfanswm o 54,638 o etholwyr, sydd 27% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth, a 23% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 71,031 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 29.2 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- 29.2 a. y cyfan o **Ceredigion** CC presennol yn cynnwys wardiau etholiadol Sir Ceredigion, sef Aberaeron (1,030), Aberporth (1,685), Aberteifi/Cardigan-Mwldan (1,463), Aberteifi/Cardigan-Rhyd-y-Fuwch (815), Aberteifi/Cardigan-Teifi (688), Aberystwyth Bronglais (894), Aberystwyth Canol/Central (1,106), Aberystwyth Gogledd/North (1,064), Aberystwyth Penparcau (2,067), Aberystwyth Rheidol (1,414), Beulah (1,268), Y Borth (1,513), Capel Dewi (1,003), Ceulan-a-Maesmawr (1,443), Ciliau Aeron (1,468), Faenor (1,332), Llanbedr Pont Steffan (1,555), Llanarth (1,076), Llanbadarn Fawr-Padarn (721), Llanbadarn Fawr-Sulien (790), Llandyfriog (1,319), Llandysilio-gogo (1,430), Tref Llandysul (942), Llanfarian (1,090), Llanfihangel Ystrad (1,504), Llangeitho (1,064), Llanybi (1,104), Llanrhystyd (1,208), Llansanffraid (1,832), Llanwenog (1,336), Lledrod (1,659), Melindwr (1,478), Ceinewydd (782), Penbryn (1,612), Pen-parc (1,773), Tirymynach (1,276), Trefeurig (1,291), Tregaron (847), Troed-yr-aur (1,006), Ystwyth (1,484);
- 29.2 b. y wardiau etholiadol yn **Carmarthen East and Dinefwr** CC presennol a Sir Gaerfyrddin, sef Cenarth (1,570) a Llangeler (2,546);
- 29.2 c. y wardiau etholiadol yn **Montgomeryshire** CC presennol a Sir Powys, sef Blaen Hafren (1,782) a Llanidloes (2,070); a'r,
- 29.2 d. y wardiau etholiadol yn **Preseli Pembrokeshire** CC presennol a Sir Benfro, sef Cilgerran (1,396), Clydau (1,105), Crymych (1,918), Dinas Cross (1,210), Gogledd Ddwyrain Abergwaun (1,399), Gogledd Orllewin Abergwaun (1,094), Wdig (1,335), Trefdraeth (812), Scleddau (1,076) a Llandudoch (1,647)

- 29.3 Byddai gan yr etholaeth hon 71,392 o etholwyr, sydd 4.5% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Ceredigion a Gogledd Sir Benfro**. Yr enw amgen a awgrymwyd oedd **Ceredigion and North Pembrokeshire**.
- 29.4 Derbyniodd y Comisiwn nifer fawr o gynrychiolaethau yn datgan bod gan wardiau Llanidloes a Blaen Hafren gysylltiadau cymunedol lleol â'r Drenewydd ac y dylai'r wardiau gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn yn hytrach na'r etholaeth arfaethedig hon. Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith y cynrychiolaethau, a'r pleidiau gwleidyddol a gyflwynodd gynrychiolaethau, o blaid cynnwys wardiau Machynlleth, Llanbryn-mair, a Glantwymyn yn yr etholaeth arfaethedig hon yn hytrach nag etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn. Trafodir hyn ym mharagraff 7.4 o bennod 5 tudalen 39. Byddai hyn hefyd yn sicrhau bod yr etholaeth arfaethedig hon yn dod o fewn yr amrediad etholiadol statudol.
- 29.5 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad y dylai wardiau etholiadol Llanidloes a Blaen Hafren gael eu dileu o'r etholaeth hon o ganlyniad i'r cysylltiadau rhwng Llanidloes a'r Drenewydd a amlygwyd drwy gydol y cynrychiolaethau a dderbyniwyd gan y Comisiwn, ac y dylent gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn. Mae'r Comisiynwyr Cynorthwyol wedi cynnig cynnwys wardiau Machynlleth, Llanbryn-mair, a Glantwymyn yn yr etholaeth arfaethedig hon (yn hytrach na'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn). Mae'r diwygiad hwn i'r cynigion cychwynnol yn cael ei argymhell gan lawer o gynrychiolaethau a dderbyniwyd gan y Comisiwn hefyd.
- 29.6 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol. Darparwyd cryn dipyn o dystiolaeth i'r Comisiwn o blaid cynnwys Machynlleth, Llanbryn-mair, a Glantwymyn yn yr etholaeth arfaethedig hon a chynnwys Blaen Hafren a Llanidloes yn etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn er mwyn osgoi torri cysylltiadau lleol.
- 29.7 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
- 29.7 a. **Etholaeth bresennol Ceredigion CC yn gyfan**
- 29.7 b. **y wardiau etholiadol yn Carmarthen East and Dinefwr CC presennol a Sir Gaerfyrddin, sef Cenarth (1,570) a Llangeler (2,546);**
- 29.7 c. **y wardiau etholiadol yn Montgomeryshire CC presennol a Sir Powys, sef Glantwymyn (1,558), Llanbryn-mair (742), a Machynlleth (1,627); a,**
- 29.7 d. **y wardiau etholiadol yn Preseli Pembrokeshire CC presennol a Sir Benfro, sef Cilgerran (1,396), Clydau (1,105), Crymych (1,918), Dinas Cross (1,210), Gogledd Ddwyrain Abergwaun (1,399), Gogledd Orllewin Abergwaun (1,094), Wdig (1,335), Trefdraeth (812), Scleddau (1,076) a Llandudoch (1,647)**

- 29.8 **Byddai gan yr etholaeth hon 71,467 o etholwyr, sydd 4.4% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 29.9 Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn cynnig cyfluniadau amgen ar gyfer yr etholaeth hon a oedd yn cynnwys enwau amgen. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw enwau amgen ar gyfer etholaeth wedi'i ffurfio yn y modd a ddisgrifiwyd yn ei gynnig cychwynnol.
- 29.10 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol yr enw **Cardigan Bay** ar gyfer yr etholaeth arfaethedig, gyda'r enw amgen **Bae Ceredigion**. Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn y byddai'r enw hwn yn un priodol a chryno i'w ddefnyddio, oherwydd y byddai gan yr etholaeth arfaethedig arfordir sy'n cynnwys llawer o ehanger Bae Ceredigion/ Cardigan Bay. Roedd un gynrychiolaeth yn cytuno â'r enw arfaethedig hwn.
- 29.11 Roedd y Comisiwn o'r farn bod yr enw a gynigiwyd gan y Comisiynwyr Cynorthwyol yn artiffisial oherwydd bod yr ardal o fewn yr etholaeth arfaethedig yn cynnwys de Bae Ceredigion yn unig ac, yn lle hynny, roedd y Comisiwn yn ffafrio enw a oedd yn adlewyrchu'r trefniadau presennol ac yn disgrifio cyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig yn well. Felly, mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n **Ceredigion a Gogledd Sir Benfro**. Yr enw amgen a awgrymir yw **Ceredigion and North Pembrokeshire**.

Ceredigion a Gogledd Sir Benfro (Ceredigion and North Pembrokeshire)



## 6. Manylion Cyhoeddi

### Cyhoeddi'r Cynigion Diwygiedig

- 6.1. Cyhoeddir cynigion diwygiedig y Comisiwn a mapiau ar wefan y Comisiwn, sef [www.cffg2018.org.uk](http://www.cffg2018.org.uk), ac maent ar gael i'w gweld yn y 54 lleoliad cyhoeddus y manylir arnynt yn Atodiad 3. Anfonwyd copïau caled o'r cynigion at brif gynghorau, Aelodau Seneddol, Aelodau'r Cynulliad, a Phencadlysoedd y Pleidiau Gwleidyddol yng Nghymru a'r DU.
- 6.2. Cyhoeddir Adroddiad Cynigion Diwygiedig y Comisiwn ei hun (yr adroddiad hwn) ochr yn ochr ag adroddiad gan y Comisiynwyr Cynorthwyol. Mae Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol yn crynhoi'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnod ymgynghori, ac yn amlygu'r argymhellion annibynnol a wnaed i'r Comisiwn ar sail y cynrychiolaethau hyn.
- 6.3. Mae cynrychiolaethau a wnaed yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori ar gael ar-lein ar wefan y Comisiwn, ynghyd â'r cynrychiolaethau hynny a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf (a gyhoeddwyd yn flaenorol ar 28 Chwefror 2017). Oherwydd cost a chyfyngiadau adnoddau, ni fydd cynrychiolaethau'r ail gyfnod ymgynghori ar gael ar ffurf copi caled mewn lleoliadau cyhoeddus, fodd bynnag, mae cynrychiolaethau penodol ar gael ar gais.

### Y Gymraeg

- 6.4. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac mae'n croesawu gohebiaeth yn y ddwy iaith.
- 6.5. Mae Adran 5 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn mynnu bod gan gyrff cyhoeddus, sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, gynllun iaith Gymraeg. Mae copi o Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn wedi'i gyhoeddi ar wefan y Comisiwn neu ar gael ar gais.

## 7. Y Cyfnod Ymgynghori: 17 Hydref 2017 i 11 Rhagfyr 2017

- 7.1. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn wahodd cynrychiolaethau ynglŷn â'u cynigion diwygiedig. Gellir cyflwyno cynrychiolaethau yn ystod cyfnod wyth wythnos yn dechrau o'u cyhoeddi ar 17 Hydref 2017. Gellir cyflwyno cynrychiolaethau ar-lein ar Borth Ymgynghori'r Comisiwn, sef [www.cffg2018.org.uk](http://www.cffg2018.org.uk), trwy neges e-bost at [comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk](mailto:comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk), neu drwy'r post:

Comisiwn Ffiniau i Gymru  
Tŷ Hastings  
Llys Ffitsalan  
Caerdydd  
CF24 0BL

- 7.2. Gofynna'r Comisiwn i'r holl gynrychiolaethau nodi'n glir pa ardal neu ardaloedd y maent yn ymwneud â hi/nhw. Bydd pob cynrychiolaeth a dderbynnir gan y Comisiwn yn cael ei chydabod. Daw'r cyfnod ar gyfer cyflwyno cynrychiolaethau i ben ar 11 Rhagfyr 2017.
- 7.3. Sylwer na fydd y Comisiwn yn ystyried unrhyw gynrychiolaethau a dderbynnir cyn neu ar ôl y cyfnod ymgynghori dynodedig hwn. Felly, mae'r Comisiwn yn gofyn i bob cynrychiolaeth gael ei chyflwyno o fewn y cyfnod wyth wythnos.
- 7.4. Gofynnir i'r rhai hynny sy'n dymuno cyflwyno cynrychiolaethau ddweud p'un a ydynt yn cymeradwyo neu'n gwrthwynebu cynigion y Comisiwn, a rhoi eu rhesymau dros hynny. Yn arbennig, gofynnir i wrthwynebwyr gynnig dewis amgen i gynigion y Comisiwn. Mae'n debygol y bydd mwy o bwys yn cael ei roi i wrthwynebiad sy'n cynnwys gwrthgynnig na datganiad syml o wrthwynebiad. Yn hyn o beth – ac yn enwedig yn sgil pwysigrwydd Rheol 2 (yr amrediad etholiadol statudol) – bydd gwrthgynnig sy'n amlinellu cyfansoddiad yr etholaethau yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y gwrthgynnig yn cael ei ystyried yn fwy darbwyllog, ar y cyfan, na chynnig ar gyfer cyfansoddiad un etholaeth yn unig nad yw'n mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau canlyniadol tebygol ar ffigurau etholwyr etholaethau eraill.
- 7.5. Gofynnir i'r rhai hynny sy'n dymuno cyflwyno cynrychiolaethau hefyd gofio'r cyflwyniadau y mae'r Comisiwn eisoes wedi'u hystyried mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar ei gynigion cychwynol. Mae croeso i ymatebwyr gyflwyno unrhyw gynrychiolaeth, ond mae'r rhai hynny sy'n cyflwyno cyflwyniadau newydd, yn hytrach nag ailadrodd cynrychiolaethau a ystyriwyd eisoes, yn debygol o fod yn fwy defnyddiol i'r Comisiwn.
- 7.6. Dymuna'r Comisiwn bwysleisio bod y cynigion hyn yn ymwneud yn unig â'r etholaethau Seneddol ac nad ydynt yn effeithio ar etholaethau presennol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ffiniau prif gynghorau, ffiniau wardiau etholiadol na chymunedol, trethi, na gwasanaethau. Felly, ni fydd y Comisiwn yn ystyried unrhyw gynrychiolaeth a gyflwynir ynglŷn â'r materion hynny. Dymuna'r Comisiwn bwysleisio hefyd na fydd yn ystyried y rhannau o gynrychiolaethau lle y gwneir sylwadau ar nifer y seddau Seneddol a ddyrannwyd i Gymru nac ac yr amrediad etholwyr statudol. Mae'r rhain wedi cael eu gosod gan y Senedd ac ni all y Comisiwn eu newid.

7.7. Nid oes darpariaeth statudol ar gyfer gwrandawiadau cyhoeddus na chyfnod ymgynghori eilaidd yn yr ymgynghoriad ar gynigion diwygiedig y Comisiwn.

### **Polisi Golygu a Pholisi Preifatrwydd**

7.8. Dymuna'r Comisiwn gyhoeddi gymaint â phosibl o'r cynrychiolaethau a'r ohebiaeth arall a dderbynia. Fodd bynnag, mae angen cydbwysu'r angen i sicrhau tryloywder yn erbyn diogelu hawl unigolyn i breifatrwydd a'r gofyniad statudol i'r Comisiwn ddiogelu data personol unigolyn.

7.9. Felly, mae'r Comisiwn wedi creu polisi golygu a fydd yn gymwys i'r holl gynrychiolaethau y mae'n eu derbyn ac yn eu cyhoeddi. Mae'r rhain fel a ganlyn:

Unigolion Cyhoeddus/ Swyddogion (h.y. Aelodau Seneddol/ Aelodau'r Cynulliad/ Cynghorwyr – sy'n ysgrifennu mewn rhinwedd swyddogol):

- Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi enw, cyfeiriad, a manylion cyswllt unrhyw unigolyn cyhoeddus/ swyddog sy'n ysgrifennu mewn rhinwedd swyddogol.
- Bydd llofnodion, fodd bynnag, yn cael eu golygu.

Aelodau'r cyhoedd ac Unigolion Cyhoeddus/Swyddogion sy'n ysgrifennu'n bersonol:

- Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi enw pawb sy'n cyflwyno cynrychiolaeth, ond bydd yn golygu cyfeiriadau ac eithrio'r lleoliad daearyddol, h.y. y pentref, y dref, neu'r ddinas lle mae'r unigolyn hwnnw/unigolion hynny'n byw. Os bydd aelod o'r cyhoedd eisiau i'w enw gael ei olygu, bydd y Comisiwn yn gwneud hynny ar gais.
- Bydd pob cyfeiriad e-bost yn cael ei olygu.
- Bydd pob rhif ffôn yn cael ei olygu.
- Bydd pob llofnod yn cael ei olygu.

Yn ogystal, bydd y Comisiwn hefyd yn golygu unrhyw beth mewn cynrychiolaeth a fyddai'n anghyfreithlon a/ neu'n enllibus.



## 8. Gwybodaeth Ychwanegol

### Hawlfraint y Goron

- 8.1. Cyhoeddwyd y mapiau sydd ar adnau yn y manau adneuo gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru dan drwydded gan yr Arolwg Ordnans. Mae'r mapiau hyn a'r mapiau sy'n ffurfio rhan o'r ddogfen hon yn destun © Hawlfraint y Goron. Bydd unrhyw atgynhyrchu anawdurdodedig yn torri Hawlfraint y Goron a gallai arwain at erlyniad neu achos sifil. Dylai golygydd unrhyw bapur newydd sy'n dymuno defnyddio'r mapiau yn rhan o erthygl ynglŷn â'r cynigion diwygiedig gysylltu â'r Swyddfa Hawlfraint yn yr Arolwg Ordnans yn gyntaf.

### Ymholiadau

- 8.2. Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch am y cynigion diwygiedig hyn neu unrhyw agwedd arall ar waith y Comisiwn, cysylltwch â'r canlynol:

Comisiwn Ffiniau i Gymru  
Tŷ Hastings  
Llys Ffitsalan  
Caerdydd  
CF24 0BL

Rhif ffôn: 02920 464819

Ffacs: 02920 464823

E-bost: [comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk](mailto:comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk)

Gwefan: [www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk)

## Atodiad 1 Etholaethau Arfaethedig

Enw'r Etholaeth	Enw Amgen	Etholwyr	Amrywiant o gwota etholiadol y DU
Alyn and Deeside	Alyn a Glannau Dyfrdwy	77,032	3%
Blaenau Gwent	Blaenau Gwent	75,664	1.2%
Brecon, Radnor and Montgomery	Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn	74,903	0.2%
Bridgend and Vale of Glamorgan West	Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg	74,092	-0.9%
Caerfyrddin	Carmarthen	72,569	-2.9%
Caerphilly	Caerffili	76,323	2.1%
Cardiff North	Gogledd Caerdydd	78,187	4.6%
Cardiff South and East	De a Dwyrain Caerdydd	74,128	-0.9%
Cardiff West	Gorllewin Caerdydd	78,321	4.8%
Ceredigion a Gogledd Sir Benfro	Ceredigion and North Pembrokeshire	71,467	-4.4%
Conwy and Colwyn	Conwy a Cholwyn	77,613	3.8%
Cynon Valley and Pontypridd	Cwm Cynon a Phontypridd	78,005	4.3%
De Clwyd Gogledd Maldwyn	South Clwyd North Montgomeryshire	71,570	-4.3%
Flint and Rhuddlan	Y Fflint a Rhuddlan	75,548	1%
Gower and Swansea West	Gŵyr a Gorllewin Abertawe	76,085	1.8%
Gwynedd	Gwynedd	76,260	2%
Llanelli	Llanelli	76,302	2.1%
Merthyr Tydfil and Rhymney	Merthyr Tudful a Rhymni	77,770	4%
Mid and South Pembrokeshire	Canol a De Sir Benfro	74,070	-0.9%
Monmouthshire	Sir Fynwy	74,532	-0.3%
Neath	Castell-nedd	74,621	-0.2%
Newport	Casnewydd	75,986	1.6%
Ogmore and Aberavon	Ogwr ac Aberafan	78,365	4.8%
Rhondda and Llantrisant	Rhondda a Llantrisant	77,905	4.2%
Swansea East	Dwyrain Abertawe	71,637	-4.2%
Torfaen	Torfaen	72,367	-3.2%
Vale of Glamorgan East	Dwyrain Bro Morgannwg	76,984	3%
Wrexham	Wrecsam	72,137	-3.5%
Ynys Môn a Bangor	Anglesey and Bangor	71,398	-4.5%

**Atodiad 2 Mynegai Etholaethau Presennol**

<b>Etholaeth Bresennol</b>	<b>Etholwyr</b>	<b>Rhif y Dudalen</b>
Aberavon	48,346	91,99,103, 106
Aberconwy	44,153	15,19,24
Alyn and Deeside	60,550	31
Arfon	37,739	15,19
Blaenau Gwent	49,661	55
Brecon and Radnorshire	52,273	42
Bridgend	58,932	91,95
Caerphilly	61,158	58,62
Cardiff Central	49,403	80,84
Cardiff North	63,574	80,84
Cardiff South and Penarth	72,392	73,76,84,88
Cardiff West	63,892	73,76
Carmarthen East and Dinefwr	53,991	118,125
Carmarthen West and South Pembrokeshire	55,118	118,121,125
Ceredigion	50,432	125
Clwyd South	53,094	34,37
Clwyd West	56,862	19,24,37
Cynon Valley	49,405	65
Delyn	52,388	28,31
Dwyfor Meirionnydd	42,353	19,37
Gower	59,478	91,105,110,114
Islwyn	53,306	55,58,62
Llanelli	57,202	91, 114
Merthyr Tydfil and Rhymney	53,166	58
Monmouth	62,729	46,52
Montgomeryshire	56,989	37,42,125
Neath	54,691	103
Newport East	53,959	46,49
Newport West	60,101	49,52,62
Ogmore	54,614	69,91,95,99
Pontypridd	56,525	65,69,80
Preseli Pembrokeshire	54,638	121,125
Rhondda	49,161	69
Swansea East	55,392	106,110
Swansea West	51,952	91,106,110
Torfaen	58,562	52
Vale of Clwyd	55,839	19,24,28,37
Vale of Glamorgan	69,673	88,91,95
Wrexham	48,861	34
Ynys Môn	49,287	15

## Atodiad 3 Mannau Adneuo

Etholaeth Bresennol	Cyfeiriad Adneuo
<b>Aberavon</b>	Swyddfeydd y Cyngor, y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot, SA11 2GG
<b>Aberconwy</b>	Swyddfeydd y Cyngor, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU
<b>Alyn and Deeside</b>	Llyfrgell Gyhoeddus, Wepre Drive, Cei Connah, CH5 4HA
<b>Arfon</b>	Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH
<b>Blaenau Gwent</b>	Y Swyddfeydd Cyffredinol, Steelworks Road, Glynebwy, NP23 6DN
<b>Brecon and Radnorshire</b>	Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, LD3 7HR Neuadd y Sir, Llandrindod, LD1 5LG Gwasanaethau Llyfrgell Trefyclo, West Street, Trefyclo, LD7 1EN
<b>Bridgend</b>	Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB
<b>Caerphilly</b>	Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG
<b>Cardiff Central</b>	Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW
<b>Cardiff North</b>	Llyfrgell yr Eglwys Newydd, Park Road, yr Eglwys Newydd, CF14 7XA
<b>Cardiff South and Penarth</b>	Canolfan Grangetown, Havelock Place, Grangetown, CF11 6PA Llyfrgell Penarth, Stanwell Road, Penarth, CF64 2YT
<b>Cardiff West</b>	Llyfrgell Treganna, Library Street, Treganna CF5 1QD
<b>Carmarthen East and Dinefwr</b>	Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Caerfyrddin, 3 Stryd Spilman, Caerfyrddin, SA31 1LE
<b>Carmarthen West and South Pembrokeshire</b>	Gwasanaethau Statudol, Bloc 4, Parc Myrddin, Teras Richmond, Caerfyrddin, SA31 1HQ
<b>Ceredigion</b>	Swyddfeydd y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA
<b>Clwyd South</b>	Llyfrgell Llangollen, Y Capel, Stryd y Castell, Llangollen, LL20 8NY
<b>Clwyd West</b>	Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn, LL29 8AR Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun LL15 1YN
<b>Cynon Valley</b>	Llyfrgell Ganolog, Stryd Fawr, Aberdâr, CF44 7AG
<b>Delyn</b>	Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, CH7 6NB
<b>Dwyfor Meirionnydd</b>	Swyddfeydd y Cyngor, Cae Penarlâg, Dolgellau, LL40 2YB Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli, LL53 5AA
<b>Gower</b>	Llyfrgell Gorseinon, 15 West Street, Gorseinon, Abertawe, SA4 4AA Llyfrgell Tre-gŵyr, Mansel Street, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3BU
<b>Islwyn</b>	Llyfrgell y Coed-duon, 192 Stryd Fawr, y Coed-duon, NP12 1AJ
<b>Llanelli</b>	Llyfrgell Llanelli, Llanelli, SA15 3AS
<b>Merthyr Tydfil and Rhymney</b>	Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
<b>Monmouth</b>	Llyfrgell y Fenni, Baker Street, y Fenni, NP7 5BD Hyb Cymunedol Cas-gwent, Manor Way, Cas-gwent, NP16 5HZ Llyfrgell Gilwern, y Ganolfan Addysg Gymunedol, Common Road, Gilwern, NP7 0DS Hyb Cymunedol Trefynwy, Neuadd Rolls, Trefynwy, NP25 3BY Hyb Cymunedol Brynbuga, 35 Maryport Street, Brynbuga, NP15 1AE
<b>Montgomeryshire</b>	Gwasanaeth Llyfrgell y Drenewydd, Park Lane, y Drenewydd, SY16 1EJ Swyddfa Ardal y Trallwng, Severn Road, y Trallwng, SY21 7AS
<b>Neath</b>	Swyddfeydd y Cyngor, y Ganolfan Ddinesig, Castell-nedd, SA11 3QZ
<b>Newport East</b>	Hyb Cymunedol Cil-y-coed, Woodstock Way, Cil-y-coed, NP26 5DB Llyfrgell Ringland, 6 Canolfan Ringland, Casnewydd, NP19 9HG
<b>Newport West</b>	Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR
<b>Ogmore</b>	Llyfrgell Maesteg, North Lane, Maesteg, CF34 9AA Llyfrgell Pencoed, Pen-y-bont Road, Pencoed, CF35 5RA

## ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG AROLWG 2018

<b>Etholaeth Bresennol</b>	<b>Cyfeiriad Adneuo</b>
<b>Pontypridd</b>	Uned 2, Parc Busnes Maritime, Ystad Ddiwydiannol Maritime, Pontypridd, CF37 1NY
<b>Preseli Pembrokeshire</b>	Gwasanaethau Etholiadol, Cherry Grove, Hwlfordd, SA61 2NZ Neuadd y Sir, Hwlfordd, SA61 1TP
<b>Rhondda</b>	Swyddfeydd y Cyngor, y Pafiliwn, Parc Cambrian, Cwm Clydach, CF40 2XX
<b>Swansea East</b>	Llyfrgell Treforys, Heol Treharne, Abertawe, SA6 7AA
<b>Swansea West</b>	Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, SA1 3SN
<b>Torfaen</b>	Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, NP4 6YB
<b>Vale of Clwyd</b>	Llyfrgell y Rhyl, Stryd yr Eglwys, y Rhyl, LL18 3AA
<b>Vale of Glamorgan</b>	Y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, y Barri, CF63 4RU
<b>Wrexham</b>	Neuadd y Ddinas, Wrecsam, LL11 1WF
<b>Ynys Môn</b>	Gwasanaethau Etholiadol, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW

